# Adroddiad Blynyddol
# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
# 2014-2015




www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Adroddiad Blynyddol 2014 / 2015**

## Cynnwys


| | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Datganiad o Gyfrifoldeb | 7 |
| 3 | Crynodeb Ariannol | 8 |
| 4 | Gwerthuso ein Perfformiad yn ôl Canlyniadau'r Dinesydd: | 10 |
| | 1) Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus | 12 |
| | 2) Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel | 18 |
| | 3) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas | 21 |
| | 4) Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol | 26 |
| | 5) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir gydag economi ffyniannus | 29 |
| | 6) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy | 34 |
| | 7) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu | 38 |
| | 8) Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais | 41 |
| | 9) Camau Blaenoriaeth Cyffredinol | 44 |
| 5 | Gweithio ar y Cyd | 47 |
| 6 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o'n Perfformiad | 58 |
| 7 | Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru | 63 |
| 8 | Dweud eich Dweud | 72 |
| 9 | Ymhle y gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am eich Cyngor? | 73 |


Rydym yn fwy na pharod i ddarparu'r ddogfen hon mewn
fformat neu mewn iaith arall

A

Cysylltwch â'r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol
E-bost: :tgdc@conwy.gov.uk
Ffôn: ☎ 01492 574000

# Adroddiad Blynyddol 2014 / 2015

## 1 Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.Diben yr adroddiad yw rhoi cyfrif yn gyhoeddus am **sut y mae'r awdurdod wedi perfformio** yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015). Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli adolygiad yr awdurdod a gwerthusiad o gynnydd a wnaed yn ystod trydedd flwyddyn y Cynllun Corfforaethol pum mlynedd 2012-2017. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi lle mae angen gwella. Bob blwyddyn rydym yn gwahodd y cyhoedd i'n helpu i adolygu'r Cynllun Corfforaethol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn fforddiadwy. Caiff fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Corfforaethol ei gymeradwyo gan y Cyngor bob mis Mai a chaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan[1].

Mae Comisiwn Llywodraeth Cymru ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Adroddiad Williams[2]) a Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru 'Grym i Bobl Leol'[3] yn datgan bod **Cymru yn wynebu cryn galedi** ac mae'n hanfodol ein bod yn dod o hyd i ffyrdd eraill i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Ein blaenoriaeth yw gwneud y newidiadau hyn a sicrhau arbedion gyda chyn lleied o effaith ag sy'n bosibl ar sut rydym yn darparu gwasanaethau rheng flaen. Ein ffocws yw darparu'r gwasanaethau y mae dinasyddion Conwy eu hangen, ac sy'n cefnogi eu lles. Rydym eisiau parhau i ddarparu'r gwasanaethau cywir a gwneud hynny'n dda. Rydym yn falch ein bod, hyd yn hyn, wedi canfod arbedion drwy wneud arbedion effeithlonrwydd mewnol yn hytrach na thrwy dorri gwasanaethau rheng flaen. Yn 2013/2014 fe lwyddom i ddod o hyd i £5.157m o arbedion effeithlonrwydd ac **yn 2014/2015 llwyddwyd hefyd i gyflawni arbedion effeithlonrwydd o £8.453m.** Datgelodd yr Adolygiad o Wariant Gweinyddol diweddar ar draws Cymru a gynhaliwyd gan KPMG ar ran Llywodraeth Cymru, yn 2013/2014 mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oedd â'r **costau gweinyddol isaf yng Nghymru ar 4.2%** o'n gwariant refeniw gros. Mae'r dull hwn wedi cael ei adlewyrchu yn Arolwg Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru 2015[4] lle nododd **65% o ddinasyddion Conwy eu bod yn fodlon â'r gwasanaethau o ansawdd uchel a ddarperir.** Dyma oedd y sgôr uchaf yng Nghymru. Yn yr un modd, rhoddodd ddinasyddion Conwy y radd uchaf yng Nghymru am gyflwr addysg.

Yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, ac yn sgil effeithiau dilynol hynny ar Lywodraeth Leol yng Nghymru, mae'r awdurdod yn cynllunio'n weithredol i ganfod £10.221 miliwn yn rhagor o arbedion ar gyfer 2015/2016. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys gostyngiadau cyllideb o £10.765m ar gyfer 2016/2017 a £9.127m ar gyfer 2017/2018, serch hynny, gallai hyn newid unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi rhoi eglurhad i lywodraethau lleol ynghylch y Setliad. Rhagwelir y bydd angen gwneud arbedion sylweddol pellach am flynyddoedd lawer i ddod, ac felly mae'n parhau i fod yn hanfodol bwysig ein bod yn canolbwyntio ar adolygu darpariaeth gwasanaeth. O ganlyniad bydd rhaid i Aelodau Etholedig wneud penderfyniadau anodd. Fodd bynnag, rydym yn ymrwymedig i achosi cyn lleied o darfu â phosibl o ganlyniad i'r arbedion y mae gofyn i ni eu gwneud, trwy weithio mewn dull mwy arloesol ac effeithiol.

Er ein bod yn siomedig bod y Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus wedi gwrthod ein datganiad o ddiddordeb i archwilio hyfywedd o uno gwirfoddol cynnar gyda Chyngor Sir Ddinbych ymhellach, rydym wedi bod wrthi'n datblygu'r modd rydym yn gweithio drwy **drawsnewid dull o gyflwyno** Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, adolygu ein llety a moderneiddio ein prosesau busnes er mwyn darparu gwasanaethau mwy modern, hyblyg a hygyrch. Mae ein trigolion yn teimlo'r esgid yn gwasgu hefyd, ac mae **trechu tlodi** a chefnogi caledi ariannol yn ein cymunedau o'r pwys mwyaf. Mae gennym nifer o fentrau ar

---

[1] www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol
[2] http://gov.wales/topics/improvingservices/public-service-governance-and-delivery/report/?skip=1&lang=cy
[3] http://gov.wales/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?skip=1&lang=cy
[4] http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&lang=cy

waith i gefnogi trigolion lleol, sy'n cael eu cydlynu trwy'r Creu Cymunedau Cryf a Bwrdd Trechu Tlodi.

Yn ogystal â'n gwerthusiad ein hunain o'n perfformiad, mae ein Harchwilwyr allanol, Swyddfa Archwilio Cymru, yn cynnal adolygiad blynyddol ar ein gwaith hefyd. Yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/2015, daethant i'r casgliad:

***Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau yn ei feysydd blaenoriaeth; mae ei gofnod o ran cyflawni ei amcanion ariannol yn ei roi mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16***

Mae'n bleser gennym gael adrodd bod Conwy'n gwneud gwaith da tuag at gyflawni ei amcanion corfforaethol, er gwaetha'r heriau ariannol, ac yn 2014/2015 roedd 12 o'r 43 Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yn y chwartel uchaf Cymru, a Chonwy oedd **yr awdurdod lleol gorau eu perfformiad** yng Nghymru ar gyfer 3 dangosydd perfformiad. Bu gwelliant mewn perfformiad yn 18 o'n dangosyddion a bu dirywiad mewn 18 dangosydd. Ni fu unrhyw newid mewn 5 dangosydd, ac nid oes modd cymharu 2 â'r llynedd. Buom yn hynod lwyddiannus yn cyflawni ein targedau yn y meysydd canlynol:

a) Y ganran isel o ddisgyblion dan ofal yr Awdurdod Lleol, sy'n gadael addysg, hyfforddiant neu ddysgu sy'n seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol a gymeradwywyd. (Awdurdod sy'n Perfformio Orau).
b) Nifer y prentisiaethau a lleoliadau gwaith a ddarparwyd neu a gefnogwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
c) Canran uchel y datganiadau angen addysgol arbennig a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos. (Awdurdod sy'n Perfformio Orau).
d) Y gyfradd isel o achosion lle cafwyd oedi wrth drosglwyddo o ofal ysbyty am resymau gofal cymdeithasol.
e) Canran uchel y cleientiaid â chynllun gofal a adolygwyd yn ystod y flwyddyn
f) Y ganran isel o blant sydd wedi newid ysgol unwaith neu fwy. (Awdurdod sy'n Perfformio Orau).
g) Canran uchel yr asesiadau cychwynnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn pan fo tystiolaeth bod y plentyn wedi cael ei weld ar ei ben ei hun gan y Gweithiwr Cymdeithasol.
h) Canran uchel yr adolygiadau gofal cymdeithasol a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen statudol.
i) Nifer cyfartalog isel y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl.
j) Y canran uchel o wastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol a'i baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu.
k) Canran uchel yr achosion o dipio anghyfreithlon y cafwyd gwybod amdanynt a gafodd eu clirio cyn pen 5 niwrnod gwaith.
l) Y nifer uchel o unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.
m) Canran uchel y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd.

Mae meysydd eraill lle bu **cynnydd cadarnhaol** yn cynnwys:

a) Cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4 a 5 yn gwella.
b) Mae Cynllun Strategol Addysg Gymraeg wedi ei gymeradwyo.
c) Mae adroddiad blynyddol AGGCC cadarnhaol wedi ei dderbyn ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol.
d) Mae'r Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi ei lansio.

e) Daeth Partneriaeth Datrysiadau Tai Conwy yn weithredol ar 30 Mehefin 2014. Mae'r wefan www.taiconwy.co.uk bellach yn fyw.
f) Cymeradwywyd y Strategaeth Ddigwyddiadau ym mis Hydref 2014 ac fe'i lansiwyd yn Rali Cymru Prydain gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Chludiant.
g) Gwnaed cynnydd da o ran lleihau allyriadau carbon – uwchraddiwyd goleuadau 82 o safleoedd ac mae cam 1 o'r prosiect i newid lampau LED ar waith ar y priffyrdd.
h) Cwblhawyd Prosiect Tywysogion Gwynedd ym mis Medi 2014.
i) Mae Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy bellach yn weithredol.
j) Mae cyfarfodydd pwyllgorau allweddol yn cael eu gweddarlledu'n rheolaidd ac mae nifer o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi eu sefydlu i wella cyfathrebu â'r cyhoedd.
k) Mae'r Cynlluniau Ardal wedi eu hailddrafftio.
l) Mae'r gwaith o foderneiddio ein ffordd o weithio yn mynd rhagddo. Mae cynlluniau peilot Hyblygrwydd wrth Weithio wedi eu gwerthuso, mae Wi-Fi cyhoeddus wedi ei gyflwyno mewn rhagor o swyddfeydd ac mae'r prosiect dod â'ch dyfais eich hun wedi ei lansio. Anogir pobl i beidio â defnyddio papur ac i dacluso.
m) Mae'r Strategaeth Gofod Swyddfa yn mynd rhagddi – disgwylir penodi datblygwr erbyn mis Medi 2015.
n) Derbyniwyd Asesiad Corfforaethol ac archwiliad dilynol cadarnhaol gan Swyddfa Archwilio Cymru.
o) Derbyniodd y Tîm Cyfreithiol Adolygiad Lexcel cadarnhaol iawn ac maent wedi eu cynghori i gyflwyno cais ar gyfer gwobr genedlaethol.

**Gwobrau**

Rydym wedi ennill nifer o wobrau, gan gynnwys:

a) Cyngor Entrepreneuraidd y Flwyddyn yng Ngwobrau Chronicle Llywodraeth Leol y DU 2014. Am yr ail flwyddyn yn olynol, enillodd adran Parciau wobr y Perfformiwr Gorau yng ngwobrau APSE (roedd 3 thîm arall yr AFfCh ar y rhestr fer yn ogystal).
b) Enillodd Porth Eirias a Glan y Môr Bae Colwyn wobr Arloesi Cenedlaethol ICE.
c) Enillodd y Gwasanaeth Datblygu Cymunedol wobr Gwelliant Parhaus Cymunedol Cymru Gyfan ar gyfer y Ganolfan Iechyd.
d) Enillodd Bae Colwyn wobr Stryd Fawr Prydain ar gyfer dyfodol y stryd fawr.
e) Mae Stadiwm Eirias wedi ennill gwobr Braf Bob Nos.
f) Enillodd Theatrau a Chynadleddau Wobr Arian Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Venue Cymru o dan y categori Twristiaeth Busnes Gorau
g) Enillodd Wasanaeth Ieuenctid Conwy dair gwobr fawreddog ym maes Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid.
h) Cafodd Maes y Waen, Penmachno ei roi ar restr fer yng nghategori Datblygiad y Flwyddyn yng Ngwobrau Tai Cymru 2014.
i) Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych wedi cyrraedd rhestr fer Gwobrau Prentisiaethau Cymru, yng nghategori Macro-gyflogwr y Flwyddyn.
j) Cafodd adeilad newydd Ysgol Y Gogarth ei roi ar restr fer ar gyfer Gwobrau Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru 2014, yng nghategori Prosiect y Flwyddyn.
k) Mae Gwasanaeth Profedigaeth Conwy wedi llwyddo i gyrraedd Safon Aur y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd am y drydedd flwyddyn yn olynol.
l) Conwy yw'r unig Awdurdod yng Nghymru i ennill y safon efydd gan Buddsoddwyr mewn Pobl (IIP).

**Meysydd i'w datblygu**

Rydym yn ymhyfrydu yn y llwyddiannau hyn, ond mae hunanwerthuso hefyd yn golygu ystyried a ydym yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r gymuned gan ystyried, nid yn unig y pethau sydd wedi mynd yn dda, ond yr agweddau hynny y mae angen i ni eu gwella neu barhau i'w datblygu. O'r herwydd, byddwn hefyd yn anelu i ddatblygu gwaith yn y meysydd canlynol:

a) Parhau i adolygu ein cyllid a sicrhau effeithlonrwydd i gwrdd â gostyngiad yn y gyllideb.
b) Gwella perfformiad / chwilio am adnoddau i helpu i wella rhai mesurau ee,
    I. Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn, ac amseroldeb cynadleddau cyntaf amddiffyn plant.
    II. Canran y ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael cyffredinol.
    III. Canran y busnesau newydd a nodwyd a oedd yn destun ymweliad asesu risg neu a ddychwelodd holiadur hunanasesu yn ystod y flwyddyn ar gyfer hylendid bwyd.
    IV. Canran ceisiadau cynlluniau llawn 'Rheoli Datblygu' wedi eu gwirio cyn pen 15 diwrnod gwaith.
    V. % y plant sy'n gadael yr ysgol gynradd ac sy'n gallu nofio i safon ddigonol.
c) Parhau i weithio gyda GwE i adolygu cyrhaeddiad addysgol, yn enwedig Cyfnod Allweddol 2, TGAU a mynediad Athrawon at y cymhwyster CPCP sy'n ofynnol ar gyfer swyddi penaethiaid ysgolion.
d) Monitro effaith yr Asesiadau Amddifadu o Ryddid.
e) Gweithio gyda chydweithwyr Iechyd i adolygu'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth a pholisïau gweithredol ar gyfer iechyd meddwl.
f) Gweithredu'r Cynllun Tai Fforddiadwy ac adolygu'r Strategaeth Cartrefi Gwag.
g) Adolygu'r ffocws ar ffyrdd o fyw iach ac egnïol i adlewyrchu blaenoriaeth llythrennedd corfforol Llywodraeth Cymru, a pharhau i ganolbwyntio ar safonau nofio.
h) Parhau i ganolbwyntio ar gymorth i ofalwyr di-dâl.
i) Cwblhau a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer y Strategaeth Gaffael Gorfforaethol.
j) Gweithredu safonau iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.
k) Parhau i ddatblygu ymagwedd gorfforaethol tuag at gludiant.
l) Lansio system rheoli cynnwys newydd ar gyfer y wefan a gweithio i gynyddu lefel y bodlonrwydd â'n gwefan.
m) Cwblhau'r adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynlluniau Ardal.
n) Gweithio i roi gofynion deddfwriaeth newydd ar waith, ee, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gobeithiwn y byddwch o'r farn bod yr adroddiad hwn yn un llawn gwybodaeth ac yn werthusiad cytbwys o'n perfformiad, a byddem yn croesawu eich sylwadau ar yr adroddiad. Nod yr adroddiad yw darparu sicrwydd bod Conwy yn gofyn yn rheolaidd i ddinasyddion y Sir am eu barn, ac yn adolygu perfformiad er mwyn adlewyrchu ar feysydd i'w gwella.



Cyng Dilwyn Roberts
Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



Iwan Davies
Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## 2 Datganiad o Gyfrifoldeb

Mae'r Awdurdod yn adrodd ar berfformiad mewn 2 gam.

**Cam 1 Amcanion y Cynllun Gwella**

Yn unol â chanllawiau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella[5], bob blwyddyn, mae’n rhaid i'r Cyngor adolygu ei amcanion gwella a llunio cynllun clir ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, mae gennym gynllun strategol pum mlynedd ar gyfer gwella, a elwir yn Cynllun Corfforaethol 2012-2017. Cymeradwywyd y Cynllun Corfforaethol gan y Cyngor ar ffurf drafft ym mis Mawrth 2012. Cafodd ei gymeradwyo gan y weinyddiaeth etholedig newydd ym mis Medi 2012. Mae’r Cynllun yn cael ei adolygu’n flynyddol i sicrhau bod y blaenoriaethau’n parhau’n berthnasol ac yn fforddiadwy. Cafodd y trydydd adolygiad blynyddol o'r Cynllun Corfforaethol ei gwblhau ym mis Chwefror 2015 a chymeradwywyd y newidiadau i'r Cynllun Corfforaethol gan Cyngor ym mis Mai 2015. Mae amcanion diweddaraf y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2015/2016 yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol.

**Cam 2 Asesu Perfformiad**

Bob blwyddyn, mae’r Cyngor yn hunanasesu ei berfformiad a'i drefniadau llywodraethu corfforaethol yn ôl sut y mae wedi cyflawni ei flaenoriaethau dros y flwyddyn a aeth heibio:

**Llywodraethu:**

Mae'n bwysig bod trefniadau llywodraethu (y modd yr ydym yn cyfarwyddo ac yn rheoli ein busnesau ac yn ymwneud â chymunedau) yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a rheoli risg yn effeithiol. Mae a wnelo llywodraethu corfforaethol â'r ffordd y bydd aelodau etholedig a swyddogion yn ymdrin â busnes yr awdurdod, ac â sut y byddwn yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid a phartneriaid.

Yn unol â’r hyn sydd wedi ei nodi yn *Framework for Delivering Good Governance in Local Government* (2007) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru, caiff Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei lunio er mwyn adrodd am ein trefniadau ac am y meysydd lle cafwyd gwelliant. Mae’n rhaid i’r Prif Weithredwr a'r Arweinydd ei lofnodi a chaiff ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor bob mis Medi fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon.

**Perfformiad:**

Yn rhan o'n cyfrifoldebau o dan gyfarwyddyd Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, llunnir Adroddiad Blynyddol er mwyn adrodd ar hunanwerthusiad yr awdurdod o'i berfformiad. Mae’r adroddiad yn canolbwyntio ar berfformiad yr amcanion gwella a osodwyd ar gyfer 2014/2015. Fe'i cyflwynwyd i'w gymeradwyo gan y Cyngor ar 22 Hydref 2015 a chafodd ei gyhoeddi'n syth wedi hynny.

[5] http://gov.wales/topics/localgovernment/partnership/progimprove/?skip=1&lang=cy

## 3 Crynodeb Ariannol


Fel corff sy'n atebol i'r cyhoedd, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sicrhau gwerth am arian, ac yn ystod 2014/2015 roeddem yn codi'r bedwaredd ffi isaf ar gyfer Band D Treth y Cyngor yng Nghymru. Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi Setliad grant refeniw i Awdurdodau Lleol sy'n ariannu cyfran fawr o'r gyllideb refeniw. Roedd Setliad 2014/2015 yn cynnig cryn her, ac roedd yn cynnwys toriad cyllid mewn termau real o ganlyniad uniongyrchol i'r sefyllfa economaidd, ond gyda mesurau wedi'u cynnwys i amddiffyn cyllidebau Ysgolion. Canlyniad hyn oedd bod ein rhagolwg gwario'n uwch na'r gyllideb a oedd ar gael ac felly roedd angen canfod arbedion o £8.453miliwn er mwyn mantoli'r gyllideb. Canfuwyd yr arbedion â nifer o fentrau gan gynnwys ailstrwythuro ein Cyllido Cyfalaf, creu incwm ychwanegol a nifer o ymarferion yn ail-fodelu gwasanaethau gan gyflawni arbedion o ran staff.

Datgelodd yr Adolygiad o Wariant Gweinyddol diweddar ar draws Cymru a gynhaliwyd gan KPMG ar ran Llywodraeth Cymru, yn 2013/2014 mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oedd â'r **costau gweinyddol isaf yng Nghymru ar 4.2%** o'n gwariant refeniw gros.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y gwariwyd ein cyllideb yn 2014/2015 ac o ble y daeth yr arian (incwm).

### Sut caiff yr arian ei wario

| 2013/2014 Gwirionedd ol Cost Net £'000 | Gwasanaeth | 2014/2015 Diwygiedig Amcangyfri f £'000 | 2014/2015 Gwirionedd ol Cost Net £'000 |
|---|---|---|---|
| 91,856 | Addysg | 91,031 | 90,796 |
| 41,803 | Gwasanaethau Cymdeithasol | 43,021 | 43,143 |
| 24,882 | Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio | 25,083 | 25,074 |
| 5,916 | Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant | 5,618 | 5,592 |
| 2,279 | Tai | 2,576 | 2,576 |
| 8,276 | Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor | 9,250 | 9,092 |
| 10,309 | Ariannu Cyfalaf | 11,254 | 11,275 |
| 5,770 | Ardollau | 5,837 | 5,789 |
| 12,467 | Gwasanaethau eraill | 12,190 | 12,523 |
| **203,558** | **CYFANSWM GWASANAETHAU** | **205,860** | **205,860** |




## O ble daw'r arian

| 2013/2014 £'000 | Ffynhonnell | 2014/2015 £'000 |
|---|---|---|
| 121,703 | Grant Cynnal Refeniw - gan LlC | 120,751 |
| 36,466 | Cyfraniad o'r Gronfa Trethi Annomestig – gan LlC | 37,104 |
| 45,389 | Talwyd gan Drethdalwyr y Cyngor | 48,005 |
| **203,558** | **CYFANSWM CYLLID** | **205,860** |
| **(2,979)** | **BALANSAU (Dygwyd Ymlaen)** | **(4,466)** |
| **(4,466)** | **BALANSAU (Cariwyd Drosodd)** | **(2,466)** |

## Crynodeb o Wariant Cyfalaf

| 2013/2014 Gwariant £'000 | Gwasanaeth | 2014/2015 Gwariant £'000 |
|---|---|---|
| 13,291 | Addysg | 4,851 |
| 254 | Gwasanaethau Cymdeithasol | 1,952 |
| 17,425 | Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio | 14,544 |
| 4,059 | Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant | 4,078 |
| 1,307 | Tai'r Sector Preifat | 1,646 |
| 2,564 | Gwasanaethau eraill | 1,282 |
| **38,900** | **CYFANSWM GWASANAETHAU** | **28,353** |

## 4 Gwerthuso ein Perfformiad yn ôl Canlyniadau'r Dinesydd

Lluniwyd **Cynllun Corfforaethol 2012 – 2017** o ganlyniad i gasglu safbwyntiau a gwybodaeth ymchwil o sawl ffynhonnell. Casglwyd gwybodaeth gennym am ddemograffi'r sir er mwyn dynodi'r prif feysydd yr oedd angen eu gwella, a chawsom adborth ynglŷn â'r hyn yr oedd angen ei newid trwy gyfrwng ymgynghoriadau cyhoeddus ac adborth gan gwsmeriaid yn cynnwys pobl ifanc, trigolion Conwy, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau etholedig. Cafodd y wybodaeth a gasglwyd ei thrafod a chymeradwywyd set o flaenoriaethau allweddol (amcanion gwella) gogyfer â chreu Cynllun Corfforaethol 2012-2017. Caiff y Cynllun Corfforaethol ei adolygu'n flynyddol wedi ymgynghori â chymunedau, a chaiff ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mai bob blwyddyn.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn seiliedig ar 8 Canlyniad Conwy i'r Dinesydd sy'n rhan o'r Cynllun Cymunedol Integredig aml-asiantaethol, Un Conwy 2012 - 2025. Mae 8 Canlyniad y Dinesydd yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel sydd wedi eu hamlinellu yn y Rhaglen Lywodraethu.

Mae'r wybodaeth isod yn manylu ar yr adolygiad o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol yn ystod blwyddyn ariannol 2014/2015. Mae'r allwedd ganlynol yn diffinio statws coch/ oren/ gwyrdd (COG) pob gweithred a'r mesur.

**Allwedd COG y Camau Gweithredu:**

| | |
|---|---|
| Cam gweithredu ddim yn symud ymlaen / meysydd pryder wedi'u codi | Coch |
| Cam gweithredu yn symud ymlaen a dim pryderon wedi'u codi | Oren |
| Cam gweithredu wedi ei gyflawni | Gwyrdd |

**Allwedd COG y Mesuryddion Perfformiad:**

| ***O'i gymharu â'r targed a osodwyd:*** | |
|---|---|
| Mesur heb gyflawni'r targed ac yn is na'r lefel sy'n cael ei goddef | Coch |
| Mesur oddi mewn i'r goddefiant er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r targed | Oren |
| Targed ar gyfer y mesur wedi'i gyrraedd | Gwyrdd |
| Ni osodwyd targed | Ni osodwyd targed |
| Mesurydd perfformiad newydd yn 2014/2015 | MP Newydd |
| Ddim yn berthnasol | Amh. |
| Ni roddwyd targed i'r mesur, ond bu cynnydd mewn perfformiad | ⇧ |
| Ni roddwyd targed i'r mesur, ond ni fu newid yn y perfformiad | ⇔ |
| Ni roddwyd targed i'r mesur, ond bu gostyngiad mewn perfformiad | ⇩ |

**Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru:** Rydym wedi cymharu ein perfformiad gyda pherfformiad y 21 o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, pan fo data cenedlaethol ar gael. Rydym hefyd wedi datblygu rhai mesuryddion lleol ac wedi cymharu ein perfformiad ni gyda pherfformiad y 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru pan fo modd iddynt ddarparu data cymharol inni. Mae canlyniadau'r ymarfer hwn wedi eu cynnwys yn nhabl mesuryddion pob canlyniad. Er enghraifft os yw dau awdurdod wedi darparu cymhariaeth rydym wedi nodi ein perfformiad o blith 3, os oes 5 wedi darparu cymhariaeth rydym wedi nodi ein perfformiad o blith 6 ac yn y blaen.

Bob blwyddyn bydd yr Adain Archwilio Mewnol yn adolygu rhai o fesuryddion y cynllun corfforaethol er mwyn darparu sicrwydd ynglŷn â manylder y data a gyflwynir. Yn ystod archwiliad

2014/2015, canfuwyd gwallau yn archwiliad Canlyniad 3 – Mae pobl yng Nghonwy’n byw mewn tai diogel ac addas, a chyhoeddwyd adroddiad sicrwydd cyfyngedig. Gwnaed argymhellion ar gyfer gwella a rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith i gywiro'r meysydd gwan. Bydd archwiliad dilynol yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd 2015.

# Adroddiad Blynyddol 2014 / 2015



## Canlyniad 1 - Mae Pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus

### 1.1 Ein Camau Gweithredu Blaenoriaeth

**A1.1 Cefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol i gefnogi cyfleoedd gwaith.**

Mewn blynyddoedd blaenorol rydym wedi adrodd ar y cynnydd i gefnogi mentrau cymdeithasol o fewn y gwasanaeth datblygu cymunedol, ond mae'r cynnydd sylweddol i 137 o fentrau cymdeithasol a gefnogir yn brawf o well ymwybyddiaeth a dull tîm mwy cydlynol. Rydym wedi cwblhau'r prosiect grant Cyfenter oedd yn cefnogi 15 o fentrau. Roedd hyn yn cynnwys ailgylchu (dillad a chasglu dodrefn), Datblygu Cymunedol (bancio amser, prosiectau a arweinir gan y gymuned), Cerddoriaeth a Ffilm, Hamdden (clybiau pêl-droed, chwaraeon dŵr), Iechyd (canolfan lles, dementia) Twristiaeth (teithiau corfforol a digidol), Meithrinfa Gymraeg, Caffi / Bistro a Gwasanaethau Llyfrgell Gymunedol. Ni fydd y cynllun Cyfenter yn cael ei ddisodli ar lefel ranbarthol, a bydd yn dod yn gynllun cenedlaethol. Er ein bod yn aros am gynigion, mae'n annhebygol y bydd llawer o adnoddau ar gyfer y cynllun. Serch hynny, rydym wedi cadw ein Cynllun Grant Datblygu Mentrau Cymunedol.

Gwyrdd

**A1.2 Dod â phobl ddiamddiffyn yn nes at fod mewn gwaith trwy ddarparu sgiliau ymarferol a chyfleoedd hyfforddiant iddynt.**

Yn dilyn newidiadau mewn cyllido, mae'r tîm wedi bod yn darparu gwasanaeth ar gyfer teuluoedd anodd eu cyrraedd (o 1 Mehefin 2014) yn defnyddio cyllid Teuluoedd yn Gyntaf. Cafodd y gwasanaeth ei ymestyn i unigolion ag anabledd ar 1 Awst 2014, a rydym ar fin cynyddu maint y tîm trwy 3 swydd ymgynghorydd/mentor i ymdopi â'r galw am y gwasanaeth. Mae ehangu pellach wedi ei gynllunio i gynorthwyo pob unigolyn sy'n ddiamddiffyn ac sydd dan anfantais yn y dyfodol agos. Dyma'r flwyddyn gyntaf yn adrodd ar ganlyniadau ein cynnydd yn flynyddol. Yn flaenorol rydym wedi adrodd ar y canlyniad cronnus o ddeilliannau'r prosiect dros 5 mlynedd (yn unol â'r grant CGE). O hyn ymlaen byddwn yn cyflwyno adroddiad ffigurau blynyddol ac yn cynnwys gwybodaeth am y nifer o bobl ddiamddiffyn a difreintiedig sydd wedi'u targedu gyda chefnogaeth i symud tuag at gyflogaeth, yn ogystal â nifer yr aelwydydd sy'n ddiamddiffyn sydd â phlant sy'n cael eu cefnogi i symud tuag at gyflogaeth.

Gwyrdd

**A1.3 Cynyddu hyd, safon a nifer y lleoliadau profiad gwaith sydd ar gael o fewn y Cyngor i helpu pobl leol i feithrin sgiliau a phrofiadau perthnasol er mwyn gwella eu cyfle i gael gwaith.**

Mae 417 o leoliadau gwaith wedi eu cynnig ar draws yr awdurdod cyfan yn ystod y cyfnod hwn. Gofynnir i bob myfyriwr ddarparu adborth ar eu profiad er mwyn gwneud unrhyw newid angenrheidiol ar gyfer y dyfodol. Mae'r adborth a dderbyniwyd gan y Cyngor Ieuenctid yn gadarnhaol, ac yn cadarnhau bod ymagwedd y Cyngor tuag at ddarparu lleoliadau gwaith ystyrlon wedi gwella.

Gwyrdd

**A1.4 Cynyddu nifer y prentisiaethau modern sydd ar gael i helpu pobl leol i feithrin rhagor o sgiliau a phrofiad er mwyn gwella eu cyfle i gael gwaith.**

Mae 42 o brentisiaethau wedi cael cynnig ar draws ystod o wasanaethau, ac mae 36 ohonynt wedi cael eu cyflogi ac mae 8 wrthi'n mynd drwy'r broses recriwtio. Mae nifer o wasanaethau ar hyn o bryd yn adolygu'r posibilrwydd o gyflogi prentis. Yn ogystal â chynnal wythnos prentisiaeth i godi ymwybyddiaeth, roedd gan ddysgwyr o Ysgolion Uwchradd Conwy y cyfle i fynychu Skills Cymru yn Venue Cymru lle cawsant gyfle i gyfarfod cyflogwyr o bob rhan o'r rhanbarth.

Gwyrdd

**A1.5 Datblygu isadeiledd Technoleg Gwybodaeth mewn ysgolion i roi cymorth i bobl ifanc gael mynediad di-dor at addysg dechnolegol gyfoethog er mwyn datblygu sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu pobl ifanc (addysg wedi'i alluogi'n ddigidol).**

Mae'r Gwasanaeth Addysg yn brocera datblygiad proffesiynol ar gyfer ysgolion, megis edrych ar declynnau rheoli dysgu cledr llaw gyda TGCh Corfforaethol. Yn sgil datblygiad y Model Cenedlaethol, mae brocera datblygiad proffesiynol ar gyfer ysgolion yn ansicr ar gyfer 2016/2017.
Mae'r 6 Gwasanaeth Addysg yng Ngogledd Cymru yn bwriadu trosglwyddo strwythur cefnogi TGCh technegol/cwricwlwm addas i ysgolion yn unol â'r agenda rhanbartholi. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion bellach yn cael eu comisiynu ar HwB (gwefan addysgu ac adnoddau ar-lein) a defnydd yr ysgolion eu hunain fydd y camau cyntaf i wireddu'r system hon. Mae'r Gweinidog hefyd wedi cymeradwyo ymestyn y contract HwB tan 2017. Mae un ysgol uwchradd yng Nghonwy wedi derbyn 1 o 18 o lefydd i fod yn Ganolfan o Ragoriaeth

Oren

HWB+. Maent wedi derbyn grant o £30,000 i ddatblygu Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol ehangach a sefydlu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar draws consortia rhanbarthol i ddatblygu'r defnydd o HwB+ ar draws ysgolion.
Mae'r holl drefniadau TGCh ar gyfer Ysgol y Gogarth sydd newydd agor yn eu lle a bu cynnydd pellach yn nifer yr iPads sydd wedi cael eu prynu.

**A1.6 Gweithio ar y cyd â'n partneriaid i gyflawni'r agenda rhanbarthol o wella ysgolion er mwyn codi safonau a sicrhau cyrhaeddiad mewn sgiliau sylfaenol a Phynciau Craidd TGAU ym mhob ysgol.**

Gwyrdd

Mesurir perfformiad Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol (CA) 2 a CA 3 gan ddefnyddio asesiadau athrawon, a mesurir perfformiad CA4 a CA5 gan ddefnyddio canlyniadau arholiadau allanol. Mae perfformiad Conwy sydd wedi'i feincnodi yn y Cyfnod Sylfaen wedi cael ei ddosbarthu yn foddhaol, ond yng Nghyfnod Allweddol 2 mae'n anfoddhaol. Roedd y canlyniadau academaidd ar gyfer haf 2014 yn dda ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ac yn foddhaol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a 5.
Ym mis Ionawr 2015, cafodd ysgolion eu categoreiddio. Cyhoeddwyd categorïau'r ysgolion gan Lywodraeth Cymru gan ddarparu system broffilio ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd hyn yn disodli'r system bandio ar gyfer ysgolion uwchradd. Bydd proffiliau yn cadarnhau safonau ym mhob sefydliad mewn 2 gam i) ar ddata perfformiad a ii) ansawdd arweinyddiaeth yr ysgol. Bydd categorïau ysgolion yn pennu i ba raddau y mae GwE (effeithiolrwydd ysgolion rhanbarthol) yn cefnogi ac yn herio ysgolion. Y canlyniadau oedd:-

- **Ysgolion Uwchradd**
  - 2 wyrdd
  - 2 felyn
  - 3 oren

- **Ysgolion Cynradd**
  - 5 gwyrdd
  - 27 melyn
  - 24 oren
  - 1 coch

- **Ysgol Arbennig**
  - 1 gwyrdd

Cymerwyd y data hwn yn uniongyrchol o wefan Llywodraeth Cymru (gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2014), fodd bynnag, mae'r categorïau hyn yn destun newid yn ystod y flwyddyn ond ni fydd yn cael ei ddiweddaru gan Lywodraeth Cymru nac ar y wefan www.**mylocalschool.wales.gov.uk** tan y flwyddyn ganlynol. Mae GwE a'r Awdurdod Lleol yn monitro newidiadau ac yn defnyddio categoreiddio lleol trwy gydol y flwyddyn. Bydd hyn yn cael ei gofnodi fel mesur Cynllun Corfforaethol yn y dyfodol, yn ogystal â chynnydd yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael eu defnyddio mewn ysgolion i fynd i'r afael â sicrhau perfformiad rhifedd a llythrennedd a gwella'r safonau a fesurir yn ystod y gyfres profion cenedlaethol ym mis Mai. Ar lefel sector uwchradd mae grŵp llythrennedd a rhifedd yn cyfarfod yn rheolaidd i fynd i'r afael â bodloni blaenoriaethau cenedlaethol o dan arweiniad GwE. Mae cymuned ddysgu broffesiynol uwchradd Cymraeg/dwyieithog ar waith i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn unol â Strategaeth Addysg Cymru a Chonwy dan arweiniad Cynghorydd Her GwE. Mae Grŵp Datblygu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi ei sefydlu yng Nghonwy. Bydd Cydlynwyr o ysgolion a'r coleg yn rhannu arfer da wrth i'r manylebau newydd gael eu datblygu a'u cyflwyno. Mae dau Gydlynydd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru o ysgolion uwchradd Conwy wedi eu penodi fel 2 o'r 4 Ymarferwr Arweiniol yng ngogledd Cymru i ddatblygu agweddau addysgu'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru newydd. Yn unol â chyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru newydd, yng Nghyfnod Allweddol 4 bydd sgiliau hanfodol yn cael eu disodli gan gymhwyster TGAU Mathemateg a Chymraeg/Saesneg newydd.

**A1.7 Pan fo'n ddichonadwy gwneud hynny'n ariannol, rhoi'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ar waith fel bod adeiladau ysgolion, adnoddau athrawon a phrofiadau dysgu disgyblion yn addas at y pwrpas.**

Mae cyrff llywodraethu dros dro wedi cael eu sefydlu ac yn gweithredu yn ardaloedd Cyffordd Llandudno, Bae Colwyn a Phenmaenrhos. Mae Penaethiaid newydd wedi'u penodi ar gyfer ysgol ardal Penmaenrhos ac Ardal 1 Bae Colwyn. Mae'r broses statudol wedi'i chwblhau ym Mae Colwyn a Phenmaenrhos.

Gwyrdd

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar gyfer Cyffordd Llandudno ym mis Ebrill. Cafodd tendrau ar gyfer Cyffordd Llandudno, Bae Colwyn a Phenmaenrhos i gyd eu cyhoeddi a'u dychwelyd. Mae'r trafodaethau tendr yn parhau ar gyfer ysgol ardal Cyffordd Llandudno. Mae'r tendrwr llwyddiannus wedi cael ei ddewis ar gyfer ysgol ardal Penmaenrhos. Ni ddewiswyd tendrwr llwyddiannus ar gyfer Ardal 1 Bae Colwyn. Bydd ymarfer ail dendro yn cael ei chynnal. Cafodd y cais cynllunio diwygiedig ar gyfer Cyffordd Llandudno ei gymeradwyo a chyflwynwyd achos busnes llawn ar gyfer Cyffordd Llandudno ym mis Ionawr 2015. Dechreuodd y broses statudol ar gyfer ardal Caerhun ar ôl cyfnod yr etholiad ym mis Mai.

Ysgol y Gogarth. Mae'r gwaith o adnewyddu llety a darparu llety newydd ar y safle presennol wedi cael ei gwblhau. Mae gwaith pellach sydd yn ychwanegol i'r prosiect gwreiddiol yn cael ei gynnal gan ddefnyddio arian yn sgil tanwariant ar y prosiect.

**A1.8 Cefnogi datblygu cwrs gwyddoniaeth a thechnoleg addas yn ein hysgolion i helpu pobl ifanc i feithrin sgiliau a chymwysterau er mwyn gwella eu cyfle i gael gwaith.**

Ar gyfer y Flwyddyn Academaidd bresennol (2014/2015) mae'r cwricwlwm 'Ôl-16' yn parhau i gynnig 14 o bynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5. Mae'r cynnig yn ystyried Gwybodaeth am Farchnad Lafur y rhanbarth, hy, Ynys Ynni, Airbus, Carchar Wrecsam ac ati. Caiff pynciau heblaw STEM eu cynnig hefyd er mwyn i ddysgwyr ddilyn eu llwybr dewisedig. Bydd y targed ar gyfer y flwyddyn academaidd 2014/2015 (Blwyddyn Ariannol 2015/2016) yn parhau ar 14. Mae'n rhaid i'r cwricwlwm gyfateb â nifer y dysgwyr yn y 6ed dosbarth, ac os bydd pynciau ychwanegol yn cael eu hychwanegu, rhaid cael gwared ar bynciau eraill.

Gwyrdd

Defnyddiwyd adnoddau a baratowyd gan y Prosiect Datblygu Gweithlu mewn ysgolion i hyrwyddo Wythnos Prentisiaethau rhwng 9 a 13 Mawrth 2015. Roedd hyn mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru a Choleg Llandrillo. Mae Gyfra Cymru wedi anfon gwybodaeth am gyfleoedd prentisiaid yng Ngogledd Cymru at ysgolion i'w rhannu â dysgwyr. Mae prentisiaethau hefyd wedi cael eu trafod mewn cyfarfodydd gydag athrawon ac mewn digwyddiadau'n benodol ar gyfer sectorau yn rhan o'r Prosiect Llwyddo'n Lleol.

Mae codi ymwybyddiaeth am bynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg yn parhau yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd Cynllunwyr Cwricwlwm a chyfarfodydd Cydlynwyr Rhwydwaith.

## 1.2 Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 13/14 | Targed 14/15 | Ein canlyniadau yn 14/15 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 15/16 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **M1.1** | **Nifer y Mentrau Cymdeithasol a gefnogir gan CBSC** | 77 | 85 | 137 | Amh. | Amh. | 85 | Gwyrdd |
| Mae perfformiad y Dangosydd Perfformiad hwn yn dibynnu ar geisiadau cyllid llwyddiannus, a dyna pam fod y targed ar gyfer 2015/2016 yn llawer is na pherfformiad 2014/2015. | | | | | | | | |
| **M1.2a** | **Nifer y bobl ddiamddiffyn a gefnogir** | 1,447 | 45 | 83 | Amh. | Amh. | 50 | Gwyrdd |
| Nid oes modd cymharu data'r llynedd â pherfformiad cyfredol, gan fod y meini prawf wedi newid. Dyma'r flwyddyn gyntaf o adrodd yn flynyddol, yn y gorffennol roeddem yn adrodd ar gyfansymiau prosiect CGE cronnus dros 5 mlynedd. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i adrodd ffigurau blynyddol. Mae perfformiad y Dangosydd Perfformiad hwn a M1.2b yn gysylltiedig â chyllid allanol sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffigur targed newydd. | | | | | | | | |
| **M1.2b** | **Canran y bobl ddiamddiffyn a gafodd ganlyniad cadarnhaol** | 79.2% | 80% | 81.00% | Amh. | Amh. | 80% | Gwyrdd |
| **M1.3** | **Nifer y lleoliadau gwaith a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | 276 | 235 | 417 | Amh. | 1/3 | 230 | Gwyrdd |
| Mae'r canlyniad yn adlewyrchu 229 o leoliadau o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a 188 o leoliadau yn ysgolion lleol Conwy sydd i'w gweld yng nghronfa ddata Gyrfa Cymru. Mae'r targed yn adlewyrchu'r ffaith na fydd cronfa ddata Gyrfa Cymru yn y dyfodol yn swyddogaethol. Fodd bynnag, byddwn yn ymdrechu i ymgysylltu ag ysgolion i geisio casglu eu ffigurau lleoliad gwaith eu hun a'u cyfuno â rhai Conwy gorfforaethol. | | | | | | | | |
| **M1.4** | **Nifer y prentisiaethau a ddarparwyd / a gefnogwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | 34 | 34 | 42 | Amh. | | 30 | Gwyrdd |
| Mae'r targed newydd yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer o gontractau Prentis yn dod i ben, a bydd newid yng nghyllid Llywodraeth Cymru felly mae hi'n anodd darogan beth fydd y cyfleoedd yn y dyfodol. | | | | | | | | |
| **M1.5** | **% disgyblion Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n derbyn graddau A* i C ym mhynciau craidd TGAU (Saesneg/Cymraeg, a Mathemateg)** | 56.04% | 58.7% | 55.50% | 55.1 | 11 o blith 22 | 59.1% | Coch |
| Ni chyflawnwyd y targed a byddwn yn gweithio'n galed i gyflwyno gwelliannau. Fe fethwyd y targed oherwydd bod un ysgol wedi perfformio'n llawer is na'i tharged ei hun. Mae gwelliant addysgol yn bwysig iawn ac felly roedd y targed yn un uchel er mwyn annog gwelliant. Bu cynnydd o 7% yn y flwyddyn flaenorol, a bu bron i'r gwelliant hwnnw gael ei gynnal. | | | | | | | | |
| **M1.6a** | **Nifer y cyfrifiaduron pen desg (sy'n iau na 5 oed) o'i gymharu â nifer y disgyblion**<br><br>**Cynradd:**<br>**Uwchradd:** | 1:5<br>1:3 | 1:4<br>1:3 | 1:6<br>1:3 | Amh. | Amh. | 1:5<br>1:3 | Gwyrdd |
| Mae ysgolion cynradd bellach yn buddsoddi mewn dyfeisiau llaw yn hytrach na chyfrifiaduron, felly bydd y niferoedd yn dechrau gostwng wrth i ysgolion gychwyn gael gwared ar offer hŷn. Ni fydd adroddiad ar y mesur mwyach. | | | | | | | | |
| **M1.6b** | **Nifer y teclynnau cledr llaw personol (sy'n iau na 5 oed).** | 1139 | 1500 | 1,728 | Amh. | Amh. | 1,800 | Gwyrdd |
| Ni fydd adroddiad ar y mesur mwyach. Bu cynnydd sylweddol gyda chynyddu'r nifer o declynnau cledr llaw. Fodd bynnag, nid yw'r mesur hwn yn dangos gallu TG pobl ifanc neu os yw'r adnodd yn cael ei rannu'n yn deg ar draws ysgolion. | | | | | | | | |
| **M1.7** | **Nifer yr ymweliadau blynyddol ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir (adnodd addysg ar y we yw hwn ar gyfer athrawon a disgyblion)** | 9,915 | 9,665 | 11,010 | Amh. | Amh. | 12,111 | Gwyrdd |
| **M1.8a** | **Cynnydd yn ystod y pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg sydd ar gael yn ychwanegol at y Mathemateg a'r Gwyddoniaeth statudol a gynigir yng Nghyfnod Allweddol 4** | 16 | 17 | 18 | Amh. | Amh. | 18 | Gwyrdd |
| Nid yw'n bosibl parhau i gynyddu nifer y pynciau o flwyddyn i flwyddyn. Mae'n bwysicach cynyddu nifer y dysgwyr. Bydd y mesur hwn yn cael ei newid i gynnal ystod y pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) sydd ar gael yn ychwanegol at y Mathemateg a'r Gwyddoniaeth statudol a gynigir yng Nghyfnod Allweddol 4 a 5. | | | | | | | | |
| **M1.8b** | **Nifer disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n dilyn pynciau** | 5,904 | 6,250 | 5,711 | Amh. | Amh. | 5,750 | Oren |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg** | | | | | | | |
| **M1.9a** | **Cynnydd yn ystod y pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg sydd ar gael yn ychwanegol at y Mathemateg a'r Gwyddoniaeth statudol a gynigir yng Nghyfnod Allweddol 5** | 13 | 14 | 14 | Amh. | Amh. | 14 | Gwyrdd |
| **M1.9b** | **Nifer disgyblion Cyfnod Allweddol 5 sy'n dilyn pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg** | 1,742 | 1,760 | 1,370 | Amh. | Amh. | 1,425 | Oren |

### 1.3 Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Rydym wedi gweld gwelliant sylweddol yn nifer y Mentrau Cymdeithasol sy'n cael eu cefnogi a mynediad i bobl ifanc ar leoliadau gwaith a phrentisiaethau. Mae'r meincnod yn nhabl A a B isod yn dangos y llwyddiant sylweddol yn y camau blaenoriaeth hyn. Bydd cysylltiadau â busnesau yn cynyddu cyfleoedd fel y rhain ymhellach. Mae gwelliant cadarnhaol mewn cyrhaeddiad ysgolion, ac mae cymorth wedi'i dargedu ar waith ar gyfer ysgolion a meysydd pwnc sydd angen rhagor o gymorth. Mae mynediad at dechnoleg, a'r defnydd ohono wedi gwella'n sylweddol mewn ysgolion, a bydd y ffocws yn parhau i sicrhau bod disgyblion yn alluog wrth ddefnyddio TGCh.

**Tabl A** Meincnod o nifer y prentisiaethau (gan Sefydliadau sy'n aelod o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych)

| **Sefydliadau partner BGLl** | Cyfanswm nifer y Prentisiaid 2009/2010 | Cyfanswm nifer y Prentisiaid 2010/2011 | Cyfanswm nifer y Prentisiaid 2011/2012 | Cyfanswm nifer y Prentisiaid 2012/2013 | Cyfanswm nifer y Prentisiaid 2013/2014 | Cyfanswm nifer y Prentisiaid 2014/2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | **1** | **1** | **4** | **13** | **34** | **42** |
| Cyngor Sir Ddinbych | **43** | **33** | **22** | **36** | **28** | **18** |
| Parc Cenedlaethol Eryri | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy | **0** | **0** | **0** | **2** | **0** | **0** |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | **2** | **2** | **0** | **0** | **0** | **2** |
| Ymddiriedolaeth Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | **21** | **39** | **44** | **31** | **38** | **46** |
| Cartrefi Conwy | **1** | **3** | **4** | **4** | **6** | **11** |
| Coleg Llandrillo | **2** | **4** | **5** | **4** | **4** | **1** |
| Llywodraeth Cymru | **0** | **4** | **5** | **5** | **3** | **0** |
| CGGSDd | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Grŵp Tai Pennaf | **0** | **0** | **2** | **5** | **14** | **3** |
| Heddlu Gogledd Cymru | **0** | **0** | **3** | **7** | **5** | **10** |
| **Cyfanswm nifer y Prentisiaid** | **70** | **86** | **89** | **107** | **132** | **133** |



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Tabl B** Meincnod o nifer y lleoliadau Profiad Gwaith (gan Sefydliadau sy'n aelod o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych)

| Sefydliadau Partner BGLl | Ebrill 2009 / Mawrth 2010 | | | | | Ebrill 2010 / Mawrth 2011 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | NEETS | Lefel Ysgol Uwchradd | Lefel Prifysgol | Lefel Oedolion | Cyfanswm nifer | NEETS | Lefel Ysgol Uwchradd | Lefel Prifysgol | Lefel Oedolion | Cyfanswm nifer |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 0 | 49 | 42 | 37 | 128 | 0 | 140 | 34 | 20 | 194 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 0 | 1 | 2 | 0 | 3 | 0 | 22 | 5 | 2 | 29 |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 0 | 28 | 7 | 0 | 35 | 0 | 23 | 2 | 0 | 25 |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymr | 3 | 32 | 0 | 0 | 35 | 7 | 30 | 0 | 0 | 37 |
| Ymddiriedolaeth Iechyd Prifysgol Bets | Methu â darparu data | | | | | Methu â darparu data | | | | |
| Cartrefi Conwy | Ni roddwyd data | | | | | Ni roddwyd data | | | | |
| Coleg Llandrillo | 0 | 6 | 1 | 0 | 7 | 0 | 4 | 0 | 4 | 8 |
| Llywodraeth Cymru | Ni chofnodwyd data | | | | | Ni chofnodwyd data | | | | |
| DVSC | Ni roddwyd data | | | | | Ni roddwyd data | | | | |
| Grŵp Tai Pennaf | 2 | 5 | 0 | 0 | 7 | 0 | 30 | 0 | 0 | 30 |
| Heddlu Gogledd Cymru | Gwybodaeth ddim ar gael | | | | | Gwybodaeth ddim ar gael | | | | |
| **Cyfanswm nifer a gynhelir** | **5** | **121** | **52** | **37** | **215** | **7** | **249** | **42** | **26** | **324** |

| Sefydliadau Partner BGLl | Ebrill 2011 / Mawrth 2012 | | | | | Ebrill 2012 / Mawrth 2013 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | NEETS | Lefel Ysgol Uwchradd | Lefel Prifysgol | Lefel Oedolion | Cyfanswm nifer | NEETS | Lefel Ysgol Uwchradd | Lefel Prifysgol | Lefel Oedolion | Cyfanswm nifer |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 0 | 101 | 20 | 45 | 166 | 2 | 92 | 153 | 11 | 258 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 1 | 5 | 4 | 0 | 10 | Dadansoddiad ddim ar gael | | | | 28 |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 0 | 14 | 3 | 0 | 17 | 0 | 14 | 5 | 1 | 20 |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymr | 5 | 28 | 0 | 0 | 33 | 0 | 26 | 0 | 0 | 26 |
| Ymddiriedolaeth Iechyd Prifysgol Bets | Methu â darparu data | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cartrefi Conwy | Ni roddwyd data | | | | | 0 | 5 | 2 | 0 | 7 |
| Coleg Llandrillo | Ni roddwyd data | | | | | Ni roddwyd data | | | | |
| Llywodraeth Cymru | Ni chofnodwyd data | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| DVSC | Ni roddwyd data | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grŵp Tai Pennaf | 0 | 5 | 4 | 0 | 9 | 0 | 11 | 6 | 1 | 18 |
| Heddlu Gogledd Cymru | 0 | 51 | 0 | 0 | 51 | 0 | 0 | 3 | 0 | 3 |
| **Cyfanswm nifer a gynhelir** | **6** | **204** | **31** | **45** | **286** | **2** | **148** | **169** | **13** | **360** |

| Sefydliadau Partner BGLl | Ebrill 2013 / Mawrth 2014 | | | | | Ebrill 2014 / Mawrth 2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | NEETS | Lefel Ysgol Uwchradd | Lefel Prifysgol | Lefel Oedolion | Cyfanswm nifer | NEETS | Lefel Ysgol Uwchradd | Lefel Prifysgol | Lefel Oedolion | Cyfanswm nifer |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 65 | 108 | 103 | 0 | 276 | 17 | 332 | 55 | 13 | 417 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Dadansoddiad ddim ar gael | | | | 77 | Dadansoddiad ddim ar gael | | | | 11 |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 0 | 23 | 7 | 0 | 30 | 0 | 17 | 3 | 0 | 20 |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymr | 6 | 31 | 0 | 0 | 37 | 0 | 25 | 3 | 0 | 28 |
| Ymddiriedolaeth Iechyd Prifysgol Bets | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cartrefi Conwy | 0 | 3 | 1 | 0 | 4 | 3 | 3 | 1 | 9 | 16 |
| Coleg Llandrillo | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Llywodraeth Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Dadansoddiad ddim ar gael | | | | 3 |
| DVSC | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grŵp Tai Pennaf | 0 | 13 | 8 | 9 | 30 | 0 | 9 | 16 | 18 | 43 |
| Heddlu Gogledd Cymru | 0 | 23 | 0 | 0 | 23 | 0 | 10 | 5 | 0 | 15 |
| **Cyfanswm nifer a gynhelir** | **71** | **203** | **120** | **10** | **481** | **20** | **400** | **88** | **42** | **564** |

### 1.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae rhagor o waith yn digwydd er mwyn ehangu cyd-drefniant y gefnogaeth i fentrau cymdeithasol ar draws y cyngor cyfan. Byddwn yn parhau i weithio gyda GwE i dargedu cefnogaeth i wella cyrhaeddiad addysgol. Er bod cynnydd da wedi cael ei wneud gyda phrentisiaethau, byddwn yn ceisio gwella hyn ymhellach drwy weithio gyda busnesau lleol a rhanbarthol. Bydd effaith ar ddata lleoliadau gwaith oherwydd newidiadau gyda Gyrfa Cymru, a byddwn yn ymdrechu i gasglu'r data hwnnw drwy gysylltu â'r ysgolion yn uniongyrchol.

# Adroddiad Blynyddol 2014 / 2015



## Canlyniad 2 – Mae pobl yng Nghonwy yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

### 2.1 Ein Camau Gweithredu Blaenoriaeth

**A2.1 Gwella yn ein swyddogaeth o ran gorfodaeth ac addysg er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys, tipio anghyfreithlon, gollwng sbwriel, graffiti a baw cŵn.**

Gwyrdd

Mae gweithgareddau addysg mewn ysgolion ac yn y gymuned ehangach yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr amgylchedd lleol. Yn ystod 2014/2015, fe ragorwyd ar y targedau ar gyfer meysydd allweddol megis glendid strydoedd, cafodd 40% o'r strydoedd a arolygwyd eu graddio yn statws Gradd A. Fe wnaethom ragori ar ein targed i ymweld ag ysgolion ac addysgu mwy na 1,500 o ddisgyblion ysgol am bwysigrwydd ailgylchu a lleihau gwastraff. Rydym hefyd wedi rhagori ar ein targedau ar gyfer cael gwared ar dipio anghyfreithlon, graffiti, eitemau miniog a sbwriel yn brydlon ac wedi gwella ein perfformiad o'r flwyddyn flaenorol. Cynhaliwyd 12 Diwrnod Amgylcheddol Cymunedol yn ystod 2014/2015. Cafodd cyfanswm o 43 tunnell o wastraff cartref ei gasglu yn y digwyddiadau, ac ar gyfartaledd, cafodd 57% o'r gwastraff o bob digwyddiad ei ailgylchu. Mae ein gwaith gyda'r cwmni gorfodi preifat yn parhau. Cynhaliwyd yr ymgyrch 'Cadwch y Lle'n Lân - Dim Llanast' gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru, gan gyflogi gwasanaethau llysgenhadon i ledaenu'r neges i roi'r gorau i ollwng sbwriel a chŵn yn baeddu. Yn rhan o'r ymgyrch, fe wnaed 23 ymweliad addysgol i ysgolion a 16 o ymweliadau addysgol i ddigwyddiadau cymunedol. Mae'r bartneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Cŵn yn parhau. Mae 18 o fannau problemus ar gyfer baw cŵn wedi'u nodi yn y Fwrdeistref Sirol ar hyn o bryd, byddwn yn ymweld â'r rhain yn amlach. Mae camerâu CCTV symudol bach wedi cael eu prynu er mwyn ceisio dewis yr amseroedd cywir i ymweld a'r mannau problemus. Pan fo angen, rydym yn parhau i ymateb i faterion amgylcheddol yn brydlon.

**A2.2 Parhau i weithio gyda'n partneriaid trwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i hybu a chynnal y ffaith fod Conwy'n sir ddiogel.**

Gwyrdd

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau cymunedol i roi cyngor atal trosedd a chyfeirio pobl at sefydliadau eraill. Gyda chymorth gwirfoddolwyr Gwarchod Cymdogaeth, mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnal o leiaf dau ddigwyddiad atal troseddau mewn archfarchnadoedd a chanolfannau siopa bob mis. Cynhaliwyd 33 digwyddiad eleni. Rydym hefyd wedi mynychu unrhyw ddigwyddiadau y mae sefydliadau eraill wedi eu cynnal. Mae gan y stondin daflenni yn ymdrin â gwybodaeth i atal troseddu ac offer i'w gwneud yn anoddach i dargedu (ee, cloeon i wneud cartrefi'n fwy diogel ac yn anoddach i droseddwyr eu targedu). Mae gwirfoddolwyr, staff PDC, Safonau Masnach, Swyddogion Heddlu Diogelwch Cymunedol a'r Gwasanaeth Tân yn bresennol yn y digwyddiadau hyn. Mae'r PDC yn parhau i ariannu gwasanaethau ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Mae'r PDC yn ariannu, gweithwyr cymdeithasol diagnosis deuol penodol, adsefydlu preswyl ac yn dyrannu cyllid i'r Tîm Ymateb Cyflym Cyffuriau ac Alcohol (DARRT). Mae holl waith y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol yn cyfrannu at ostyngiad blwyddyn ar ôl blwyddyn mewn troseddau. Rydym wedi parhau i weld lleihad mewn troseddau ieuenctid unwaith eto eleni ac mae'r troseddau sy'n cael eu cofnodi wedi parhau i ostwng. Mae hyn o ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith partneriaeth a gwaith caled a ddarperir gan wasanaethau yng Nghonwy.
Erbyn hyn, mae gan Gonwy 336 o barthau galw diwahoddiad newydd gan ddod â'r cyfanswm i 1178 – mae hyn yn rhoi sicrwydd mawr i breswylwyr, yn enwedig o ystyried ein poblogaeth fawr sy'n oedrannus.

**A2.3 Parhau i hyrwyddo diogelu ar bob lefel drwy gyfrwng Bwrdd Lleol Diogelu Plant Conwy / Sir Ddinbych a Phwyllgor Diogelu Oedolion Diamddiffyn Conwy.**

Gwyrdd

Mae Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol yn ei le – cafodd ei werthuso gan Brifysgol Sheffield yn ystod y cyfnod peilot. Mae Is-grŵp Cyflawni Lleol y Bwrdd yn gwbl weithredol. Mae'r Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol wedi ei sefydlu ac mae diogelu oedolion diamddiffyn (POVA) yn flaenoriaeth o fewn y rhaglen waith. Caiff Conwy ei gynrychioli ar bob bwrdd diogelu Rhanbarthol ac is-grwpiau perthnasol.
Mae uned diogelu oedolion a phlant integredig yn ei le ac mae Polisi Diogelu Corfforaethol wedi cael ei gymeradwyo.
Mae mentrau wedi cynnwys gweithdai recriwtio diogel, datblygu canllawiau recriwtio diogel, cyflwyno hyfforddiant diogelu i aelodau etholedig, atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid gan Aseswyr Lles Gorau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith. Mae gwaith hefyd wedi cael ei

wneud er mwyn gwella data perfformiad allweddol gan gynnwys amser cynadleddau Amddiffyn Plant cychwynnol.
Drwy Fwrdd Diogelu Rhanbarthol, fe sefydlwyd Prosiect Ymarferydd 3 blynedd i godi ymwybyddiaeth am Ecsbloetio Plant yn Rhywiol (CSE) ac i wella canlyniadau ar gyfer pobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl.
Mae prosiect ffrindiau wedi cael ei ddatblygu yng Nghonwy a'i nod yw:

- darparu a rhoi cyngor i weithwyr proffesiynol mewn perthynas ag achosion o blant ifanc sydd wedi mynd, neu'n mynd ar goll o gartref;
- i gynghori, arwain a gwrando ar bobl ifanc sy'n rhedeg i ffwrdd;
- i alluogi'r bobl ifanc hynny i wneud dewisiadau mwy diogel am sut i ofalu am eu hunain, a lle bo'n briodol, i'w helpu i ddychwelyd adref yn ddiogel.

Fe gytunwyd ar weithdrefn pryderon cynyddol rhanbarthol ac mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu i ymarferwyr.

**A2.4 Parhau i weithio gyda'n partneriaid i wella cefnogaeth i'r teulu cyfan i ddelio â materion Trais Domestig, Iechyd Meddwl a Chyffuriau ac Alcohol.**

Gwyrdd

Penodwyd Rheolwr Gwasanaethau gyfer Lles Cymunedol. Mae gwasanaethau'n cael eu rhwydweithio o fewn Lles Cymunedol er mwyn sicrhau bod ymateb yn cael ei gydlynu. Bydd sefydlu'r Gwasanaeth Pobl Ddiamddiffyn yn sicrhau ffocws ar y grwpiau cleient hyn. Mae yna nifer o grwpiau rhanbarthol rydym ni'n gweithio â nhw, yn ogystal â Teuluoedd yn Gyntaf a Cymorth i Fenywod. Bydd gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn mynd i'r afael â dull llwybr unigol i nodi a lliniaru rhwystrau i gael mynediad i wasanaethau.
Yn bennaf mae'r flaenoriaeth wedi bod ar ganolbwyntio ein sylw a'n hadnoddau ar asesu gwelliannau o fewn y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol. Fe sefydlwyd cyfarfodydd arwain a gwella gyda chydweithwyr Iechyd i fynd i'r afael â meysydd o risg a fformiwleiddio risg o ran y cleientiaid. Rydym wedi gweithredu rhaglen sefydlu gadarn lle mae staff yn cael eu hasesu o ran cymhwysedd ac yn cael eu mentora nes bod ganddynt brofiad i weithio gydag unigolion cymhleth sy'n peri risg uchel i'w hunain. Rydym hefyd wedi rhoi ar waith pecyn rheoli llwyth gwaith i sicrhau bod gan staff llwythi achos sy'n briodol ar gyfer lefel eu gallu.
Mae system pwynt mynediad sengl bellach yn cynnwys cyflwyniad gan dîm Unigolion Diamddiffyn i gynorthwyo cleientiaid sydd angen gwasanaeth ond sydd ddim yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gofal iechyd meddwl eilaidd.
Mae'r gwasanaeth Pobl Diamddiffyn wedi cwrdd â darparwyr Trydydd Sector ac wedi trafod darpariaeth yn y dyfodol. Mae Rheolwyr Gwasanaeth wedi cynllunio cyfarfodydd gyda'r Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae'r Rheolwr Gwasanaeth i Bobl Ddiamddiffyn wrthi'n ymgysylltu ag asiantaethau iechyd meddwl ychwanegol, ac mae hefyd yn edrych ar gysylltiadau o dan y Cyfamod Lluoedd Arfog, gan gynnwys mynychu'r llety ar gyfer cyn-filwyr.

### 2.2 Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

| **Cyf** | **Teitl** | **Ein canlyniadau yn 13/14** | **Targed 14/15** | **Ein canlyniadau yn 14/15** | **Cyfartaledd Cymru** | **Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru** | **Targed 15/16** | **COG** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M2.1 | % yr achosion tipio anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith. | 96.9% | 97% | 97.77% | 96.5% | 5 o blith 22 | 97% | Gwyrdd |
| M2.2 | Nifer y diwrnodiau glanhau a gefnogwyd ledled y fwrdeistref sirol bob blwyddyn | 12 | 10 | 12 | Amh. | Amh. | 10 | Gwyrdd |
| Mae bodlonrwydd ymysg y preswylwyr â'r digwyddiadau hyn yn parhau i fod yn eithriadol o uchel, sef 99.3%, gyda phreswylwyr yn canmol y staff cymwynasgar, y compost am ddim a gwelliannau amgylcheddol sy'n digwydd yn sgil y digwyddiadau hyn. | | | | | | | | |
| M2.3 | % yr achosion o graffiti a lanhawyd o fewn 4 diwrnod gwaith | 88.2% | 90.0% | 91.67% | Amh. | | 90% | Gwyrdd |
| M2.4 | Nifer y cosbau a roddwyd am faw cŵn | 91 | 50 | 85 | Amh. | 2/3 | 100 | Gwyrdd |
| M2.5 | Nifer y cosbau a roddwyd am ollwng sbwriel | 2,268 | 1,500 | 2,426 | Amh. | 2/3 | 2000 | Gwyrdd |

### 2.3 Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Ar y cyfan, mae'r camau blaenoriaeth a'r mesurau yn perfformio'n dda iawn ar gyfer y canlyniad hwn. Gwnaed gwaith sylweddol i addysgu plant ysgol a thrigolion, a bydd hyn yn rhoi rhagor o gefnogaeth i gyflawni'r canlyniad. Bu cynnydd pellach â'n dull partneriaeth i gefnogi grwpiau diamddiffyn.

### 2.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae angen i ni barhau i weithio mewn partneriaeth i gryfhau gwaith partneriaeth mewn perthynas â Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Ceir cyfarfodydd rheolaidd gyda phartneriaid i ymdrin â meysydd a nodwyd ar gyfer gwella, ac mae hyn hefyd yn cael ei fonitro fel rhan o'n cofrestr risg gorfforaethol.



## Canlyniad 3 – Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas

### 3.1 Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

**A3.1 Gweithio mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid eraill i atal digartrefedd lle bo hynny'n bosibl, ac i gefnogi pobl sy'n mynd yn ddigartref.**

Gwyrdd

Daeth Partneriaeth Datrysiadau Tai Conwy yn weithredol ar 30 Mehefin 2014 ac erbyn hyn, mae "Siop Un Stop" ar gyfer rhoi cyngor ynglŷn â dewisiadau tai yn 41 Ffordd Conwy, Bae Colwyn – swyddfa sy'n cael ei rhannu rhwng Cyngor Conwy a Chartrefi Conwy yw hon, ac mae'n darparu'r gwasanaethau canlynol: Cyngor ynglŷn â Dewisiadau Tai; Cymorth ynglŷn â Thenantiaethau; Gwasanaethau Atal Digartrefedd; Datgan Digartrefedd; Ymholiadau ynglŷn â Chofrestr Tai CBSC; Gwasanaeth Canfod Cartrefi; Gwasanaethau Cwsmeriaid Cartrefi Conwy; Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol. Mae'r Bartneriaeth yn mynd rhagddo'n dda ac mae eisoes yn cyflawni rhai o'r manteision a ragwelwyd. Cafodd 137 o deuluoedd digartref eu hailsefydlu'n llwyddiannus a chafodd 90.30% o gartrefi a allai fod wedi bod yn ddigartref eu hatal rhag bod yn ddigartref am o leiaf 6 mis. Bu gostyngiad sylweddol yn hyd yr amser i gyflawni dyletswydd statudol y Cyngor.
Cafodd Prosiect ULlMaD (Un Llwybr Mynediad at Dai) ei lansio ym mis Ebrill 2015. Mae ULlMaD yn cynnwys system strwythuredig a dosbarthu cynhwysol ynghylch cyngor am dai ar draws ystod o bartneriaid. Mae pecyn gwaith wedi'i ddatblygu ar gyfer staff rheng flaen. Mae www.conwyhousing.co.uk wedi cael ei ddiweddaru a'i ail-frandio ac fe'i lansiwyd ar ddiwedd 2014.

Bydd atal digartrefedd nawr yn cael ei ddatblygu gan y Grŵp Cyflawni Atal Digartrefedd Partneriaeth Strategol Tai a/neu Fforwm Digartrefedd.

**A3.2 Trwy fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, rhoi'r Cynllun Tai Fforddiadwy[6] ar waith er mwyn darparu tai fforddiadwy i bobl leol.**

Oren

Mae cynnydd ar y Cynllun Tai Fforddiadwy a Strategaeth / Datganiad Sefyllfa wedi arafu oherwydd newidiadau staff. Mae'r cam hwn yn cael ei adolygu a'i ddatblygu gan Grŵp Cyflawni Tai Fforddiadwy Partneriaeth Strategol Tai. Bydd Partneriaeth Strategol Tai yn cryfhau'r gwaith hwn. Bydd mesur perfformiad newydd yn tynnu sylw at yr angen i ddarparu 123 o dai fforddiadwy bob blwyddyn.

**A3.4 Adolygu, a lle bod hynny'n briodol, cyflwyno'r drefn o drwyddedu Tai Amlfeddiannaeth ledled y Fwrdeistref Sirol er mwyn gwella ansawdd y llety sydd ar gael.**

Gwyrdd

Mae tri chynllun trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth yn eu lle. Rydym wedi adolygu'r cynllun trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth ac nid oes unrhyw gyfiawnhad dros fynd ati i drwyddedu mwy mewn ardaloedd eraill o fewn Conwy y tu hwnt i ardaloedd presennol Pensarn, Bae Colwyn a Llandudno. Rydym wedi parhau i gyflwyno'r cynllun trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth ac ar ddiwedd mis Mawrth 2015 roedd 264 allan o 440 o Dai Amlfeddiannaeth wedi'u trwyddedu.

**A3.5 Parhau i weithredu Strategaeth Cartrefi Gweigion Conwy er mwyn gwella'r amgylchedd a gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai.**

Oren

Rhwng y cynllun Tai Gwag a chynllun benthyciadau Troi Tai yn Gartrefi, crëwyd 51 cartref a chawsant eu meddiannu yn ystod y flwyddyn ariannol. Bydd amcanion cyffredinol y Strategaeth Cartrefi Gweigion yn parhau i fodoli hyd nes na fydd unrhyw eiddo gwag tymor hir i'w cael yn y sir, serch hynny fe fydd y strategaeth yn cael ei hadolygu i sicrhau bod yr amcanion yn parhau'n berthnasol. Grŵp Llywio/Cyflawni Cartrefi Gweigion y Partneriaeth Strategol Tai fydd yn gyfrifol am adolygu'r strategaeth. Bydd Cartrefi Conwy yn parhau i gefnogi'r prosiect yn ariannol.

[6] Tai fforddiadwy yw tai sy'n cael eu darparu i bobl ar incwm isel sydd methu diwallu eu hanghenion tai yn y farchnad dai gyffredinol

**A3.6 Parhau i weithio gyda phartneriaethau llifogydd i wella diogelwch a gwydnwch cymunedau a'u gallu i yswirio, a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â materion llifogydd fel eu bod yn barod i ddiogelu eu heiddo.**

Gwyrdd

Cynhaliwyd digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o lifogydd mewn 8 ardal yn ystod y flwyddyn ariannol, a chafodd pob un eu cynnal i gyd-fynd â Diwrnodau Amgylcheddol mewn ardaloedd lle mae perygl uchel o lifogydd. Fe sefydlwyd Fforwm Arfordirol Llandudno i ystyried opsiynau ar gyfer rheoli'r traeth, ar gyfer Traeth y Gogledd Llandudno i gychwyn, a bydd y fforwm yn ystyried rheoli traeth mewn perthynas â Thraeth y Gorllewin Llandudno.

Mae cam 1b o waith gwella promenâd a cham 1c o waith ail-lenwi amddiffynfeydd arfordir i'r gorllewin o'r Pier ym Mae Colwyn, wedi cael eu cwblhau. Yng Nghynhadledd Peirianwyr Sifil Llifogydd yng Nghymru, siaradodd Carl Sargeant, y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol, am y Rhaglen Arfordirol Cyllid Arloesol a phwysigrwydd i Awdurdodau Lleol fod yn arloesol ac i feddwl "yn gwbl agored" wrth feddwl am eu cynlluniau gwaith ar yr arfordir yn y dyfodol. Defnyddiodd y Gweinidog y cynllun ym Mae Colwyn fel enghraifft o sut y dylai'r cynigion gael eu datblygu, trwy archwilio a deall anghenion yr arfordir yn ei gyfanrwydd a dod o hyd i atebion sy'n diwallu'r anghenion hynny.

Mae cyllid wedi ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynhyrchu cynlluniau rheoli perygl llifogydd ac i gyflawni ein dyletswyddau o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr.

Mae'r cynllun lliniaru llifogydd yng Nghae Person wedi ei gwblhau a chafodd y gwaith atgyweirio arfordirol yn dilyn difrod storm ei gwblhau yn Nhraeth y Gogledd, Bae Penrhyn, Deganwy - Cam 1 a Bae Cinmel.

**A3.7 Datblygu bidiau er mwyn cefnogi pobl i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.**

Gwyrdd

Rydym wedi cyflwyno bidiau i Lywodraeth Cymru am gyllid tuag at y gwaith sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd ynni o fewn y Sir. Mae manylion y bidiau fel a ganlyn:

1. Cais cam 3 o Arbed 2 - cyflwynwyd y cais hwn i Lywodraeth Cymru i ymestyn y brif bibell nwy mewn i bentref Llysfaen (ni chafodd y cais ei gefnogi)
2. Gwneud y mwyaf o gais ECO i Fae Colwyn - cyflwynwyd y cais i Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi gwaith effeithlonrwydd ynni (inswleiddio waliau allanol, ail osod ffenestri a drysau gyda ffenestri dwbl newydd ac ati). Bu Conwy yn llwyddiannus gyda'u cais gan dderbyn £235,000.
3. Gwneud y mwyaf o gais ECO i Gyffordd Llandudno - cyflwynwyd y cais i Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi gwaith effeithlonrwydd ynni (inswleiddio waliau allanol, ail osod ffenestri a drysau gyda ffenestri dwbl newydd ac ati). Ni fu Conwy yn llwyddiannus gyda'r cais.

Gwneud y mwyaf o gyllid ECO ar gyfer refeniw – Mae Conwy wedi derbyn cyllid refeniw o £43,990 hyd at 31 Mawrth 2016 tuag at waith effeithlonrwydd ynni o fewn Conwy. Mae cyfanswm o 502 eiddo wedi eu cefnogi gan Gonwy a'n partneriaid ynni i wella effeithlonrwydd ynni yn eu cartrefi. Byddwn yn parhau i gyflwyno bidiau pellach i Lywodraeth Cymru pan ddaw'r grantiau ar gael.

## 3.2 Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 13/14 | Targed 14/15 | Ein canlyniadau yn 14/15 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 15/16 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M3.1 | Nifer y teuluoedd digartref a adleoliwyd yn llwyddiannus | 109 | 100 | 137 | Amh. | | 110 | Gwyrdd |
| M3.2 | % yr aelwydydd oedd yn wynebu'r posibilrwydd o ddigartrefedd lle cafodd digartrefedd ei atal am o leiaf 6 mis | 94.10% | 92% | 90.30% | 81.7% | 2/3 | 92% | Oren |
| Mae'r perfformiad yn erbyn y mesur hwn yn parhau i fod yn gryf ac o fewn y goddefiant a osodwyd ar gyfer y targed. Roedd y targed a osodwyd yn seiliedig ar y canlyniad ar gyfer y blynyddoedd ariannol blaenorol. Fodd bynnag, roedd y fethodoleg ar gyfer cyfrifo Dangosydd Perfformiad hwn wedi newid ac yn anffodus ni chafodd y newid hwn ei gymhwyso i'r system wrth gyfrifo Dangosyddion Perfformiad. Tynnwyd sylw at y camgymeriad ar ddiwedd Chwarter 3 a diwygiwyd canlyniad. Erbyn hyn, dim ond yr aelwydydd sy'n wynebu posibilrwydd o ddigartrefedd a gyflwynodd ar ôl 1 Hydref yn y flwyddyn flaenorol lle cafodd digartrefedd ei atal am o leiaf 6 mis y mae'r system yn ei gyfrif. | | | | | | | | |
| M3.3 | Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai newydd yn ystod y flwyddyn | 38.6% | 29.0% | 28.72% | Amh. | 2/3 | 29% (yn unol â CDLl) | Oren |
| Mae'r nifer o unedau tai fforddiadwy wedi bod yn isel eleni er gwaethaf dod â'r dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol ymlaen. Ni fydd yr unedau tai fforddiadwy cyntaf yn cael eu cwblhau tan y flwyddyn nesaf. Ni chafodd cynlluniau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eu cwblhau eleni am resymau tu hwnt i reolaeth gynllunio. | | | | | | | | |
| M3.5 | % y Tai Amlfeddiannaeth trwyddedadwy sydd wedi eu trwyddedu | 28.17% | 47% | 60.00% | Amh. | | 70% | Gwyrdd |
| M3.5a: | % y Tai Amlfeddiannaeth sydd wedi eu trwyddedu - *Pensarn* | 80% | Ni osodwyd targed | 94.70% | Amh. | | 90 | ↑ |
| M3.5b: | % y Tai Amlfeddiannaeth y gellir eu trwyddedu ac sydd wedi eu trwyddedu – *Bae Colwyn* | 48.6% | Ni osodwyd targed | 87.70% | Amh. | | 90 | ↑ |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M3.5c: | % y Tai Amlfeddiannaeth y gellir eu trwyddedu ac sydd wedi eu trwyddedu - *Llandudno* | 4.6% | Ni osodwyd targed | 28.30% | Amh. | | 50 | |
| Ni fydd y targed ar gyfer y mesur hwn yn cyrraedd 100% oherwydd trosiant – Pan ddaw Tai Amlfeddiannaeth oddi ar y rhestr, bydd rhai newydd yn cael eu hychwanegu ato. Mae'r fenter trwyddedu ychwanegol yn parhau i gael ei weithredu. Llandudno oedd yr ardal olaf i gael ei datgan yn ardal trwyddedu ychwanegol, felly gan fod mwy o Dai Amlfeddiannaeth yn yr ardal hon wedi'u trwyddedu, dylai'r canran cyffredinol Tai Amlfeddiannaeth trwyddedadwy sydd wedi'u trwyddedu barhau i gynyddu. | | | | | | | | |
| M3.6 | % (nifer) yr anheddau sector preifat a fu'n wag am fwy na 6 mis ac sy'n cael eu defnyddio unwaith eto | 41 (2.6%) | 75 | 42 | 39.2 | 2 o blith 22 | 50 | Coch |
| Er nad oedd y perfformiad alldro yn cyrraedd y targed o 75, roedd rhywfaint yn well na'r flwyddyn flaenorol. Disgwylir i'r Perfformiad ar gyfer 2015/2016 gynyddu oherwydd cwblhad yr arolwg drwy'r post o'r holl gartrefi gwag hirdymor yn y sir. Gall unrhyw eiddo sydd yn cael ei ddefnyddio eto ar ôl derbyn yr arolwg a'r daflen gyngor sy'n cyd-fynd â hi gael eu cyfrif tuag at y mesur perfformiad. Dylid nodi bod 9 annedd pellach wedi cael eu creu (ac wedi cael eu defnyddio) yn ystod y cyfnod adrodd gyda chefnogaeth cyllid drwy gynlluniau Troi Tai yn Gartrefi. Er na ellir cyfrif yr eiddo hyn tuag at y perfformiad hwn (am nad oeddynt yn anheddau ar y dechrau), bu angen llawer o waith gan swyddogion er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n llwyddiannus.<br>Mae'r mesur hwn wedi cael ei newid ar gyfer 2015/2016 i 'Nifer y cartrefi newydd a alluogir gan y Swyddogaeth Strategol Tai sydd yn a) Tai Fforddiadwy (targed 50) b) Tai Marchnad Gyffredinol' (dim targed)'. | | | | | | | | |
| M3.7 | Nifer y digwyddiadau ymwybyddiaeth llifogydd a gynhaliwyd | 5 | 8 | 8 | Amh. | | 8 | Gwyrdd |
| M3.8 | Nifer y cartrefi a gafodd gefnogaeth i wella eu heffeithlonrwydd ynni gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, a chwmnïau Cyfleustodau. | 648 | 500 | 502 | Amh. | | 500 | Gwyrdd |
| Bu gostyngiad yn nifer y cartrefi â chymorth i wella effeithlonrwydd ynni o fewn Conwy o ganlyniad i gwblhau cynllun Arbed 2 Llywodraeth Cymru ac mae'r rhan fwyaf o'r stoc tai cymdeithasol yn awr yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. | | | | | | | | |

### 3.3 Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae'r holl gamau gweithredu yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at ddarparu tai diogel ac addas i drigolion Conwy. Mae Partneriaeth Datrysiadau Tai Conwy a ULlMaD (Un Llwybr Mynediad at Dai) wedi galluogi gwelliannau cadarnhaol ar gyfer atal digartrefedd ac ailgartrefu teuluoedd sydd yn mynd yn ddigartref. Gwnaed cynnydd da gyda thrwyddedu Tai Amlfeddiannaeth a mentrau effeithlonrwydd ynni, fodd bynnag, mae angen parhau i weithio gyda phartneriaid i chwilio am

gyfleoedd ariannu pellach. Mae'r digwyddiadau ymwybyddiaeth o risg o lifogydd wedi cyrraedd y targed a osodwyd, a bu cynnydd sylweddol gyda'r mentrau adeiladu amddiffynfeydd morol. Tra bod y targed tai fforddiadwy ychydig yn is na'r targed, mae rhesymau clir pam fod y targed wedi cael ei fethu o drwch blewyn.

**3.4 Meysydd i'w gwella / datblygu**

Mae arnom ni angen parhau i ysgrifennu'r Cynllun Tai Fforddiadwy ac, os yw'r cais yn llwyddiannus, cefnogi effeithlonrwydd ynni yn y cartref ymhellach. Mae angen i ni weithio i roi'r Cynllun Cartrefi Gwag ar waith. Grŵp Cyflawni Tai Fforddiadwy'r Bartneriaeth Tai Strategol fydd yn symud ymlaen â'r gwaith yma. Dylai gweithredu'r arolwg Cartrefi Gweigion gefnogi gwelliant er mwyn i gartrefi gweigion gael eu defnyddio eto, fodd bynnag, y flwyddyn nesaf bydd y ffocws ar 'Nifer y cartrefi newydd a alluogir gan y Swyddogaeth Strategol Tai sydd yn a) Tai Fforddiadwy neu b) Tai Marchnad Gyffredinol a fydd yn cynnwys eiddo gwag yn cael eu defnyddio eto.

## Canlyniad 4 - Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol

### 4.1 Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

**A4.1 Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i adolygu ffyrdd o ddarparu Gofal Cymdeithasol a datblygu ystod o ddewisiadau cefnogi ar gyfer y rhai sydd angen cymorth i'w cadw'n annibynnol am gyhyd â phosibl.**

Gan weithio gyda'n partneriaid ym maes Iechyd a'r Trydydd Sector, rydym wedi lansio Pwynt Mynediad Sengl, a thrwy ffonio un rhif ffôn am ddim (0300 456 1111), ceir mynediad i Wasanaethau Cynhwysol Lefel 1 ac i Wasanaethau Lles Cymunedol/Ymyrraeth Gynnar Lefel 2. (Nid yw'r tîm yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant neu Dîm Cyffuriau ac Alcohol). Mae Gwasanaethau Lles Cymunedol / Ymyrraeth Gynnar yn cynnwys Gwasanaeth Ymateb sy'n cael ei dreialu, fflatiau Gofal Tymor Byr Ychwanegol, defnyddio teclyn rhannu meddyginiaeth Pivotell, Gwasanaeth Paru Eiddo wedi'i Addasu, a gwasanaeth Gofal a Thrwsio estynedig. Rydym yn wrthi'n cyd-leoli Timau Amlddisgyblaethol sydd eisoes ar waith yn yr ardaloedd Llanrwst, Llandudno, a Bae Colwyn. Erbyn hyn mae gennym un tîm ar waith i wella cydlynu'r gwasanaethau a gomisiynir.

Gwyrdd

**A4.2 Cydnabod pwysigrwydd gofal anffurfiol, a dod yn well am ganfod pwy sy'n darparu gofal o'r fath a pha gymorth y mae arnynt ei angen i gyflawni'r swyddogaeth hollbwysig hon.**

Fe godwyd proffil y Tîm Gofalwyr a'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael i ofalwyr, drwy ei hyrwyddo mewn grwpiau cymorth, dosbarthu pecynnau gwybodaeth, a chynnal digwyddiadau yn ystod Wythnos Gofalwyr, a thrwy ddiweddaru'r wefan. Mae cylchredeg y Cerdyn Gwybodaeth i Ofalwyr wedi ei wella, ac mae ymwybyddiaeth ymysg staff wedi codi drwy hyfforddiant. Rydym hefyd wedi darparu hyfforddiant i Ofalwyr ee, Sesiynau Gofal Cefn. Erbyn hyn mae gan aelodau o'r cyhoedd well mynediad i'r Tîm Gofalwyr, iechyd ac ymarferwyr eraill, drwy sesiynau galw heibio a gynhelir mewn llyfrgelloedd a meddygfeydd. Mae cofnodi gofalwyr yn parhau i fod yn faes i'w wella a byddwn yn edrych i symleiddio'r broses gofnodi.
Mae gofynion hyfforddi o ran cofnodi gwybodaeth wedi cael eu nodi a bydd yn cael sylw o fewn y chwarter nesaf.

Oren

**A4.3 Rhoi cynllun gweithredu 'Conwy Egnïol am Oes' ar waith i annog cyfleoedd i fyw bywydau iach.**

Mae prosiectau blaenoriaeth Conwy Egnïol am Oes yn datblygu'n dda. Mae'r prosiect nofio ar gyfer ysgolion wedi ymgysylltu'n effeithiol ag ysgolion i newid eu darpariaeth nofio. Mae % y plant sy'n gallu nofio ar ddiwedd ysgol gynradd wedi codi 8%. Mae ailstrwythuro ac ail-alinio cynhwysfawr o ddarpariaeth gwasanaeth wedi digwydd yn Chwaraeon Ysgolion Conwy. Bu newid cyfeiriad a ffocws o ddarpariaeth ysgolion uwchradd i gynradd. Ysgolion uwchradd sydd bellach yn gyfrifol am raglen allgyrsiol yr ysgol. Erbyn hyn y brif flaenoriaeth ar gyfer y prosiect yw'r agenda Llythrennedd Corfforol newydd, gan roi pwyslais ar ddatblygu rhaglenni ar gyfer plant 3-13 oed. Y nod yw annog pob plentyn i fod yn llythrennog yn gorfforol. Mae llythrennedd yn gorfforol yn golygu bod gan unigolyn gatalog o sgiliau technegol ynghyd â'r hyder a'r cymhelliant i gymryd rhan mewn llawer o wahanol chwaraeon a gweithgareddau corfforol ym mhob cam o'u bywydau. Mae'n rhoi grym iddynt ddewis i fod yn weithgar yn gorfforol ym mha bynnag ffordd sydd orau ganddynt hwy, gan gael gwared ar ofnau i 'roi cynnig arni' neu ddiffyg cymhelliant y gall llawer ohonom ddioddef ohono. Mae 4 elfen unigol sy'n arwain at berson i fod yn llythrennog yn gorfforol:
**Sgiliau Corfforol + Hyder + Cymhelliant + Llawer o gyfleoedd = Llythrennedd Corfforol**
I gael rhagor o wybodaeth am Lythrennedd Corfforol ewch i http://physicalliteracy.sportwales.org.uk/ Mae pob cam allweddol arall yng Nghynllun Gweithredu Conwy Egnïol am Oes yn weithredol ac yn gweithio i ddarparu'r canlyniad o gynyddu faint sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.

Gwyrdd

**A4.4 Datblygu cynllun cludiant cymunedol lleol i helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau hanfodol.**

Cynhaliwyd asesiad o anghenion cludiant gwledig gan STC Ltd sydd wedi arwain at wneud argymhellion ynghylch fforddiadwyedd, hygyrchedd, derbynioldeb ac ymwybyddiaeth. Bydd y themâu hyn yn ffurfio rhan o gwmpas Prosiect Cludiant Corfforaethol yr awdurdod. Bwriad y prosiect yw mynd i'r afael â darpariaeth cludiant ac â materion ar draws pob maes perthnasol o fewn yr awdurdod, a chysylltu hefyd gydag agendâu trafnidiaeth ranbarthol a chenedlaethol. Yn dilyn adolygiad o ddarparu cludiant, sy'n cael ei gynnal gan Edge Solutions Cyhoeddus, mae'r tîm prosiect mewnol wrthi'n gweithio i gyflawni prif argymhellion yr adroddiad

Oren

hwn. Bydd Is-grwpiau yn cael eu sefydlu i weithio ar yr argymhellion, gan gynnwys y rhai yn ymwneud â Chludiant Cymunedol. Bydd Gweithgor Cludiant traws-swyddogaethol hefyd yn cael ei sefydlu, er mwyn sicrhau cyfathrebu cryf a rhannu arfer da, a fydd yn parhau y tu hwnt i oes y prosiect. Mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad o ran ein blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Cludiant Lleol, a'r awdurdod arweiniol yw Cyngor Gwynedd.
Mae datganiad o ddiddordeb wedi ei gyflwyno i Gynllun Datblygu Gwledig 3 i dreialu cynllun ceir cymunedol newydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu cynllun treialu yn ardal Uwchaled i ddarparu gwasanaethau cludiant cymunedol newydd sy'n cysylltu mewn i'r rhwydwaith bysiau craidd a chynnig mynediad lleol i ofal iechyd a gwasanaethau eraill fel siopa.
Roedd Cludiant Gymunedol hefyd yn un o bedair ffrwd gwaith o fewn y Prosiect Trawsnewid Cludiant rhanbarthol, y mae'r awdurdod yn cyfrannu iddo a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2014. Roedd y prosiect rhanbarthol yn canolbwyntio ar Wybodaeth i Deithwyr, Cludiant Cymunedol, Gwiriadau CRB / GDG, Teithio Rhatach a Diogelwch ar y Ffyrdd. Nod y prosiect oedd darparu gwaelodlin o ddarpariaeth bresennol y gwasanaeth. Bydd argymhellion o ganlyniad i'r waelodlin nawr yn cael eu datblygu gan bob Rheolwr Cludiant awdurdod lleol.

### 4.2 Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 13/14 | Targed 14/15 | Ein canlyniadau yn 14/15 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 15/16 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M4.1 | % y bobl hŷn sy'n ddigon iach ar ôl cael 6 wythnos o ofal galluogi fel nad oes angen gofal arnynt mwyach neu y gellir eu trosglwyddo i gynllun gofal llai dwys | 68.2% | 65% | 82.65% | Amh. | Amh. | 80% | Gwyrdd |
| M4.2a | Nifer y gofalwyr a nodwyd | 1,235 | 1,450 | 1,469 | Amh. | Amh. | 1,450 | Gwyrdd |
| Mae'n anodd gosod dyhead penodol ar gyfer y mesur hwn. Nid yw llawer o ofalwyr yn hoffi cael eu cofnodi fel hyn, felly mae'n rhaid cynnal lefelau presennol | | | | | | | | |
| M4.2b | Nifer y canlyniadau i ofalwyr sydd wedi cael eu cyflawni'n llawn neu bron yn llawn | 189 | Ni osodwyd targed | 318 | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | ↑ |
| Mewn adroddiadau yn y dyfodol, bydd mesur ychwanegol am % canlyniadau gofalwyr sydd wedi cael eu cyflawni gan fwyaf neu wedi eu cyflawni'n llwyr. | | | | | | | | |
| M4.3 | % yr ysgolion cynradd sy'n cyflawni'r safon Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Iach (yn ôl Blwyddyn Academaidd) | 7% Blwyddyn Academaidd (2012/13) | 12% | 14.00% | Amh. | Amh. | 17% (10/59 o ysgol) | Gwyrdd |
| M4.4 | % y bobl ifanc 11-16 oed sy'n gwneud ymarfer corff wythnosol yn rheolaidd drwy gymryd rhan yng nghynllun chwaraeon '5x60'. | 58% | 55% | 58.00% | Amh. | Amh. | 55% | Gwyrdd |
| Fel y nodwyd uchod, mae'r ffocws wedi symud i blant oedran ysgol gynradd. Mae mesur newydd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Cyfrifoldeb yr ysgolion fydd chwaraeon ysgol uwchradd. | | | | | | | | |
| M4.5 | % y disgyblion sy'n gadael yr ysgol gynradd yn medru nofio i safon ddigonol sy'n cwrdd â meini prawf 'dysgu nofio' | 65% | 80% | 73.00% | Amh. | Amh. | 80% | Oren |
| Gwnaed cynnydd da i wella'r perfformiad, (cynnydd o 8% yn 2012-2013). Serch hynny mae % y disgyblion sy'n gallu nofio 7% yn is na'r targed.Yn dilyn ailstrwythuro'r gwasanaeth, bydd rhagor o adnoddau'n cael eu cyfeirio tuag at yr amcan hwn. | | | | | | | | |

### 4.3 Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae cyflwyno'r pwynt mynediad sengl ac adolygu a chodi proffil Tîm Gofalwyr yn gynnydd ardderchog i gefnogi pobl i aros mor annibynnol ag y bo modd. Bydd y dull partneriaeth cryfach yn gwella hygyrchedd yn sylweddol ac yn symleiddio'r broses o safbwynt y cleient. Gwnaed cynnydd da gydag Egnïol am Oes ac rydym ar y trywydd iawn gydag Ysgolion Iach, mae pob un ohonynt yn helpu i addysgu a sefydlu dewisiadau ffordd o fwy iach gyda'n pobl ifanc o fewn y sir.

### 4.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Gwnaed cynnydd da tuag at y mesur safonol nofio ysgolion cynradd, fodd bynnag, roedd yn is na'r targed. Dylai'r cynnydd mewn adnoddau yn y maes hwn ddangos gwelliant pellach. Mae'r gwaith i waelodlin cludiant, gan gynnwys cludiant cymunedol, yn darparu sylfaen dda i weithredu gwelliannau yn y dyfodol, ac mae'n braf gweld bod cludiant cymunedol gwledig yn eu lle. Erbyn hyn mae gan y Prosiect Cludiant Corfforaethol argymhellion i'w gweithredu ac mae gwaith yn y maes bellach wedi dechrau.



## Canlyniad 5 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir gydag economi ffyniannus

### 5.1 Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

**A5.1 Datblygu ein Strategaeth Digwyddiadau ar y cyd a budd-ddeiliaid allweddol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hasedau allweddol e.e. chwaraeon dŵr, gweithgareddau awyr agored, digwyddiadau diwylliannol, Theatr Colwyn, Venue Cymru a Pharc Eirias.**

Gwyrdd

Cymeradwywyd y Strategaeth Ddigwyddiadau fis Hydref 2014, ac fe'i lansiwyd gan Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Chludiant, yn Rali GB Cymru. Roedd hwn yn ddigwyddiad gwych arall a roddodd sylw i'n Sir ar draws y byd. Mae'r Strategaeth bellach wedi ei chyhoeddi ar y wefan a'r fewnrwyd (http://www.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/621/Strategaeth_Ddigwyddiadau.pdf). www.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/621/Events_Strategy_E.pdf Y weledigaeth yw gwneud Sir Conwy yn Gartref Digwyddiadau Gwych ac fe'i cefnogir gan 6 nod allweddol.

1. Denu digwyddiadau o bwys mawr sy'n dod â manteision economaidd gwerthfawr i Sir Conwy.
2. Parhau i godi proffil yr ardal ar lefel ranbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.
3. Creu amgylchedd sy'n meithrin ac yn cefnogi digwyddiadau.
4. Cefnogi, naill ai gyda nawdd neu gyngor/ arweiniad perthnasol, digwyddiadau allweddol presennol sy'n gwella ansawdd bywyd a chyfrannu at wneud Conwy yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag o.
5. Gwneud y mwyaf o botensial ein prif leoliadau: Porth Eirias, Venue Cymru, Theatr Colwyn a Pharc Eirias
6. Parhau i fod yr Awdurdod arweiniol ar Reoli a Threfnu Digwyddiadau yng Ngogledd Cymru.

Cafodd 7 digwyddiad mawr eu cynnal yn ystod y flwyddyn sydd wedi cefnogi'r economi lleol. Roedd y digwyddiadau yn cynnwys: Rali GB Cymru, Cyngerdd Elton John, Gŵyl Griced Gogledd Cymru, Prom a Mwy, Access All Eirias, Taith Prydain, a Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru.

**A5.2 Adolygu ein dull o gaffael er mwyn cefnogi'r economi lleol.**

Gwyrdd

Datblygwyd fersiwn ddrafft o Strategaeth Gaffael Gorfforaethol ac mae honno'n cael ei diwygio ar hyn o bryd yn dilyn ymgynghori yn ei chylch. Mae Rheolau'r Weithdrefn Gontractau wedi cael eu diwygio a chynhaliwyd hyfforddiant ar y rheolau diwygiedig. Mae'r hyfforddiant ar Reolau'r Weithdrefn Gontractau wedi codi ymwybyddiaeth ar draws yr awdurdod o raglen tendr blaen, hyrwyddo cynllunio amserol ar gyfer unrhyw ymgynghori angenrheidiol gyda darpar gyflenwyr. Mae hyn yn sail i'r modd y bydd Swyddogion ar draws y Cyngor yn cefnogi caffael moesol, yn enwedig ein hagwedd tuag at yr economi leol ac agenda cynaladwyedd y Cyngor. Mae sefydlu cofrestr contractau corfforaethol, yn galluogi pob gwasanaeth i gofnodi cyfanswm gwariant y Cyngor gyda busnesau allanol. Caiff data allweddol sy'n ymwneud â'r ystod o gontractau sy'n cael eu dyfarnu eu cofnodi gan wasanaethau yn y gofrestr ganolog. Mae'r gofrestr yn casglu ystadegau hanfodol ynglŷn â nifer y contractau sydd wedi'u dyfarnu i fusnesau'n lleol yng Nghonwy, yng Ngogledd Cymru ac yng Nghymru a thu hwnt.
Rydym wedi bod yn hyrwyddo trefniadau caffael moesol Conwy trwy fynychu gwahanol fforymau gyda chydweithwyr busnes mewnol ac allanol, a darparu cefnogaeth i asiantaethau ac awdurdodau cyfagos. Cynigir cefnogaeth i gyflenwyr yn ôl y gofyn gan gyfeirio at unrhyw dendro electronig (E tendro), yn ogystal â gofynion sydd eu hangen i gofrestru ar Restrau Darparu Cymeradwy, sy'n cael eu cynnal ar draws yr awdurdod.

**A5.3 Bod yn fwy rhagweithiol wrth gefnogi ac ymgysylltu â busnesau newydd (gan gynnwys busnesau gwledig) yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn deall anghenion busnes, a gweithredu yn eu cylch pan fo hynny'n ddichonadwy, a chefnogi'r busnesau hynny i ymgeisio am gontractau busnes.**

Gwyrdd

Sefydlwyd partneriaeth fusnes ym mis Medi 2014. Cafodd Clwb Cinio Proffesiynol ei sefydlu yn y Ganolfan Fusnes yng Nghyffordd Llandudno ar gyfer cyfrifwyr, cyfreithwyr ac ymgynghorwyr busnes er mwyn iddynt rwydweithio a thrafod materion busnes. Mae Swyddog Ymgysylltu bellach yn ei swydd ac o fewn 1 mis wedi canfod 34 o gyfleoedd Prentis gyda 50 o gysylltiadau busnes newydd. Mae'r Swyddog yn cyfeirio'n ôl at, ac yn rhan annatod o ddull cymorth busnes 'Tîm Conwy' gan ddwyn ynghyd CBSC, Busnes Cymru, Coleg Llandrillo a Chanolfan Byd Gwaith. Sefydlwyd grŵp TG Busnes, a bydd pedwar grŵp sectoraidd arall yn cael eu sefydlu ym mlwyddyn ariannol 2015/2016. Rydym yn integreiddio Menter

Treftadaeth Treflun gyda'r tîm adfywio a chefnogi busnesau, ac yn datblygu cynnig Ardal Gwella Busnes ar gyfer Bae Colwyn gyda chynllun gweithredu sy'n cael ei arwain gan y sector preifat.
Rydym yn cynorthwyo busnesau yn y Sir i hawlio'r Gostyngiadau Trethi Annomestig Cenedlaethol sydd ar gael iddynt, gan gynnwys y Cynllun newydd Rhyddhad Ardrethi ar Busnes yng Nghymru. Yn 2014/2015 fe wnaethom roi cyfanswm o £413,200 o Gynllun Rhyddhad ar Drethi Busnes yng Nghymru i 496 o fusnesau. Fe wnaethom roi cyfanswm o £88,954 i 210 o fusnesau o dan y Cynllun Cryfach ar gyfer Anghenion Lleol. Bydd y Cynllun Rhyddhad ar Drethi Busnes yng Nghymru yn parhau yn 2015/2016.

**A5.4 Uchafu'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael i drigolion Conwy mewn datblygiadau allweddol ar draws y rhanbarth.**

Gwyrdd

Mae cronfeydd data ymholiadau ynghylch eiddo busnes y 6 Awdurdod Lleol ar draws Gogledd Cymru bellach wedi'u cysylltu ac mae protocolau ar waith ar gyfer rhannu ymholiadau. Mae cysylltiadau wedi cael eu sefydlu rhwng y Tîm Datblygu Safleoedd Strategol gyda thîm cefnogi busnes 'Tîm Conwy', sy'n rhoi cymorth di-dor, o ddatblygu cynigion, drwodd i sefydlu busnes a recriwtio.

**A5.5 Hyrwyddo rhagor o fewnfuddsoddiad.**

Oren

Mae gwaith yn parhau o ran cysylltu â Swyddog Cysylltedd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a hyrwyddo safleoedd drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Rydym yn hyrwyddo safleoedd drwy'r ffrwd waith Cyrchfan. Mae mentrau marchnata ar y cyd yn cael eu paratoi. Roedd gan yr Awdurdod stondin yn REGEN 2015 - cynhadledd ac arddangosfa ar gyfer diwydiant adfywio yn y DU.

**A5.6 Gweithredu a chydlynu mentrau i helpu teuluoedd i symud allan o dlodi megis Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.**

Oren

Mae Bwrdd Rhaglen Creu Cymunedau Cryf a Threchu Tlodi dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr wedi'i sefydlu a bydd yn cefnogi'r gwaith o gydlynu rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a'r Tîm o Amgylch y Teulu. Mae swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd i gydlynu 4 elfen waith trechu tlodi:

- Elfen 1 - Defnyddio asesiadau anghenion presennol i sefydlu'r prif flaenoriaethau tlodi.
- Elfen 2 - Deall a gwneud y mwyaf o'n cyfleoedd cyllid grant, er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion ein cymunedau o fewn ardaloedd grant dynodedig.
- Elfen 3 - Ystyried sut rydym yn cau'r bwlch ar gyfer ein cymunedau sydd ddim mewn ardal rhaglen benodol neu'n diwallu meini prawf y prosiect a ariennir gan grant.
- Elfen 4 - Sicrhau bod mecanweithiau llywodraethu priodol, yn gosod yr agenda tlodi ym mlaen y polisi a gwneud penderfyniadau strategol o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae Conwy yn rhan o Grŵp rhanbarthol Cefnogi Teuluoedd Gogledd Cymru sydd wedi ymgymryd ag asesiad rhanbarthol trosfwaol o anghenion. Maent wedi nodi'r blaenoriaethau canlynol.

- Effaith tlodi mewn gwaith a diwygio'r gyfundrefn les ar deuluoedd.
- Cyflog byw nid isafswm cyflog.
- Cynyddu lefelau cyrhaeddiad y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim.
- Pwysau geni isel a mesuriadau iechyd plant sy'n dangos bod dros chwarter o blant 4-5 mlwydd oed yn ordew.
- Ceisio lleihau nifer y rhai 18 - 24 oed sy'n datgan eu bod yn ddigartref.
- Lleihau effaith tlodi gwledig, mynediad i wasanaethau a thalu am wasanaethau.

Bydd y gwaith hwn yn bwydo mewn i'n rhaglen waith ac yn dylanwadu ar Fwletin blynyddol Trechu Tlodi Conwy.

Mae gweithgarwch trechu tlodi wedi cynnwys y cyflwyno gweithdy Cynhwysiant Ariannol ar y cyd, gweithio ar broffil gwasanaeth gallu ariannol a chynllunio prosiectau ar gyfer 2015/16. Mae Dechrau'n Deg wedi cynnwys taflenni cwrs Cymunedau yn Gyntaf a thaflenni mewn newyddlenni a anfonwyd allan ac wedi gwahodd Cymunedau yn Gyntaf a Thîm o Amgylch y Teulu i bartïon pen-blwydd plant dros yr haf i hyrwyddo eu gwasanaethau ac i rwydweithio. Bydd y gwaith hwn yn bwydo mewn i'n rhaglen waith ac yn dylanwadu ar Fwletin blynyddol Trechu Tlodi Conwy a ysgrifennir gan ein Uned Ymchwil a Thîm Partneriaeth Pobl Conwy.

Mae ailstrwythuro Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg yn cynnwys datblygu Gwasanaeth Lles Cymunedol newydd sydd yn cynnwys Dechrau'n Deg, Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf, Gwaith Amdani, Tîm o Amgylch y Teulu. Mae'r prosiectau / rhaglenni yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Datblygu Cymunedol ar ddarparu ar y cyd megis: Tîm o Amgylch y Teulu a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a Chymunedau yn Gyntaf a Gwaith Amdani a Dechrau'n Deg mewn hyfforddiant ar y cyd, darparu gwasanaethau, cyllid a rhannu adnoddau. Cynhaliwyd 17 o brosiectau Cymunedau yn Gyntaf gan weithio gyda 1,414 o gyfranogwyr unigryw. Cynhaliwyd 1016 o sesiynau a chyfrannwyd 211 o oriau gwirfoddoli at brosiectau. Fe wnaethom hefyd gefnogi 4 diwrnod hwyl i'r teulu yn ogystal â nifer o ddigwyddiadau cymunedol llai.

Wrth i fwy o bobl ofyn am gyflwyniadau ar-lein, ee, ceisiadau am swyddi, budd-daliadau ac ati, mae llawer o waith yn cael ei gynnal yn Llyfrgelloedd Conwy i wella mynediad digidol drwy sesiynau hyfforddi a hwyluso staff. Rhwng mis Awst 2014 a mis Mawrth 2015, cyflwynwyd 374 o sesiynau yn llyfrgelloedd Conwy gan Cymunedau 2.0, gan wasanaethu 538 o fuddiolwyr unigryw. Er mwyn cefnogi hyn, mae gan y Cyngor Wi-fi cyhoeddus am ddim ym mhrif adeiladau'r cyngor.

Mae'r rhaglen o weithgareddau a ddarperir gan y Gwasanaeth Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc yn cynnwys elfennau i'w paratoi i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn bartner allweddol i ddatblygu 'Prosiect TRAC' sydd wedi'i anelu at ostwng nifer y bobl ifanc yng Nghonwy sydd yn NEET (ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant).

Mae'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau yn parhau i dderbyn cyllid ar gyfer 2.5 o swyddi ychwanegol ac mae hyn yn ein galluogi i ddarparu Gwasanaeth Hawliau Lles i bobl mewn angen na fyddai wedi cael mynediad i'r gwasanaeth yn flaenorol. Mae'r holl staff wedi cael eu hyfforddi mewn perthynas â materion cynhwysiant ariannol; roedd llawer o staff yn bresennol ar gyrsiau hyfforddi yn ddiweddar yn ymwneud â thlodi tanwydd, ac ar fenthyca arian yn anghyfreithlon.Roeddem yn rhan weithredol ym Mhrosiect Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd ar y Cyd rhwng Conwy a Sir Ddinbych a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2014. Drwy'r prosiect hwn cyflwynwyd hyfforddiant cynhwysiant ariannol i 244 o gydweithwyr ar draws yr Awdurdod. Rydym yn bwriadu parhau i ddarparu hyfforddiant cynhwysiant ariannol trwy fodiwl e-ddysgu a hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ystod 2015-2017. Yn ystod 2014/2015 mae enillion budd ychwanegol o £7,247 miliwn wedi cael ei nodi ar gyfer cwsmeriaid. Drwy ymchwilio i dwyll budd-daliadau a chymryd camau yn erbyn y rhai sy'n cyflawni twyll, rydym yn sicrhau mai unigolion sydd â hawl i'r budd-daliadau yn unig sydd yn eu derbyn. O 30 Tachwedd 2014 (trosglwyddodd y gwasanaeth i'r Adran Gwaith a Phensiynau ar 1 Rhagfyr 2014), roeddem wedi sancsiynau ac erlyn cyfanswm o 37 o hawlwyr budd-daliadau. Rydym nawr yn monitro'r gwasanaeth ar ôl y trosglwyddiad, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.

Yn ogystal â chynyddu nifer y prentisiaethau rydym yn ei gynnig, mae'r Cyngor yn talu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol i'n prentisiaid yn hytrach na'r gyfradd prentis llawer is.Mae hyn yn gyfraniad cadarnhaol uniongyrchol at yr agenda Tlodi oherwydd gellir effeithio'n sylweddol ar fynediad at waith drwy ddiffyg incwm gwario i dalu am gludiant cyhoeddus neu gludiant personol. Mae ein hymgyrch i recriwtio a lle bo'n bosibl cadw prentisiaid ar ôl cymhwyso yn cael effaith ar ddiweithdra ieuenctid yn yr ardal. Mae addysg ariannol hefyd yn cael ei chynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol yn ein hysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae Safonau Masnach yn gweithio gydag Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru (UBAAC). Eleni, rydym wedi helpu i roi gwybodaeth am dargedau posibl o fewn ffiniau Conwy. Maent wedi hwyluso tair sesiwn i glybiau ieuenctid ar gynhwysiant a benthycwyr arian didrwydded, un sesiwn i ganolfan alw heibio CAIS ym Mae Colwyn ac maent wedi cael caniatâd gan dair ysgol i gymryd rhan ym mhecyn treialu Addysg Ariannol. Rhain fydd yr ysgolion cyntaf yng Ngogledd Cymru i gymryd rhan. Mae Safonau Masnach wedi cynnal tua 32 o arolygiadau tybaco anghyfreithlon.

Mae'r prosiectau tai Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn gwneud cynnydd da (Lle i Fyw ac Adnewyddu Tai) a fydd yn cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy i bobl leol ac yn cynorthwyo i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn yr ardal. Mae'r ddau brosiect angen buddion cymunedol yn rhan o'r broses caffael a fydd yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant / cyflogaeth.

Bydd maes gwaith Partneriaeth Strategol Tai yn mapio buddsoddiad tai i ddarparu tystiolaeth bellach o'r cyfleoedd i wneud y gorau o'r manteision cymunedol o ran telerau cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddiant i'r rhai nad ydynt mewn addysg neu gyflogaeth.

## 5.2 Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 13/14 | Targed 14/15 | Ein canlyniadau yn 14/15 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 15/16 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M5.1a | Nifer y digwyddiadau o bwys a gefnogir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 7 | 5 | 7 | Amh. | Amh. | 5 | Gwyrdd |
| M5.1b | Nifer y digwyddiadau cymunedol a gefnogwyd gan CBSC | 26 | 25 | 26 | Amh. | Amh. | 25 | Gwyrdd |
| M5.2 | Nifer yr ymwelwyr sy'n ymweld â Chonwy bob blwyddyn gan aros dros nos. | 2,509,300 | 2,400,000 | 2,517,000 | Amh. | Amh. | 2,400,000 | |
| M5.3 | Nifer yr ymwelwyr sy'n ymweld â Chonwy bob blwyddyn ar gyfer tripiau undydd. | 5,966,900 | 6,000,000 | 6,280,000 | Amh. | Amh. | 6,000,000 | |
| M5.4 | % o gontractau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'u tendro a aeth i fusnesau yng Ngogledd Cymru. | 43.3% | Ni osodwyd targed | 81.81% | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | |
| M5.4a | % y contractau a dendrwyd gan CBSC a aeth i fusnesau yng Ngogledd Cymru – hyd at £15,000 | 50.0% | Ni osodwyd targed | 73.91% | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | |
| M5.4b | % y contractau a dendrwyd gan CBSC a aeth i fusnesau yng Ngogledd Cymru – hyd at £15,000 - £29,000 | 40.0% | Ni osodwyd targed | 89.79% | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | |
| M5.4c | % y contractau a dendrwyd gan CBSC a aeth i fusnesau yng Ngogledd Cymru – hyd at £30,000 ac uwch | 42.9% | Ni osodwyd targed | 79.80% | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | |
| Mae'r canlyniadau wedi cael eu casglu o'r Gofrestr Contract Gorfforaethol yn ogystal â thendr a gafodd eu hagor sydd wedi'u cofnodi. Mae cofnodion manwl wedi cael eu coladu ar gyfer contractau lleol a ddyfarnwyd o fewn y gwasanaethau cludiant a gwasanaethau eraill sydd yn amlwg wedi cynyddu'r ystadegau ar gyfer y cyfnod hwn. | | | | | | | | |
| M5.5 | Nifer y busnesau a gefnogwyd i wneud cais am gontractau, hyfforddiant, ariannu neu a gafodd gymorth i gydymffurfio â gofynion polisi newydd. | 235 | Ni osodwyd targed | 226 | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | |
| M5.6 | Nifer y swyddi a gafodd eu creu neu eu hamddiffyn trwy | 515 | Ni osodwyd targed | 515.71 | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | hwyluso cymorth ariannol. | | | | | | | |
| Cafodd gwall ei adnabod wrth adrodd M5.5 a M5.6 yn dilyn yr adolygiad canol blwyddyn o berfformiad. Gwall gan unigolyn oedd hyn, ac mae'r cyfrifiad bellach wedi cael ei gywiro. Ni ellir gosod targed ar gyfer y canlyniad oherwydd anallu i ragweld y mathau o brosiectau a fydd yn cael eu cymeradwyo i dderbyn Cyllid Ewropeaidd, a'u canlyniadau a'u hallbynnau. | | | | | | | | |
| M5.7 | % y plant sy'n byw mewn tlodi (lle bo incwm yr aelwyd yn is na 60% o incwm cyfartalog Prydain). | 19.4% | Ni osodwyd targed | 18.90% | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | ⬇ |

### 5.3 Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Nid yw'r economi yn rhywbeth sydd yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol, fodd bynnag mae cynnydd cyffredinol camau blaenoriaeth i gefnogi'r economi wedi bod yn llwyddiannus. Rydym yn hynod falch o'r Strategaeth Digwyddiadau a'r effaith y mae digwyddiadau mawr wedi ei gael ar yr economi leol ac rydym yn arbennig o falch o dderbyn Gwobr LGC y DU ar gyfer Cyngor Entrepreneuraidd. Mae'r hyfforddiant ar reolau'r weithdrefn gontractau wedi codi ymwybyddiaeth o'n dull caffael moesol ac mae modd gweld hyn drwy'r cynnydd yn y contractau a ddyfarnwyd yn lleol. Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn galluogi awdurdodau gogledd Cymru i gydweithio i ddenu buddsoddwyr i'r ardal. Mae ein cyfathrebu a rhwydweithio gyda busnesau lleol drwy'r fforwm busnes yn dal i fod yn y dyddiau cynnar, ond mae eisoes yn dangos effaith gadarnhaol ar brentisiaethau a chyfleoedd busnes lleol a rhanbarthol. Drwy Fwrdd Creu Cymunedau Cryf a Threchu Tlodi, gallwn gydlynu ein cyfraniad tuag at yr agenda trechu tlodi, ac mae'n braf nodi o'r ystadegau isod fod diweithdra wedi gostwng, fodd bynnag, mae'n dal i fod yn uwch na chyfartaledd Prydain Fawr.

| | Nifer y di-waith yng Nghonwy | Cyfradd Diweithdra Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy% | Diweithdra Cymru | Diweithdra Prydain Fawr |
|---|---|---|---|---|
| **Mawrth 2011** | 2,561 | 3.8 | 3.9 | 3.7 |
| **Mawrth 2012** | 2,741 | 4.0 | 4.3 | 4.0 |
| **Mawrth 2013** | 2,791 | 4.1 | 4.2 | 3.8 |
| **Mawrth 2014** | 2,301 | 3.4 | 3.4 | 2.9 |
| **Mawrth 2015** | 1,621 | 2.4 | 2.5 | 2.0 |

### 5.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae angen i ni barhau i gefnogi busnesau lleol ar lefel leol a rhanbarthol a byddwn yn parhau i wneud cais am gyllid Ewropeaidd i'n helpu i wneud hyn. Mae angen cwblhau'r diwygiadau i'r Strategaeth Gaffael cyn eu cyflwyno i'w cymeradwyo, a rhagwelir y bydd y strategaeth wedi'i diweddaru yn cefnogi busnesau lleol hefyd. Mae Trechu Tlodi yn strategaeth tymor hir, a bydd y Bwrdd Creu Cymunedau Cryf a Threchu Tlodi yn galluogi'r Cyngor i gydlynu'r dull corfforaethol tymor hir hwn i gefnogi dinasyddion Bwrdeistref Sirol Conwy.



## Canlyniad 6 – Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Amgylchedd Cynaliadwy

### 6.1 Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

**A6.1 Parhau i gynnal, gwella a rhoi cyhoeddusrwydd i ansawdd ein gwarchodfeydd natur, ein traethau a'n parciau.**

Enillwyd cyfanswm o 17 gwobr yn ystod 2014/2015 yn cynnwys 9 o Faneri Gwyrdd; Gwobrau Cymru yn ei Blodau ar gyfer Llandudno a Bae Colwyn i mewn; Gwobr Prydain yn ei Blodau ar gyfer Bae Colwyn; Gwobrau Cymunedol *It's your Neighbourhood* a'r Faner Werdd; a Eich cymdogaeth a Gwobrau Cymunedol y Faner Werdd; a'r Perfformiwr Gorau ar gyfer Parciau Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus.
Cafodd 7 o draethau yng Nghonwy wobrau arfordirol yn 2015, derbyniodd 3 o'r traethau hyn 2 wobr gan wneud cyfanswm nifer y gwobrau a dderbyniwyd yn 10.
Rhoddwyd Gwobrau Baner Las i Benmorfa Llandudno, Llanfairfechan a Llandrillo-yn-Rhos. Rhoddwyd Gwobrau Cyrchfan Glan Môr i Benmorfa Llandudno, Llanfairfechan, Llandrillo-yn-Rhos, Abergele a Phensarn, Traeth y Gogledd, Llandudno a Phenmaenmawr. Derbyniodd Sandy Cove ym Mae Cinmel Wobr Glan Môr Gwledig.

Gwyrdd

**A6.2 Gweithredu'r strategaeth i fynd i'r afael â safleoedd sy'n 'ddolur llygad' yn y Fwrdeistref Sirol .**

Drwy'r strategaeth hon, mae 24 o safleoedd wedi cael eu tynnu oddi ar y gofrestr. Mae saith safle blaenoriaeth yn parhau ar y gofrestr, yn rhan o gyfanswm o 31 o safleoedd 'dolur llygad'. Mae hyn yn ostyngiad ar gyfanswm gofrestr y llynedd sef 41 o safleoedd 'dolur llygad'.

Gwyrdd

**A6.3 Gweithredu Cynllun Rheoli Carbon i ostwng allyriadau carbon y Cyngor.**

Hyd yma, mae cyfanswm o 82 o adeiladau'r cyngor wedi elwa ar uwchraddio goleuadau ac mae gwerthusiad yn cael ei gynnal i fesur effeithiolrwydd yr uwchraddio hyn ar ein perfformiad carbon. Mae 8 adeilad ychwanegol yn y cyngor wedi cael eu dewis i dderbyn goleuadau wedi'u huwchraddio.
Mae archwiliad technegol ar gyfer y System Rheoli Adeiladu a'r uned gwres a phŵer cyfunol ar gyfer Canolfan Hamdden Colwyn wedi ei gwblhau a lluniwyd adroddiad gwerthuso opsiynau.
Rydym wedi ymweld â 2 ysgol o dan y prosiect Ysgolion Carbon Isel, ac yno y mae'r dull cyflwyno gweithdy diwygiedig yn cael ei dreialu, ac mae wedi derbyn cefnogaeth gan yr ysgolion.
Mae Cam 1 i uwchraddio lampau LED goleuadau stryd ar y gweill ac mae 500 o lampau wedi cael eu huwchraddio hyd yma.
Mae'r prosiect effeithlonrwydd thermol wedi'i gychwyn. Bydd y prosiect hwn yn sicrhau gwelliannau thermol i safleoedd, megis atal drafftiau ac inswleiddio.
Mae archwiliadau ynni misol o adeiladu ar y gweill i ganfod cyfleoedd i wella effeithlonrwydd ynni ymhellach a mynd i'r afael â newid ymddygiad staff. Archwiliwyd 7 safle hyd yn hyn.

Oren

**A6.4 Gweithredu System Reolaeth Amgylcheddol o'r enw 'Y Ddraig Werdd'. Safon yw hon a luniwyd i hyrwyddo rheolaeth dda o'r amgylchedd o fewn sefydliad. Mae 5 lefel i'w cyflawni – a lefel 5 yw'r safon uchaf.**

Yn dilyn ailasesiad ym mis Chwefror 2015, rydym wedi llwyddo i gadw statws Lefel 5 y Ddraig Werdd.

Gwyrdd

**A6.5 Parhau i archwilio sut y gall technoleg newydd fod o fantais o safbwynt arbed costau ac amser er mwyn moderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio.**

Cafodd Pennaeth Gwasanaeth newydd sy'n gyfrifol am TG a thrawsnewid digidol ei benodi ym mis Tachwedd 2014, ac mae'n uwch arweinydd ar gyfer y Rhaglen Moderneiddio. Mae gan y Rhaglen Moderneiddio ddwy ffrwd waith sy'n canolbwyntio ar Isadeiledd TGCh a Phrosesau Busnes. Mae Hyblygrwydd Wrth Weithio (fersiwn Conwy o'r gweithio ystwyth) yn cael ei weithredu fel rhan o'r Rhaglen ac mae hyn yn cymryd i ystyriaeth y defnydd o dechnolegau newydd i foderneiddio'r modd rydym yn gweithio. Mae Achos Busnes ar gyfer Hyblygrwydd Wrth Weithio wedi'i ddrafftio sy'n dangos yr arbedion cost sy'n gysylltiedig â rhoi technolegau newydd ar waith.
Mae'r Strategaeth TGCh yn symud ymlaen - mae Wi-Fi wedi'i gyflwyno i holl safleoedd allweddol y cyngor ac mae bellach ar gael i'r cyhoedd. Mae'r gwasanaeth TG yn treialu defnydd o Skype ar gyfer Busnes, gweithio

Gwyrdd

ystwyth a system gofnodi amser newydd. Bydd hyn yn sail i'r rhaglen foderneiddio drwy ganiatáu rhagor o gydweithredu a chyfathrebu rhwng timau sy'n cael eu gwasgaru'n ddaearyddol. Dylai'r gostyngiad yng nghostau porth mynediad o bell (RAG) a chyflwyno Dewch â'ch Dyfais eich Hun hefyd gynorthwyo â'r fforddiadwyedd i ehangu cefnogaeth dechnolegol ystwyth i ragor o staff.
Rydym hefyd yn ymchwilio/prynu ystafelloedd Fideo-gynadledda ychwanegol er mwyn lleihau costau teithio a gwella cyfathrebu.
Fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio, rydym yn cwmpasu ystod eang o wasanaethau er mwyn cyflwyno gwasanaethau ar-lein ac yn ymchwilio i niferoedd presennol o drafodion i ymestyn ein galluoedd Sifft Sianel. Mae'r system Monitro Gofal Electronig newydd yn gwneud defnydd helaeth o dechnoleg symudol. Mae'r manteision yn cynnwys y gallu i ddiweddaru amserlenni gweithwyr yn ddeinamig a chofnodi cynnydd y cleient yn y man a'r lle.

**A6.6 Lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi a chwrdd â'n targedau ailgylchu statudol.**

Gwyrdd

Bu gostyngiad o 7,536 tunnell yn nifer y gwastraff a anfonwyd i safle tirlenwi o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac roedd 32% o wastraff a anfonwyd i safle tirlenwi yn is na'r targed sef 40%. Mae ffactorau sy'n cyfrannu yn cynnwys contract newydd, sydd â thelerau yn nodi defnyddio dulliau trin amgen er mwyn gwaredu, a galluogi i ddeunydd ailgylchu ychwanegol gael eu tynnu allan o wastraff a gaiff ei anfon yn draddodiadol i safleoedd tirlenwi.
Mae canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio wedi cynyddu 2,046 tunnell o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae hyn gyfwerth o ran pwysau â thros 6 jet jumbo.
Er ein bod wedi methu'r targed mewnol o drwch blewyn, mae'r Targed Adfer Statudol o 58% a osodwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei gyflawni. Mae'r diffyg bychan yn nisgwyliad o gyfradd ailgylchu o 60% i'w briodoli i'r cynnydd yng nghyfanswm y gwastraff trefol ledled yr awdurdod (436 o dunelli), anawsterau wrth ddod o hyd i ailbroseswyr yn y DU sy'n gallu ailgylchu 100% o'r coed a dderbynnir mewn canolfannau ailgylchu ers cyflwyno newidiadau deddfwriaethol, a llai na'r disgwyl o dunelli o wastraff y gellir ei ailgylchu yn sgil ysgubo'r stryd.

## 6.2 Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 13/14 | Targed 14/15 | Ein canlyniadau yn 14/15 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 15/16 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M6.1 | Nifer y traethau i gael gwobrau arfordirol | 10 | 8 | 7 | Amh. | Amh. | 8 | Oren |
| M6.2 | Nifer y parciau a'r gwarchodfeydd natur sydd â statws Baner Werdd | 9 | 9 | 9 | Amh. | Amh. | 9 | Gwyrdd |
| M6.3 | Canlyniadau'r dangosydd glendid | 80.35 | 77 | 79.00 | Amh. | Amh. | 78 | Gwyrdd |
| M6.4a | Nifer y safleoedd a nodwyd sy'n 'ddolur llygaid' | 41 | Ni osodwyd targed | 31 | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | ↓ |
| M6.4b | Nifer y safleoedd a nodwyd sy'n 'ddolur llygaid' a gafodd eu gwella | 10 | Ni osodwyd targed | 24 | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | ↑ |
| M6.5 | % y gostyngiad yn allyriadau carbon Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 8% | 20% | 17.23% Gweler sylwebaeth | Amh. | Amh. | 25% | |
| Mae'r targed o 20% yn gronnus o 2011 i 2015. | | | | | | | | |


CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Yn ystod 2014/2015 gwelwyd gostyngiad cyffredinol mewn allyriadau carbon o 17.23% o waelodlin blwyddyn 2010/2011 yn erbyn targed cronnus o 20% a gostyngiad o 9.5% o 2013/2014 yn erbyn y targed blynyddol sef 5%.
Yn ystod 2014/2015 llwyddodd adeiladau i ostwng allyriadau carbon o 12.67% o waelodlin blwyddyn 2010/11 yn erbyn targed cronnus o 20% a gostyngiad o 3.97% o 2013/14 yn erbyn y targed blynyddol sef 5%.

Yn ystod 2014/2015 llwyddodd fflyd ceir i ostwng allyriadau carbon o 14.65% o waelodlin blwyddyn 2010/2011 a gostyngiad o 12.16% o 2013/2014 yn erbyn y targed blynyddol sef 5%.

Yn ystod 2014/2015 llwyddodd teithio yn sgil busnes i ostwng allyriadau carbon o 37.87% o waelodlin blwyddyn 2010/2011 yn erbyn targed cronnus o 20% a gostyngiad o 10.71% o 2013/2014 yn erbyn y targed blynyddol sef 5%.

Yn ystod 2014/2015 llwyddodd goleuadau stryd i ostwng allyriadau carbon o 28.49% o waelodlin blwyddyn 2010/2011 yn erbyn targed cronnus o 20% a gostyngiad o 24.92% o 2013/2014 yn erbyn y targed blynyddol sef 5%.

Mae mentrau wedi cynnwys uwchraddio goleuadau swyddfa a goleuadau stryd, optimeiddio llwybrau, a gostyngiad mewn teithiau busnes trwy fentrau fel Skype a Hyblyg wrth Weithio.

Bydd Adroddiad Carbon manwl yn cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd.

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 13/14 | Targed 14/15 | Ein canlyniadau yn 14/15 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 15/16 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M6.6 | Nifer yr ysgolion yng Nghonwy sydd wedi cael Gwobr Arian Eco-Ysgolion[7] | 58 | 61 | 58 | Amh. | Amh. | 61 | Oren |
| Nid oes unrhyw adnoddau ychwanegol i gefnogi'r fenter hon. Rydym yn ymchwilio i ffynonellau eraill o gyllid. Bydd y targed ar gyfer 2015/2016 yn dibynnu ar ein llwyddiant yn gwneud cais am gyllid. | | | | | | | | |
| M6.7 | % y gwastraff trefol a ailgylchwyd, a ailddefnyddiwyd neu a gompostiwyd | 56.3% | 60% | 59.06% | 55.4% | 6 o blith 22 | 60% | Oren |
| M6.8 | % y gwastraff trefol a gasglwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a anfonwyd i safle tirlenwi | 43.6% | 40% | 31.63% | 30.5% | 12 o blith 22 | 40% | Gwyrdd |

### 6.3 Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Caiff safon ein mannau gwyrdd ei gydnabod drwy nifer y gwobrau parc, traeth a gwarchodfeydd natur. Mae cynnydd yn ein hymdrech i leihau allyriadau carbon i'w weld drwy nifer y mentrau i wella allyriadau carbon gwres a goleuadau. Cafwyd cynnydd da ar safleoedd 'dolur llygad' ac mae safon y perfformiad mewn rheoli gwastraff yn parhau i fod yn uchel. Mae'r cynlluniau peilot moderneiddio wedi bod yn cyflwyno eu canfyddiadau ac fe ddysgwyd gwersi gwerthfawr wrth ei gyflwyno yn y dyfodol.

[7] Mae'r Rhaglen Eco-ysgolion yn fenter rhyngwladol sy'n annog disgyblion i ymgysylltu â materion amgylcheddol a datblygu cynaliadwy, ee, Sbwriel, Lleihau Gwastraff, Cludiant, Byw'n Iach, Ynni, Dŵr, Tir Ysgol a Dinasyddiaeth Fyd-eang.



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

### 6.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae angen parhau i ganolbwyntio ar dargedau carbon, ond mae'r dystiolaeth uchod yn brawf bod y prosiectau diwygiedig yn cael effaith gadarnhaol. Er gwaethaf diffyg arian, byddwn yn annog ysgolion i barhau i gyflawni statws eco-ysgol. Mae'r Rhaglen Foderneiddio yn faes gwaith sylweddol ac yn amodol ar gymeradwyaeth yr achos busnes, bydd angen i ni barhau i gyfeirio adnoddau at y gwaith o weithredu ffrydiau gwaith yn amserol.

## Canlyniad 7 - Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu

### 7.1 Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

**A7.1 Hyrwyddo manteision siarad Cymraeg a gwneud gwaith i fynd i'r afael â'r canfyddiadau a'r rhwystrau rhag dysgu Cymraeg.**

| | |
|---|---|
| Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2014 - 17[8]. Bydd y Fforwm Cynllun Strategol Cymraeg mewn Blynyddoedd Cynnar a'r Fforwm Cynllun Strategol Cymraeg yn adolygu cynnydd y cynllun bob hanner tymor.<br>Mae'r polisi yn sicrhau y bydd pob ysgol yn y dyfodol yn symud drwy gategorïau ieithyddol ysgolion cynradd sy'n pennu'r lefel o Gymraeg a addysgir. Mae'r polisi yn amlinellu cyfrifoldeb ysgolion i'r Cynllun Strategol Cymraeg. Bydd y Polisi yn ffurfio rhan o'r Llyfryn Ysgolion.<br>Yn fewnol, mae'r tudalennau Cymraeg wedi cael eu diweddaru i gynnwys 'Cymraeg yn y gweithle' sy'n rhoi digonedd o wybodaeth i staff am gymorth i ddysgu Cymraeg. Mae pob aelod staff sydd â mynediad at gyfrifiadur nawr yn derbyn neidlen i ganfod eu gallu yn y Gymraeg. Dylai hyn gynorthwyo gyda chyflwyno ystadegau. Mae cortynnau gwddf Cymraeg ar gael i Siaradwyr Cymraeg ac mae e-byst bellach yn nodi bod yr unigolyn yn siarad Cymraeg. Mae trafodaethau ar y gweill i gael cyllid ar gyfer cortynnau gwddf i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg. Mae gweithgor, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi'r cynllun gweithredu 'Mwy na Geiriau' ar waith i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Gobeithiwn y bydd modd i ni fanteisio ar wefan www.workplacewelsh.org.uk a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth CBAC. | Gwyrdd |

**A7.2 Cefnogi rhagor o ysgolion cynradd i ddysgu o leiaf 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.**

| | |
|---|---|
| Cyrhaeddwyd y targed o 15 ysgol erbyn y Flwyddyn Ariannol 2014/2015 ac mae Ysgol Tudno bellach yn cwrdd â'r meini prawf hwn. Gosodwyd targed o 16 ysgol ar gyfer 2015/2016. Rydym yn gweithio gydag Ysgol Maelgwn ac Ysgol y Plas ar hyn o bryd. | Gwyrdd |

**A7.3 Gweithredu Cynllun Cyrchfan Conwy i gryfhau twristiaeth a gweithredu Strategaeth Twristiaeth Treftadaeth ar y cyd â phartneriaid lleol er mwyn denu ymwelwyr i ardaloedd o ddiddordeb nad ydynt mor adnabyddus.**

| | |
|---|---|
| Daeth y prosiect Tywysogion Gwynedd i ben ar 30 Medi, a chyflawnwyd 20 o fentrau newydd yn erbyn targed o 12. Roedd hyn yn cynnwys: 6 canolfan gymunedol a sgriniau digidol; 2 arddangosfa mewn amgueddfeydd; arwyddion twristiaeth Llandudno; llwybr treftadaeth Y Gogarth; lloches mwyndoddi ym Mwyngloddiau Copr Y Gogarth; 1 canolfan gymunedol yng Nghaerhun. Teithiau sain Tywysogion Gwynedd yn Nheithiau Cerdded Conwy; Abaty Aberconwy; Dolwyddelan; Capel Gwydir, a Llanrwst. Taflen Datblygu Ein Treftadaeth; Llwybr Pererinion Conwy; adluniadau darluniadol ym Mhenmaenmawr a Dolwyddelan. Mae canlyniadau cynnar "Effaith Economaidd Amgylchedd Twristiaeth Treftadaeth ar gyfer y prosiect Twf (E4G)", Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd (detholiadau a gyhoeddwyd) yn cynnwys:<br>• Amcangyfrif Blynyddol o Werth Crynswth Ychwanegol (£) - £4,767,600<br>• Swyddi a Gefnogir yn yr Economi Leol (Cyfwerth ag Amser Llawn) - 187.7<br>• Ymweliadau ychwanegol i safleoedd prosiect yn 2014, gyda thuedd gadarnhaol yn dangos cynnydd posibl yn y dyfodol - 40,000.<br>Mae cais wedi ei wneud i'r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Rhanbarthol i farchnata mentrau deongliadol a ddatblygwyd fel rhan o'r Strategaeth Twristiaeth Treftadaeth.<br>Mae'r gwaith o lunio Cynllun Cyrchfan Conwy 2015-2018[9] bellach wedi cael ei gwblhau, ac mae wedi cael ei gymeradwyo gan y diwydiant a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Rydym wedi bod yn cydweithio â Chymdeithas Lletygarwch Llandudno, gan gynnwys bod yn bresennol yn | Gwyrdd |

---

[8] www.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/602/Conwy_Welsh_in_Education_Strategic_Plan_201417.pdf

[9] http://www.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/643/dc_2015_engr.pdf

Arddangosfa *Best of British & Island*. Rydym wedi cynnal digwyddiad hyrwyddo ar y cyd ag Amgueddfa Llandudno. Cawsom gyllid ar gyfer 'Diwrnodau Ysbrydoli' o amgylch y sir a, thrwy'r Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy, cafwyd cyllid er mwyn comisiynau gwaith ar gyfer Gwarchodfa RSPB yng Nghonwy.

### 7.2 Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 13/14 | Targed 14/15 | Ein canlyniadau yn 14/15 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 15/16 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M7.1a | % y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2 | 70.2% | 78% | 77.70% | Amh. | Amh. | 78% | Oren |
| Er bod y canlyniad ar gyfer 2014 wedi methu'r targed a osodwyd o 78% o drwch blewyn, roedd yna 7.5% o welliant ar 2013 ac roedd 4.6% yn uwch na chanlyniadau Cymru gyfan. Efallai na fydd targedau sydd wedi eu gosod ar gyfer y dyfodol yn cael eu cyrraedd, gan fod ysgolion Categori 4 yn newid i asesu rhai disgyblion (ond nid pob disgybl) drwy gyfrwng Cymraeg iaith gyntaf. | | | | | | | | |
| M7.1b | % y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 | 78.7% | 75% | 81.50% | Amh. | Amh. | 82% | Gwyrdd |
| M7.2 | Nifer y digwyddiadau y mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn eu cynnal sy'n hyrwyddo Diwylliant Cymru | 75 | 47 | 105 | Amh. | Amh. | 50 | Gwyrdd |
| Mae perfformiad yn gysylltiedig â faint o gyllid allanol sydd ar gael. Ar hyn o bryd mae'r cyllid yn awgrymu bod angen gosod y targed ar 50. Mae'r gwasanaeth yn gweithio i weld a oes ffynonellau eraill o incwm. | | | | | | | | |
| M7.3 | Nifer yr ysgolion Cynradd Cymraeg Ail Iaith sy'n addysgu mwy na 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg | 14 | 14 | 15 | Amh. | Amh. | 16 | Gwyrdd |
| M7.4 | Nifer y cynlluniau dehongli newydd a ddatblygwyd drwy'r Strategaeth Twristiaeth Treftadaeth | 13 | 12 | 33 | Amh. | Amh. | 47 | Gwyrdd |
| Bydd y mesur hwn yn newid. Yn y dyfodol, byddwn yn rhoi gwybod am y nifer o fentrau dehongli newydd a ddatblygwyd drwy'r Strategaeth Twristiaeth Treftadaeth a Chynllun Cyrchfan Conwy. | | | | | | | | |
| M7.5 | % yr ymwelwyr a ddaeth yn bennaf i ymweld â henebion/safleoedd archeolegol | 18% | Ni chynhaliwyd arolwg | Ni chynhaliwyd arolwg | Amh. | Amh. | 25.0% | |
| Bydd y mesur hwn yn cael ei adrodd yn y dyfodol fel y % o ymwelwyr a nododd fod hanes a diwylliant lleol yn rhan o'r hyn sy'n eu denu i'r ardal. | | | | | | | | |

### 7.3 Hunanwerthusiad o’n perfformiad

Mae cwblhau prosiectau Tywysogion Gwynedd ac Ein Treftadaeth wedi cynyddu hygyrchedd a dealltwriaeth o safleoedd treftadaeth yn fawr. Mae effaith economaidd y prosiectau yn gyfraniad ardderchog i'r economi. Bydd cynhyrchu'r ail Gynllun Strategaeth Cyrchfan Conwy yn fodd i hyrwyddo'r gwaith hwn ymhellach.
Mae cynnydd da wedi'i wneud i hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion ac yn y gweithle ac mae'n braf gweld y gwelliant yn ffigurau cyrhaeddiad iaith Gymraeg a rhagor o ysgolion yn llwyddo i addysgu 25% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg.

### 7.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Rydym yn aros am lansiad ffurfiol Safonau Cymraeg Newydd Llywodraeth Cymru. Byddwn yn gweithio i gynyddu nifer y staff sy’n mynychu cyrsiau Ymwybyddiaeth Iaith ac yn parhau â’r gwaith o godi ymwybyddiaeth o’r Cynllun Iaith. Byddwn hefyd yn gweithio i gynhyrchu tenynnau gwddf ar gyfer pobl sy'n dysgu Cymraeg er mwyn annog a chefnogi staff i ymarfer eu Cymraeg.



## Canlyniad 8 - Mae pobl yng Nghonwy yn cael eu hysbysu, eu cynnwys ac yn cael llais

### 8.1 Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

**A8.1 Datblygu ein strategaeth ymgysylltu yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru[10] a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella ein dull gweithredu a sicrhau safon dda wrth ymgysylltu â chymunedau. Nod yr Egwyddorion yw ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau amserol, di-jargon er mwyn dylanwadu ar ddatblygiadau'r Cyngor ac i sicrhau fod pobl yn clywed beth yw effaith eu cyfraniad.**

Cafodd y strategaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ei chymeradwyo ym mis Rhagfyr 2013. Mae'r Strategaeth yn nodi:

- **Beth** yw ymgysylltu cymunedol
- **Pam** bod angen i ni ymgysylltu
- **Gyda phwy** y dylen ni fod yn ymgysylltu
- **Sut** y byddwn yn ymgysylltu
- **Cynlluniau** ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol (cynllun gweithredu)

Mae cronfa ddata ymgynghori wedi ei sefydlu i goladu adborth cryno o'r gwaith ymgysylltu, ac mae gwaith pellach yn cael ei ddatblygu i godi ymwybyddiaeth o'r gronfa ddata.

Yn dilyn adolygiad o'r Drefn Gwyno, rydym yn awr yn llawer gwell am gofnodi cwyn, ac mae gennym ddiffiniad clir o beth yw cwyn. Rydym hefyd wedi gwella ein dadansoddiad o'r cwynion a chanmoliaeth er mwyn i ni allu dysgu o adborth y cwsmeriaid i ganfod pa feysydd sydd angen gwelliant ac i rannu arfer da.

Gwyrdd

**A8.2 Sicrhau bod Aelodau Etholedig a Chynghorau Tref a Chymuned yn hwyluso rhannu gwybodaeth ac yn helpu cymunedau lleol i leisio eu barn.**

Mae'r system gwe-ddarlledu yn awr yn fusnes 'arferol' drwy gydol y contract 2 flynedd o hyd. Mae cyfrif Twitter newydd wedi cael ei sefydlu @DemConwyCBC. Rydym wedi cefnogi Cynghorau Tref a Chymuned a dderbyniodd grant i greu gwefannau cyngor eu hunain. Bydd y bwletin yn cael ei dosbarthu i bob cartref yng Nghonwy ac yn ogystal â gwybodaeth ddefnyddiol, mae hefyd yn gwahodd trigolion i rannu eu barn am brif ddatblygiadau o fewn y Cyngor. Mae nifer o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi cael eu creu yn y gwasanaethau i gynyddu cyfathrebu â'r cyhoedd ac mae gan 12 o Gynghorwyr gyfrifon Twitter. Er nad yw'n orfodol, cyhoeddodd 25 o'r 59 Aelod adroddiad blynyddol yn 2014/2015, a chawsant eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Aelodau yn gweithio â'r Aelodau i gynyddu'r nifer sy'n cael eu cyhoeddi.

Gwyrdd

**A8.3 Datblygu rhaglen Cwsmeriaid i gydlynu'r amrywiol brosiectau sydd gennym yn ymwneud â chwsmeriaid er mwyn gwella ein dull gweithredu wrth gynnig gwasanaethau i gwsmeriaid.**

Mae gan ffrwd gwaith Gwasanaethau Cwsmeriaid / Swyddfa Flaen Raglen Foderneiddio gynllun ar waith a fydd yn sicrhau canlyniadau amrywiol sydd yn gwella dull Conwy tuag at wasanaeth cwsmeriaid. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu'r Siarter Cwsmeriaid ar draws y Gwasanaethau, adolygu prosesau blaen swyddfa, adolygu a chreu strategaeth cwsmeriaid, datblygu model ar gyfer siop un stop ar gyfer y gofod swyddfa newydd, adolygu ymarferoldeb system rheoli cyswllt, a symud tuag at y ddarpariaeth ddigidol o wasanaethau lle bo angen.

Oren

[10] I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.participationcymru.org.uk/principles

**A8.4 Gweithredu'r 5 cynllun ardal er mwyn gwella gwasanaethau cymunedol lleol. Mae cynlluniau ardal wedi cael eu datblygu gyda chymunedau ledled y fwrdeistref sirol ac maent yn blaenoriaethu'r gwaith y dywedodd y cymunedau lleol eu bod eisiau ei weld yn gwella yn eu hardal.**

| | |
|---|---|
| Mae'r 5 Cynllun Ardal wedi cael eu diwygio ac wedi cael eu cyfuno fel 1 Cynllun Ardal. Gellir rhoi thema, ward neu ffocws swyddog arweiniol ar gyfer y blaenoriaethau yma. Yn dilyn cyflwyniadau i Uwch Dîm Rheoli, y fforwm Aelodau a'r fforwm Cyngor Tref a Chymuned, rydym wedi trafod syniadau ar gyfer y dyfodol a sut i sicrhau bod prosiectau lleol yn aros yn berthnasol ac yn gyfoes. Un syniad yw gofyn am restr o'r '10 Uchaf' o brosiectau gan y Cynghorau Tref a Chymuned yn flynyddol a allai eistedd ochr yn ochr â phrosiectau a ddaw o Archwiliadau Ward, Gwerthusiadau Cymunedol ac unrhyw Gynlluniau Strategol megis Bywyd y Bae, Gweledigaeth Llanrwst, Prif Gynllun Cyffordd Llandudno a Chynllun Lleoedd Abergele. Mae cyfnod o ymgysylltu i fod i ddigwydd i adolygu'r cynllun diwygiedig gyda chymunedau lleol. Bydd cydlynu cynlluniau'n well yn digwydd drwy system perfformiad corfforaethol rheoli prosiect y Cyngor i sicrhau bod cynlluniau'n barod i'w cychwyn pan fo cyfleoedd cyllid ar gael. Rydym hefyd yn llunio canllawiau ar sut i wneud y gorau o fanteision cymunedol. | Oren |

**A8.5 Gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn unol â'u hanghenion.**

| | |
|---|---|
| Mae adroddiad blynyddol blwyddyn 2 wrthi'n cael ei lunio er mwyn mynd trwy'r broses ddemocrataidd erbyn diwedd Mawrth 2016. Bu oedi gyda chynnydd oherwydd yr angen i benodi i swydd wag y Swyddog Cydraddoldeb. Mae unigolyn wedi cael ei benodi ac mae'r unigolyn yn gweithio gyda grwpiau sy'n cael eu hamddiffyn i adolygu'r cynllun strategol i sicrhau ei fod yn aros yn berthnasol ac i lunio'r adroddiad blynyddol. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hefyd yn cael ei gyflwyno i gael cymeradwyaeth ddemocrataidd erbyn 31 Mawrth 2016. | Oren |

### 8.2 Sut fyddwn ni’n gwybod ein bod ni’n gwneud gwahaniaeth?

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 13/14 | Targed 14/15 | Ein canlyniadau yn 14/15 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 15/16 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M8.1 | % y gwasanaethau rheng flaen sy’n cyrraedd Safon Rhagoriaeth Cwsmeriaid | | I'w gadarnhau | 27.10% | Amh. | Amh. | | ⇔ |
| Ar ôl cwblhau adolygiad mewnol, bydd y mesur hwn nawr yn cael ei ddileu. Nid yw’r achrediad hwn yn berthnasol i bob maes gwasanaeth ac mewn rhai ardaloedd mae yna safonau mwy priodol y dylid anelu amdanynt. Bydd y safon hon yn cael ei dilyn lle bo'n briodol drwy'r Rhaglen Foderneiddio. | | | | | | | | |
| M8.2 | Nifer y trafodion ar-lein bob blwyddyn | 24,614 | I'w gadarnhau | 23,499 | Amh. | Amh. | I'w gadarnhau | ⇩ |
| Mae'r ffigur hwn yn ymwneud â thrafodion 'craidd' a gaiff eu monitro'n ganolog ac mae’n eithrio trafodion seiliedig ar wasanaethau. Yn y dyfodol byddwn yn adrodd ar nifer y trafodion digidol. Bydd y mesur hwn yn cael ei adolygu fel rhan o'r Rhaglen Foderneiddio. Bydd y ffocws ar osod targedau penodol ar gyfer gwasanaethau i gynyddu trafodion digidol lle mae rhesymau gwasanaethau ariannol a chwsmeriaid clir dros wneud hynny. | | | | | | | | |
| M8.3 a. | % y cwynion y llwyddwyd i’w datrys ar gam 1 | 85.5% | 92% | 87.9% | Amh. | | 92% | Oren |
| Er bod y canlyniad yn welliant ar y flwyddyn flaenorol, ni chyrhaeddwyd y targed o ganlyniad i rai ymatebion araf yng ngham 1. Bu gostyngiad o 22% yn nifer y cwynion a dderbyniwyd. | | | | | | | | |
| M8.3 b | Nifer y cwynion a dderbyniwyd | 653 | Ni osodwyd targed | 644 | Amh. | | Ni osodwyd targed | ⇩ |
| M8.3c | Nifer y cwynion a dderbyniwyd | 285 | Ni osodwyd targed | 224 | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | ⇩ |
| Rydym bellach yn defnyddio'r Model Cymru Gyfan sydd wedi lleihau nifer y dyddiau sydd ar gael i ddatrys cwyn yng ngham 1. Cyhoeddwyd cyfarwyddeb newydd a chaiff ei weithredu yn unig i gofnodi cwynion sydd yn erbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. | | | | | | | | |
| M8.4 | Nifer yr achosion o gamweinyddu a gadarnhawyd gan yr Ombwdsmon | 0 | 0 | 0 | Amh. | 1/3 | 0 | Gwyrdd |
| M8.5 | % defnyddwyr ein gwefan sy’n fodlon â’r wefan | 67% | 75% | 68.00% | Amh. | | 70% | Coch |
| Nid yw’r wefan gyfredol wedi cael ei gwella'n sylweddol o ganlyniad i ddatblygiad y wefan newydd | | | | | | | | |
| M8.6 | Nifer yr eitemau y gofynnwyd i’r Cyngor graffu arnynt a gyflwynwyd gan Gynghorydd ar ran y cyhoedd | 7 | Ni osodwyd targed | 5 | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed | ⇩ |
| Mae aelodau wedi trafod pynciau’n uniongyrchol gyda swyddogion, sydd wedi eu cynnwys yn y Rhaglen Waith i'r Dyfodol. Mae'r Swyddog Cefnogi Craffu yn parhau i atgoffa Aelodau eu bod yn gallu cyflwyno pynciau ar ran y cyhoedd. | | | | | | | | |
| M8.7 | % y camau gweithredu’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gwblhawyd a ddylai fod wedi’u cwblhau yn y flwyddyn ariannol flaenorol | 63% | 100% | Gweler sylwebaeth | Amh. | Amh. | 100% | |
| Gadawodd y swyddog Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol am y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr awdurdod tuag at ddiwedd 2014/2015. Nid oedd gallu o fewn y tîm Adnoddau Dynol i lenwi’r swydd hon ac adrodd ar gynnydd. Fe benodwyd rhywun i’r swydd ac mae gwaith wedi cychwyn i gwblhau adolygiad o berfformiad. | | | | | | | | |

### 8.3 Hunanwerthusiad o’n perfformiad

Mae gan y Cyngor nifer o fecanweithiau i alluogi’r cyhoedd i gael gafael ar wybodaeth, i gymryd rhan ac i fynegi barn. Mae’r rhain yn amrywio o gynlluniau gofal unigol, i ymgynghoriadau cyhoeddus, y cyfryngau cymdeithasol, y wefan, mynychu cyfarfodydd cyhoeddus, y Bwletin, arolygon o fodlondeb cwsmeriaid, trwy gyfrwng eu Cynghorydd Sir. Mae yna hefyd nifer o fforymau gyda phobl ifanc, cynghorau tref a'r sector gwirfoddol. Rydym yn gweithio ar wella’r prosesau hyn er mwyn cynnal tryloywder a chynyddu hygyrchedd, ac mae gweddarlledu rhai o gyfarfodydd cyhoeddus a chynyddu nifer y cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig yn enghreifftiau da o hynny.

### 8.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Rydym yn y broses o osod system newydd i reoli cysylltiadau ar gyfer ein gwefan a ddylai wella’r dull i gwsmeriaid ddefnyddio’r wefan a dylai wella ein gallu i reoli'r wefan a rhyngwynebu gyda rhaglenni eraill e.e. ffonau clyfar. Bydd yr adolygiad o'r cynlluniau ardal leol a thrafodaethau parhaus gyda Chynghorau Tref a Chymuned yn ein galluogi i flaenoriaethu prosiectau cymunedol a sicrhau bod cymunedau yn cael eu cefnogi i ymchwilio i gyllid eu hunain. Dylai'r adolygiad o brosesau cwsmeriaid rheng flaen wneud profiad y cwsmer yn fwy syml a dylai greu arbedion effeithlonrwydd ar yr un pryd. Bydd penodi Swyddog Cydraddoldeb yn ein galluogi i gynhyrchu adroddiad blynyddol a chwblhau'r adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.



## 9 Camau Blaenoriaeth Cyffredinol (Effeithlon ac wedi’u Rheoli’n Dda)

### 9.1 Ein Camau Gweithredu Blaenoriaeth

**GA1 Byddwn yn ceisio gwella ein gwasanaethau a chyrraedd ein targedau arbedion trwy foderneiddio’r ffordd yr ydym yn gweithio**

| | |
|---|---|
| Cyflawnwyd y targed arbedion o £8.453 miliwn ar gyfer 2014/2015. Cynhelir cyfarfodydd cyllideb ac effeithlonrwydd yn rheolaidd gyda phob maes gwasanaeth er mwyn monitro cynnydd i gyflawni'r targedau arbedion. Rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Uwch Dîm Rheoli, y Fforwm Rheolwyr ac Aelodau Etholedig.<br>Mae gan y cyngor nifer o raglenni moderneiddio strategol ar waith, sef y rhaglen foderneiddio, Rhaglen Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol ac ailstrwythuro yn y Gwasanaethau Rheoleiddio a Gwasanaethau yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau.Rydym hefyd wedi adolygu a moderneiddio darpariaeth llyfrgell - rhoddwyd cymeradwyaeth i gau Llyfrgelloedd Cyffordd Llandudno a Deganwy ac rydym wedi creu'r Llyfrgell Cymunedol cyntaf ym Mhenmaenmawr. Rydym yn parhau i weithredu'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Yn ogystal, mae arbedion yn cael eu gwneud ar lefel gwasanaeth drwy beidio llenwi swyddi staff sy’n gadael, diswyddo gwirfoddol, ymddeoliad cynnar, a thrwy adolygiad o brosesau er mwyn cyflawni arbedion. Mae mentrau corfforaethol yn cynnwys cyflwyno dod â’ch dyfais eich hun, Skype ar gyfer Busnes, cynlluniau peilot gweithio ystwyth, swyddfeydd di-bapur trwy roi Rheoli Dogfennau Electronig ar waith, a gostyngiad mewn peiriannau argraffu. Mae system Rheoli Achosion ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol wedi cael ei ohirio, a bydd ar waith erbyn mis Awst 2015. Sir Conwy oedd â’r perfformiad gorau o ran cyflwyno ceisiadau cynllunio ar-lein a chyflwyno system archebu ar-lein ar gyfer gwasanaethau hamdden. Rydym hefyd yn defnyddio mwyfwy ar dendro electronig. O ganlyniad, rydym yn dechrau gweld cynnydd mewn trafodion ar-lein. Mae Gwasanaethau hefyd yn edrych ar gyfleoedd i greu incwm megis Cytundebau Lefel Gwasanaeth i gyflwyno gwasanaethau ar ran awdurdodau eraill. Mae Gwasanaethau hefyd yn adolygu eu prosesau a dulliau o ddarparu gwasanaethau megis dod ag addysg gwasanaethau cymdeithasol ynghyd a strwythuro gwasanaethau o amgylch cyfnodau bywyd. Rydym yn parhau i adolygu ein hasedau sydd wedi arwain at gael gwared ar brydles a rhydd-ddaliad. | Gwyrdd |

**GA2 Byddwn yn adolygu o ble rydym yn gweithio - (Gofod Swyddfa)**

Gwyrdd

Ym Mai 2014 cymeradwyodd y Cabinet y weithdrefn gaffael ffurfiol i ddewis partner datblygu. Cynhaliwyd Diwrnod Datblygwyr ym mis Gorffennaf 2014 i gynnal prawf marchnad am archwaeth datblygu. Roedd 46 datblygwr / buddsoddwr yn bresennol. Dechreuodd y broses gaffael ym mis Awst 2014. Mae cyfarfodydd gyda Phenaethiaid Gwasanaeth wedi cael eu cynnal i gadarnhau opsiynau dewisol a ffefrir o ofynion galwedigaeth gwasanaeth. Mae gwaith costau a chyllido wedi parhau ac roedd bid Buddsoddi i Arbed a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn llwyddiannus. Cwblhawyd arolwg meysydd parcio ac mae astudiaeth manteision adfywio yn parhau. Mae trafodaethau gyda phartneriaid ar y safle yn parhau. Ar hyn o bryd rydym yng ngham Dialog Gystadleuol o'r broses gaffael, a bydd datblygwr a ffafrir yn cael ei ddewis erbyn mis Medi 2015. Er bod yr amserlen wedi llithro ychydig mae hyn wedi galluogi i'r Awdurdod gadarnhau yn union beth yw ei ofynion ac ymgymryd â gwiriadau diwydrwydd dyladwy ymhellach.

**GA3 Byddwn yn uchafu cyfleoedd ariannu Ewropeaidd a chyfleoedd ariannu allanol eraill**

Gwyrdd

Yn 2014/2015, fe ddyrannwyd £1,767,063 o Arian Cyfatebol Prosiect a llwyddwyd i ddenu £10,121,077 o arian cyfatebol.
Rydym wedi llwyddo i ddod â Rhaglen Cronfeydd Strwythurol Cydgyfeirio 2007-2013 i ben:
Conwy oedd ffrwd waith arweiniol yr UE ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gyda'r nod o wneud y mwyaf o'r manteision i'r rhanbarth. Bydd Conwy yn cynnal y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol newydd a fydd yn cael ei sefydlu i gydlynu'r holl brosiectau ar draws y Rhanbarth.
Rydym yn datblygu nifer o brosiectau Ewropeaidd newydd gan gynnwys OPUS, TRAC, Venue Cymru, Glan y Môr, Twristiaeth Awyr Agored, Cefnogi Busnes, Ynni Cymunedol, a phrosiectau Twristiaeth Treftadaeth ar gyfer y rhaglen ariannu Ewropeaidd 2014-2020 newydd.
Mae'r Dirprwy Arweinydd yn cynrychioli'r CLlLC ar Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan (PMC) ar gyfer Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Mae'r Dirprwy Arweinydd hefyd yn cynrychioli Cynghorau Gogledd Orllewin Cymru ar Bwyllgor Monitro Rhaglen Trawswladol Cymru Iwerddon, ac mae ein Prif Swyddog Ewropeaidd yn rhan o Grŵp Llywio'r Rhaglen.
Mae pecyn meddalwedd i ddod o hyd i grantiau ar waith er mwyn nodi opsiynau ariannu.
Mae rhaglen Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid bellach wedi cael ei sefydlu ar gyfer Bae Colwyn ac mae wedi llwyddo i gyflwyno amcanion y flwyddyn gyntaf.

**GA4 Rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r Compact Cymru Gyfan ar Gydweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol eraill**

Oren

Mae'r 10 cyfle i gydweithio sydd wedi'u nodi gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaeth wedi cael eu rhaglennu mewn i adroddiad i'r rhaglen Pwyllgor. Dechreuodd hyn ym mis Rhagfyr 2014. Mae rhoi Partneriaeth Datrysiadau Tai Conwy a ULlMaD (Un Llwybr Mynediad at Dai) ar waith wedi galluogi gwelliannau cydweithredol cadarnhaol er mwyn atal digartrefedd ac ailsefydlu teuluoedd sydd yn canfod eu hunain yn ddigartref. Cafodd y Gronfa Ddata Cydweithio ei adolygu ym mis Ionawr 2015 i sicrhau ei fod yn gyfoes. Rydym hefyd wedi adolygu ein partneriaethau strategol. Mae'r Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Bwrdd Lleol ar y Cyd Conwy bellach wedi adlinio i fod yn Bartneriaeth Pobl Conwy. Bydd y Bartneriaeth Wledig yn cael ei ddiddymu a bydd gwaith yn parhau gan Bartneriaeth Economaidd Conwy, a fydd yn cysylltu i'r Bartneriaeth Economaidd Rhanbarthol. Ym mis Medi 2014, cymeradwyodd y Cyngor y gwaith o ddatblygu Datganiad o Ddiddordeb i Uno yn Wirfoddol ar y Cyd a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2014, yn dilyn cymeradwyaeth gan Gynghorau Conwy a Sir Ddinbych. Ym mis Ionawr 2015 cafodd y Datganiad o Ddiddordeb ei wrthod gan y Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus. Ym mis Chwefror 2015, ymatebodd y Cyngor i Bapur Gwyn 2015 'Grym i Bobl Leol' ac i gyhoeddiad diweddar (Mehefin 2015) y Map uno diwygiedig sy'n gofyn am ymgynghori ynghylch a ddylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy uno gyda Chynghorau Gwynedd ac Ynys Môn neu Gyngor Sir Ddinbych.

### 9.2 Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

| Cyf | Teitl | Ein canlyniadau yn 13/14 | Targed 14/15 | Ein canlyniadau yn 14/15 | Cyfartaledd Cymru | Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru | Targed 15/16 | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **GM 1** | Cyfradd cwblhau Adolygiadau Datblygu Perfformiad Blynyddol | 62.7% | 80% | 75.2% | Amh. | Amh. | 80% | Oren |
| Er bod y statws COG yn oren, bu gwelliant sylweddol yng nghyfradd cwblhau adolygiadau datblygu perfformiad blynyddol y Cyngor. Mae hwn yn gyflawniad sylweddol yn erbyn cefndir o ailstrwythuro rheolaeth a gwasanaeth mawr yn nifer o wasanaethau'r Cyngor yn ystod 2014/2015. | | | | | | | | |

### 9.3 Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Fel pob cyngor arall, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wynebu heriau ariannol anodd dros ben. Mae'r awdurdod yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaethau da tra'n cyrraedd targedau effeithlonrwydd ar yr un pryd. Mae adolygiad rheolaidd o gyllidebau a'r cymorth a her i helpu gwasanaethau wneud arbedion effeithlonrwydd yn digwydd yn rheolaidd. Cafwyd adolygiad a thrawsnewid sylweddol o'n gwasanaethau rheng flaen i fodloni gofynion deddfwriaethol a thargedau effeithlonrwydd. Mae'r cyllid a godwyd trwy arian Ewropeaidd wedi cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol, ac mae enghreifftiau da lle mae gwasanaethau wedi creu incwm drwy ymgymryd â gwaith ar ran cynghorau eraill. Gwnaed cynnydd da gyda Phrosiect Gofod Swyddfa ac unwaith eto bydd yn arwain at effaith gadarnhaol ar yr ardal Adfywio Bae Colwyn. Er iddo gael ei wrthod, mae penderfyniad y Cyngor i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb uno yn wirfoddol yn cadarnhau ymrwymiad y Cyngor i gydweithio ac ymchwilio i ddulliau mwy effeithlon a chynaliadwy o weithio. Mae'r adolygiad o Bartneriaethau Strategol yn enghraifft gadarnhaol arall o wella cydweithredu wrth leihau costau.

### 9.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Bydd y sefyllfa ariannol yn cael ei adolygu a'i gyfathrebu'n barhaus er mwyn cadw'r ffocws ar yr arbedion effeithlonrwydd sydd eu hangen. Mae hyn yn golygu y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd er mwyn cyrraedd targedau arbed. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y Rhaglen Foderneiddio a datblygiad yr achos busnes i fynd i'r afael ag anghenion gofod yn y dyfodol. Bydd y Bartneriaeth Economaidd Conwy yn canolbwyntio ar gefnogi economi leol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu Ewropeaidd. Bydd angen gwerthuso cyfnodau peilot Hyblyg wrth Weithio cyn ei gyflwyno ymhellach i bob gwasanaeth. Byddwn yn parhau i gyfrannu at yr ymgynghoriad a thrafodaeth am uno awdurdodau lleol yn y dyfodol, a gweithredu ar unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r Papur Gwyn, 'Grym i Bobl Leol'.

## 5 Gweithio ar y Cyd

Dim ond un dull o blith nifer o ddulliau eraill o wella effeithlonrwydd gwasanaethau yw cyflawni gwaith ar y cyd. Cymeradwywyd **Datganiad Cydweithio** gan Gyngor Conwy ym mis Tachwedd 2010 er mwyn sicrhau trefn lywodraethol dda a gwerth am arian, a sicrhau bod blaenoriaethau a gwerthoedd yr awdurdod yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu, wrth weithio mewn partneriaeth.

Mae Conwy'n hen gyfarwydd â gweithio mewn partneriaeth ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i weithio ledled y rhanbarth a ledled Cymru er mwyn sicrhau gwelliannau i ansawdd gwasanaethau a gwerth am arian i drigolion Conwy. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn aelod o **Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru** a **Fforwm Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru**.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu nifer o fentrau. Mae'r buddion a ragwelir yn amrywio - pwrpas rhai ohonynt yw gwella effeithlondeb gwasanaethau a chreu arbedion, pwrpas eraill yw gwella safonau neu wytnwch gwasanaethau.

Rydym wedi llunio canllawiau ynglŷn â gweithio ar y cyd sy'n amlinellu'r camau y dylai Swyddogion yng Nghonwy eu dilyn wrth arwain ar sefydlu gwaith ar y cyd gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Rydym hefyd wedi datblygu asesiad buddion gweithio ar y cyd a ddefnyddiwyd ar gyfer mentrau y mae Conwy wedi bod yn arwain arnynt. Bwriad yr asesiad yw sicrhau ein bod yn gwybod a wnaethom wireddu'r canlyniadau a ragwelwyd. Caiff pob menter y gweithir arni ar y cyd ei chofnodi ar daenlen gweithio ar y cyd a'u monitro trwy'r Byrddau Gwella ac / neu trwy Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth.

Nid yw'r rhestr isod yn adlewyrchu pob maes gwaith, ond yn hytrach yn amlygu'r prosiectau sydd wedi eu sefydlu y mae Conwy yn arwain arnynt ac/neu sy'n cefnogi gwireddu blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (amcanion gwella).

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Rhaglen Gwaith Amdani gan gynnwys Genesis 2 a Taith i Waith** | Prosiect Cydweithio a ariannwyd â Grant | Canlyniad 1 – Mae Pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau | A1.2 |

**Disgrifiad**

Roedd hwn yn brosiect i ddarparu cymorth 1-1 a chymorth grŵp i unigolion gynyddu eu sgiliau a symud ymlaen at gyflogaeth.

**Mae elfen cyllid Ewropeaidd y prosiect bellach wedi dod i ben.** Fodd bynnag, mae tîm bychan wedi cael ei ariannu drwy gyllidebau mewnol ac yn parhau i gefnogi pobl ddiamddiffyn a difreintiedig. Mae canlyniadau'r gwaith hwn yn cael eu hadrodd o dan canlyniad 1.

Mae Conwy yn arwain prosiect datblygu OPUS, bid newydd Cronfa Strwythurol Ewropeaidd er mwyn symud pobl tuag at ac i mewn i waith gyda'r Awdurdodau Lleol eraill, Cynghorau Gwirfoddol Sirol lleol (ar ran y trydydd sector), yr Adran Gwaith a Phensiynau, Grŵp Llandrillo Menai a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Rydym yn ceisio cymeradwyaeth WEFO (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru).

**Y buddion o weithio ar y cyd**

Y buddion a wireddwyd o elfennau'r rhaglen a gyllidwyd gan yr Undeb Ewropeaidd oedd:

Cafodd 1,447 o unigolion eu cefnogi a chafodd 816 ganlyniad cadarnhaol o ganlyniad i'r gefnogaeth a gafwyd.
Aeth 294 yn eu blaenau at gyfleoedd dysgu pellach
Enillodd 422 gymhwyster
Cafodd 157 waith am dros 16 awr yr wythnos
Cafodd 42 waith rhan amser am lai nag 16 awr yr wythnos
Cafodd 97 gymorth gofal plant i fynychu hyfforddiant, gwaith gwirfoddol neu leoliad gwaith
Cofrestrodd 34 busnes gyda'r rhaglen mewn 11 mis
Cafodd 21 busnes gymorth i dderbyn gwybodaeth am arian i gyflogi staff
Cafodd 14 o fusnesau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i weithredu neu wella eu polisïau a'u gweithdrefnau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| 2 | **Prosiect Datblygu'r Gweithlu** | Prosiect Cydweithio a ariannwyd â Grant | Canlyniad 1 – Mae Pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau | A1.3 |

**Disgrifiad**

Mae'r prosiect cydweithredol wedi dod i ben. Y nod oedd:

- Cydlynu'r wybodaeth bresennol oedd ar gael yn strategaeth sgiliau a hyfforddiant ar draws pob partner.
- Gweithio ar y cyd i gynyddu nifer y prentisiaethau a'r prentisiaid a gyflogir yn dilyn prentisiaethau.
- Datblygu fframwaith cyfnewid staff a fframwaith hyfforddi ar draws y sector cyhoeddus.
- Gwella rhaglenni profiad gwaith ar gyfer pobl ifanc, oedolion sy'n dychwelyd i'r gwaith a phobl gydag anableddau.
- Gweithio ar y cyd i feithrin ymrwymiad gweithwyr ac i symleiddio datblygiad y gweithlu a'i wneud yn fwy effeithlon.

| Y buddion o weithio ar y cyd |
|---|
| Buddion y prosiect hwn oedd:<br>• Eglurder gweledigaeth ar draws Partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych.<br>• Integreiddio polisïau lleol yn well.<br>• Gwella gweithio cydlynol er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion.<br>• Gwella prosesau cyffredin ar gyfer rheoli lleoliadau gwaith a phrentisiaethau<br>• Gwella'r gefnogaeth a'r strwythur gogyfer â'r sawl sy'n ymgeisio am leoliadau gwaith a phrentisiaethau gan ddarparu<br>• Profiad ystyrlon o safon iddynt.<br>• Gwella cefnogaeth i aelodau staff.<br>Ceir diweddariad o'r buddion a wireddwyd yn A1.3. |

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| 3 | **GwE - Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion ac Effeithlonrwydd** | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol (GwE) | Canlyniad 1 – Mae Pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau | A1.6 |

| Disgrifiad |
|---|
| Dull gweithredu rhanbarthol er mwyn darparu gwasanaeth gwella ysgolion yw hwn a lansiwyd yn weithredol ar 1 Ebrill 2013. Mae'n cefnogi blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i wella cyrhaeddiad addysgol. Mae GwE yn gweithio gydag ysgolion sy'n tanberfformio i fonitro, cynnig cefnogaeth, herio a gosod targedau er mwyn codi safonau disgyblion. Cafodd adroddiad archwilio Swyddfa Archwilio Cymru ei gyhoeddi yn ddiweddar mewn perthynas â rheolaeth GwE, ac mae cynllun gweithredu yn cael ei lunio i fynd i'r afael â'r argymhellion. |

| Y buddion o weithio ar y cyd |
|---|
| Y prif fudd a ragwelir yw gwelliant yng nghyrhaeddiad addysgol disgyblion. h.y.:<br>1. Gwell safonau mewn llythrennedd a rhifedd sy'n cymharu'n dda â'r safonau gorau mewn Siroedd eraill;<br>2. Rhagor o sgiliau i staff wrth recriwtio arweinyddion system sydd â dull gweithredu cyson a phrofiad o wella ysgolion;<br>3. Rhagor o gynhwysedd gwasanaeth<br>Mae diweddariad am y manteision i'w gweld yn A1.6, sy'n darparu tystiolaeth dda bod cyrhaeddiad yn gwella. |

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| 4 | **Grŵp / Rhaglen Rhanbarthol Cefnogi Teuluoedd Gogledd Cymru** | Rhaglen Cydweithio Rhanbarthol | Canlyniad 2 - Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel | A2.3 ac A2.4 |

| Disgrifiad |
|---|
| Dull gweithredu rhanbarthol i gydlynu ymatebion yw hwn i gefnogi teuluoedd diamddiffyn trwy ddatblygu gweledigaeth, gwerthoedd a chyfrifoldeb cyffredin o ran cefnogi teuluoedd. |

**Y buddion o weithio ar y cyd**

Buddion y cydweithio hwn yw lleihau dyblygu, datblygu cymunedau dysgu, rheoli comisiynu rhanbarthol, a rheoli perfformiad canlyniadau ar y cyd gogyfer â theuluoedd diamddiffyn. Mae'r grŵp rhanbarthol wedi comisiynu Gofalwyr Ifanc a darpariaeth Eiriolaeth ar gyfer y rhanbarth. Mae Dadansoddiad o Anghenion Teuluoedd Diamddiffyn Gogledd Cymru a'r pecyn gwaith Comisiynu ar y Cyd wedi cael eu datblygu.
Caiff y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICID) ei oruchwylio ar sail ranbarthol i sicrhau bod y teuluoedd mwyaf diamddiffyn ar draws Gogledd Cymru yn gallu cael cymorth i'w galluogi i newid eu bywydau mewn modd cadarnhaol.
Mae'r bwrdd hefyd yn goruchwylio cyllid Teuluoedd yn Gyntaf a ddyrannwyd i bob awdurdod, gan gynnwys craffu sylweddol ar ddarpariaeth Tîm o Amgylch y Teulu ym mhob sir, ac mae'n ymwybodol o weithgaredd Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf ym mhob sir.

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| 5 | **Cynllunio Rhag Argyfwng** | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol | Effeithlon ac wedi'u rheoli'n dda | A2 |

**Disgrifiad**

Nod y prosiect hwn yw darparu dull gweithredu rhanbarthol tuag at gynllunio rhag argyfwng. Mae Gwasanaeth Rhanbarthol i Gynllunio Rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru (NWCREPS) yn adrodd i Fwrdd rhanbarthol ac yn darparu diweddariadau i bob Awdurdod Lleol bob 6 mis.

**Y buddion o weithio ar y cyd**

Aeth y gwasanaeth rhanbarthol yn fyw ym mis Gorffennaf 2014. Mae manteision a ragwelir yn cynnwys:

- Lleihad o ran dyblygu ac ailadrodd tasgau
- Cysoni gwaith yn well a chael timau mwy gwydn
- Gwella sut y caiff adnoddau eu targedu trwy rannu cefnogaeth arbenigol a thasgau cyffredin
- Gwella cysondeb yn y ffordd mae awdurdodau'n ymateb
- Gwell sianelau cyfathrebu rhwng Fforwm Gogledd Cymru Gydnerth ac Awdurdodau Lleol

Rhagweld arbedion effeithlonrwydd o flwyddyn 3 ymlaen.

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| 6 | **Un Llwybr Mynediad at Dai, Gogledd Ddwyrain Cymru** | Prosiect Cydweithio | Canlyniad 3 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas | A3.1 |

**Disgrifiad**

Gwaith yw hwn a wneir ar y cyd rhwng 4 awdurdod lleol, 5 landlord cymdeithasol a Phrifysgol Glyndŵr. Nod y prosiect yw ad-drefnu sut y dyrennir tai cymdeithasol o fewn ardal yr awdurdodau. I ddarparu llwybr mynediad cyffredin at dai fforddiadwy sy'n dryloyw, yn gyfreithiol, yn effeithlon a hygyrch i bob rhan o'r gymuned. Mae'r prosiect bellach yn fyw.

**Y buddion o weithio ar y cyd**

Y buddiannau a ragwelir ar gyfer y prosiect yw:

- Arbedion y gellir eu troi'n arian parod a gwell mynediad i grantiau.
- Osgoi costau a lleihau dyblygu.
- Dull gweithredu cyffredin wrth ddarparu cyngor a dewisiadau ynglŷn â thai
- Proses ymgeisio gyffredin a chofrestr tai cyffredin ar gyfer tai cymdeithasol

Fframwaith dyrannu cyffredin sy'n cynnig asesiad cyson o anghenion tai sy'n rhoi blaenoriaeth i'r rheini ag angen brys

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| 7 | **Gwasanaeth Digartrefedd wedi'i Gydleoli** | Prosiect Cydweithio | Canlyniad 3 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas | A3.1 |

**Disgrifiad**

Gwaith yw hwn a wneir ar y cyd er mwyn sefydlu asiantaeth gosod tai cymdeithasol mewn partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Daeth Partneriaeth Datrysiadau Tai Conwy'n weithredol ar 30 Mehefin 2014 ac mae ganddynt ofod swyddfa newydd gwell y maent yn ei rannu gyda Chartrefi Conwy.

**Y buddion o weithio ar y cyd**

Buddiannau a ragwelir ar gyfer y prosiect yw:

- Atal digartrefedd rhag digwydd
- Gwell mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth ynglŷn â dewisiadau tai cynhwysfawr ar gyfer trigolion Conwy
- Bod y sector rhentu preifat yn fwy hygyrch i drigolion Conwy
- Rhagor o werth am arian wrth gaffael llety dros dro sydd ar gael pan fo angen
- Rhagor o gydlynu a gwell defnydd o adnoddau ar draws y ddau sefydliad
- Cyfleoedd hyfforddiant a datblygu i staff y ddau sefydliad
- Lleihad o ran risg i'r Cyngor o ganlyniad i gynnydd posibl mewn digartrefedd yn sgil diwygio'r gyfundrefn les a'r dirwasgiad

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| 8 | **Cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol (Llandudno ac Abergele)** | Prosiect Cydweithio | Canlyniad 4 - Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac yn annibynnol<br>Canlyniad 3 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel a phriodol | A4.1<br><br>A3.1 |

**Disgrifiad**

Prosiect yw hwn a wneir ar y cyd i ddarparu cymorth i bobl 60 oed a throsodd sydd ag angen cymorth asesedig i barhau i fyw'n annibynnol yn y gymuned mewn darpariaeth tai a chymorth priodol.

**Y buddion o weithio ar y cyd**

Mae'r cynlluniau bellach yn weithredol, fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fod wedi gwireddu'r buddion. Y buddiannau a ragwelir yw:

- Galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gyda gwell safon bywyd
- Cau un o gartrefi preswyl y Cyngor sydd wedi dirywio ac wedi dyddio, gan wneud i ffwrdd â'r cyfrifoldeb o orfod ei gynnal a'i gadw – caeodd Cartref Preswyl Awel y Môr ym mis Rhagfyr 2010, caeodd Plas Gogarth ym mis Mehefin 2010 a Phlas y Dre yn ystod 2008.
- Arbedion refeniw o ganlyniad i'r newid yn y model gwasanaeth – mae arbedion refeniw eisoes wedi eu gwireddu yn sgil cau Cartrefi Preswyl.
- Gwireddwyd cyfalaf o werthu Awel y Môr, Plas Gogarth a Phlas y Dre.
- Rhagor o ymdeimlad o ddiogelwch ar gyfer preswylwyr a'u teuluoedd
- Allanoli'r Ddarpariaeth Gofal Cartref
- Cynnydd yn nifer yr eiddo fforddiadwy lleol sydd ar gael

Mae gan gynlluniau Llety Tymor Byr Ychwanegol ar gyfer Pobl Hŷn lety tymor byr sydd ar gael am uchafswm o bythefnos ar unrhyw un adeg i'w defnyddio gan drigolion Conwy sy'n cael eu hasesu fel bod arnynt angen llety dros dro o'r fath gan Weithiwr Iechyd Proffesiynol.

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| 9 | **Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llys Dyfrig** | Prosiect Cydweithio | Canlyniad 4 - Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac yn annibynnol | A4.1 |
| **Disgrifiad** | | | | |
| Prosiect cydweithio yw hwn i ddarparu canolfan i gydleoli staff ac integreiddio staff iechyd a gofal cymdeithasol gyda'i gilydd er mwyn gwella cydweithio a galluogi cyfuno'r cyllidebau priodol. | | | | |
| **Y buddion o weithio ar y cyd** | | | | |
| Mae'r prosiect hwn bellach yn weithredol. Y buddion sy'n cael eu gwireddu yw:<br><br>1. Darparu gwelliannau i'r gwasanaeth trwy weithio ar y cyd ag Iechyd a sefydliadau gwirfoddol<br>2. Cynyddu cynhwysedd drwy weithio ar y cyd; a thrwy weithio'n ystwyth<br>3. Gwella bodlonrwydd cwsmeriaid trwy fod gwasanaethau sydd wedi eu cydleoli ar gael yn y gymuned.<br>4. Uchafu adnoddau | | | | |
| **Cyf** | **Enw'r Cydweithio** | **Y Math o Gydweithio** | **Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol** | **Cysylltiad â'r Camau Gweithredu** |
| 10 | **Bwrdd Rhaglen Rhanbarthol Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Weithredu)** | Rhaglen Cydweithio Rhanbarthol | Canlyniad 4 - Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac yn annibynnol | A4.1 |
| **Disgrifiad** | | | | |
| Mae nifer o brosiectau o fewn y rhaglen hon, a'u buddion yw gwella sut y caiff gofal cymdeithasol ei ddarparu a chwrdd â'r safonau sydd wedi eu nodi yn Fframwaith Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. | | | | |
| **Y buddion o weithio ar y cyd** | | | | |
| Mae'r rhaglen yn mynd rhagddi. Mae'r llwyddiannau hyd yma yn cynnwys lansio Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru ar gyfer lleoliadau cynhwysedd isel a chostau uchel ar draws ystod o grwpiau diamddiffyn; Y buddiannau a ragwelir yw:<br>1. fod arbedion arian parod o £134,000 yn cael eu rhagweld i Gonwy am 3 blynedd gyntaf oes y prosiect;<br>2. y bydd angen llai o adnoddau Conwy i drafod lleoliadau preswyl;<br>3. y bydd Conwy'n manteisio ar gaffael a fydd wedi ei drafod yn ganolog;<br>4. arbedion ariannol o £90,000 yn ystod y flwyddyn gyntaf<br>5. osgoi costau o £100,000 yn ystod y flwyddyn gyntaf.<br><br>Mae'r rhaglen hefyd wedi symud ymlaen yn y meysydd canlynol:<br>• <u>Adolygiad o Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru</u><br>• Rhoddwyd cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynnig ar gyfer Bod Alaw, model gofal ychwanegol ar gyfer pobl ag Anableddau. Mae'r tîm Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn y broses o gael ei sefydlu o fewn Anableddau. Bydd y gwasanaeth yn darparu dull amlddisgyblaethol hyd oes tuag at y ddarpariaeth ymyrraeth gynnar ac atal.<br>Mae cynllun peilot er mwyn ail-alluogi pobl sydd ag anableddau wedi cael ei gwblhau. | | | | |

- Mae Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd Conwy wedi bod yn gweithredu am 12 mis, gan ddarparu ymyriadau dwys, therapiwtig i deuluoedd lle mae camddefnyddio sylweddau gan rieni yn peri risg i'r plant.
- Mae Pwynt Mynediad Sengl (cyfeirir atynt hefyd fel Tîm Mynediad Conwy) wedi cael ei ddatblygu ac wedi'u cydleoli gyda chydweithwyr o Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, yng Nghanolfan Hamdden Colwyn. Y cam nesaf yw sicrhau cydweithio ac integreiddio gwaith rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Betsi.
- Trefniadau diogelu rhanbarthol:
  - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r Awdurdod Cynnal ar gyfer Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
  - Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol ac Addysg yw Cadeirydd y Bwrdd Rhanbarthol ar gyfer Plant ac Oedolion.
  - Mae Swyddogion yr Awdurdod Lleol yn aelodau o'r Grwpiau Cyflenwi Practis Lleol.
  - Mae swyddogion wedi cyfrannu at y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o amgylch Cam-drin Domestig, Camfanteisio'n rhywiol ar blant, Plant sy'n Arddangos Ymddygiad Rhywiol Niweidiol ac mewn perthynas â Blaenoriaethau Diogelu Oedolion.
-

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| **11** | **Partneriaeth Conwy Wledig / Grŵp Gweithredu Lleol Conwy** | Prosiect Cydweithio a ariannwyd â Grant UE | Canlyniad 1 - Mae Pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus<br><br>Canlyniad 5 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir gydag economi ffyniannus<br><br>Canlyniad 6 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy<br><br>Canlyniad 7 - Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu<br><br>Canlyniad 8 - Mae pobl yng Nghonwy yn cael eu hysbysu, eu cynnwys ac yn cael llais | A1.3<br>A1.4<br><br>A5.1<br>A5.2<br>A5.3<br>A5.6<br><br>A6.1<br>A6.2<br>A6.3<br>A6.4<br><br>A7.1<br>A7.2<br><br>A8.2<br>A8.4 |

| Disgrifiad |
|---|
| Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn ein helpu ni i gyd i gynnal cefn gwlad Cymru, ac i gael mwynhad a budd ohono. Ar yr un pryd, mae'n mynd i'r afael â phroblemau penodol sy'n effeithio ar lawer o bobl mewn ardaloedd gwledig.<br><br>Daeth y Cynllun Datblygu Gwledig 2 i ben ddiwedd mis Mehefin 2015 (fel y gwnaeth Partneriaeth Conwy Wledig) ac mae trydydd cynllun gwledig – Strategaeth Datblygu Lleol Conwy 2014 - 2020, newydd gael ei gyhoeddi.<br><br>Y nodau yw<br>1 Darparu, cydlynu a monitro gweithrediad grantiau Ewropeaidd yn effeithiol;<br>2. Darparu llais unedig cydlynol ar gyfer Conwy wledig;<br>3. Arwain a chydlynu gwaith partneriaeth;<br>4. Cymryd golwg strategol ar faterion gwledig;<br>5. Cyfleu cynnydd ar y Strategaeth Datblygu Lleol Conwy. |
| **Y buddion o weithio ar y cyd** |
| Buddion y gwaith hwn a wneir ar y cyd yw:<br>• Ymgysylltu a chynnwys pobl Conwy Wledig yn well;<br>• Gwell bodlondeb o ganlyniad i gyflwyno gwelliannau i wasanaethau |

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| **12** | **Caffael Rhanbarthol a Chenedlaethol** | Prosiectau Cydweithio Rhanbarthol a Chenedlaethol | Canlyniad 5 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir gydag economi ffyniannus | A5.2 |

| Disgrifiad |
|---|
| Bwriad y prosiectau yw darparu dull rhanbarthol/cenedlaethol o weithredu wrth fynd ati i gaffael. Byddant yn cefnogi'r ymgyrch i fod yn effeithlon ac i fod â rheolaeth dda trwy sicrhau gwerth am arian a thrwy gefnogi busnesau lleol pan fo hynny'n ddichonadwy. |
| **Y buddion o weithio ar y cyd** |
| Erys ystod o brosiectau caffael cydweithredol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Roedd y ganolfan comisiynu gofal cymdeithasol rhanbarthol (y mae Cyngor Sir Ddinbych yn awdurdod lletyol ar ei gyfer) wedi datblygu fframweithiau trawsranbarthol ar gyfer gwneud pryniannau er mwyn gallu lleihau costau. Erbyn hyn mae wedi cael ei ddadgomisiynu a bydd yn cael ei gydlynu gan benodiad newydd a fydd yn adrodd i'r Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru (NWSSIC).<br><br>Cafodd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ei lansio ym mis Tachwedd 2013. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn y broses o sefydlu ystod o grwpiau defnyddwyr cwsmeriaid, gan orffen eu hymgyrch i recriwtio Rheolwyr Categorïau ac i gytuno ar anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi targedau effeithlonrwydd. |



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| **13** | **Uchelgais Economaidd** | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol | Canlyniad 5 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir gydag economi ffyniannus | A5.3, A5.4 ac A5.5 |
| **Disgrifiad** | | | | |
| Bwriad y prosiect hwn yw sefydlu dull gweithredu strategol ar draws y rhanbarth i wella Economi Gogledd Cymru. | | | | |
| **Y buddion o weithio ar y cyd** | | | | |
| Gweledigaeth y Bwrdd yw cyfleu fod Gogledd Cymru yn rhanbarth hyderus ac eangfrydig sydd ag economi amrywiol, gwerth uchel, sy'n darparu ystod o gyfleoedd gwaith cynaliadwy, o safon ar gyfer y trigolion. Y buddion fydd cynnydd o ran cynhyrchiant economaidd, y gallu i gystadlu a thwf yn y rhanbarth. Bydd hyn yn cael ei fesur trwy (leihau) y bwlch rhwng a) cyfraddau rhanbarthol a chenedlaethol twf blynyddol Gwerth Ychwanegol Gros; a b) y bwlch rhwng yr ardaloedd hynny sydd ar ei hôl hi o ran y gyfradd twf cyfartalog rhanbarthol a'r rhai sy'n gryfach eu perfformiad. | | | | |

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| **14** | **TGCh (Caffael ar y Cyd)** | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol | Canlyniad 6 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy | A6.5 |
| **Disgrifiad** | | | | |
| Nod y prosiect yw sicrhau arbedion / prisiau gorau ar galedwedd TG; Er mwyn lleihau biwrocratiaeth o gaffael o dan y cytundeb fframwaith ar gyfer 6 chyngor; I safoni ar galedwedd TG ar draws Gogledd Cymru; Cynnig llais cryfach wrth ddelio â chyflenwyr / dosbarthwyr. | | | | |
| **Y buddion o weithio ar y cyd** | | | | |
| Y buddion a wireddwyd yw'r arbedion effeithlonrwydd a geir o ganlyniad i arbedion maint. | | | | |

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| **15** | **Gwastraff Gweddilliol Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru** | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol | Canlyniad 6 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy | A6.6 |
| **Disgrifiad** | | | | |
| Dull gweithredu rhanbarthol yw'r prosiect hwn ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff gweddilliol. Ei nod yw sicrhau datrysiad cynaliadwy tymor hir a chost effeithiol ar gyfer trin gwastraff gweddilliol yn y rhanbarth. | | | | |
| **Y buddion o weithio ar y cyd** | | | | |
| Mae'r buddion sydd wedi eu rhagweld yn cynnwys osgoi costau o £31,288,000 ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2041, a'r arbedion effeithlonrwydd a geir trwy rannu costau caffael rhwng 5 Awdurdod. | | | | |

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| **16** | **Canolfan Gwastraff Bwyd Gogledd-ddwyrain Cymru** | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol | Canlyniad 6 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy | A6.6 |
| **Disgrifiad** | | | | |
| Dull gweithredu rhanbarthol yw'r prosiect hwn ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff bwyd. Ei nod yw sicrhau datrysiad cynaliadwy tymor hir a chost effeithiol ar gyfer trin gwastraff bwyd yn y rhanbarth. | | | | |
| **Y buddion o weithio ar y cyd** | | | | |
| Bydd y buddion yn cynnwys osgoi costau o £1,276,730 dros gyfnod o 15 mlynedd a chostau caffael wedi eu rhannu rhwng 3 Awdurdod. | | | | |

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| **17** | **Fframwaith Contractwyr Ysgolion ac Adeiladau Cyhoeddus Gogledd Cymru** | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol (Prosiect yw hwn a ariennir ar y cyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru (Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif) wedi ei arwain gan Gynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint, ar ran 6 awdurdod lleol Gogledd Cymru.) | Canlyniad 1 – Mae Pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau | A1.7 ac A6.3 |
| **Disgrifiad** | | | | |
| Y prif gymhelliant dros gynnal y prosiect hwn yw sicrhau gwerth am arian ar gyfer caffael cyhoeddus a darparu buddion cymunedol ledled y rhanbarth.Bydd angen ystyried cynnwys targedau ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth, talu isgontractwyr yn brydlon, cyfleoedd ar gyfer busnesau sy'n derbyn cefnogaeth, addysg, profiad gwaith, mentrau cymunedol a chyfleoedd agored ar gyfer mentrau bychain.<br>Cynhaliwyd lansiad gweithredol Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru ar 12 Mehefin 2014 yng nghanolfan Glasdir, Llanrwst. | | | | |
| **Y buddion o weithio ar y cyd** | | | | |
| Nid yw'r manteision a ragwelwyd wedi cael eu gwireddu hyd yma a byddant yn cael eu gwireddu wrth i Gonwy symud at gynnal prosiectau adeiladu gweithredol sydd wedi eu caffael yn defnyddio'r fframwaith.<br><br>Rhagwelir y bydd y prosiect yn creu arbedion sylweddol o ran costau ac amser wrth fynd ati i gaffael ar gyfer gwaith adeiladu.<br>- Gwella pa mor rhagweladwy yw'r costau.<br>- Gwella nifer y prosiectau a gwblheir ar amser.<br>- Buddion i'r gadwyn gyflenwi o ran pŵer prynu cyffredinol a hirhoedledd y fframweithiau. | | | | |

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| 18 | **Prosiect 'Ein Treftadaeth' a phrosiect 'Tywysogion Gwynedd'** | Prosiect Cydweithio a ariannwyd â Grant | Canlyniad 7 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu | A7.3 |

**Disgrifiad**

Consortiwm yw hwn o dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, fel rhan o Brosiect Twristiaeth Treftadaeth £19 miliwn CADW.

**Y buddion o weithio ar y cyd**

Daeth prosiect Tywysogion Gwynedd i ben ddiwedd Mehefin 2014 a daeth prosiect Ein Treftadaeth i ben ddiwedd Rhagfyr 2014. Y buddion oedd:

- Annog archwilio'r dirwedd ddiwylliannol
- Cynyddu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth ymwelwyr gan arwain at roi profiad cyfoethocach i ymwelwyr
- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i safleoedd / atyniadau
- Cynnydd yn ansawdd ac argaeledd y dehongli sydd ar gael
- Cynnydd mewn sgiliau a gwybodaeth leol drwy hyfforddiant a datblygu
- Cynnydd yn y cyfleoedd cyflogaeth
- Codi proffil hanes Cymru gan gyfeirio'n benodol at Dywysogion Gwynedd

Cynyddu'r effaith economaidd ar drefi a phentrefi sydd ymhell o'r mannau y mae twristiaid yn ymhél.

| Cyf | Enw'r Cydweithio | Y Math o Gydweithio | Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol | Cysylltiad â'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| 19 | **Gwasanaethau Cyfreithiol Gogledd Cymru yn Gweithio ar y Cyd** | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol | Effeithlon ac wedi'u rheoli'n dda | |

**Disgrifiad**

Bwriad y prosiect hwn yw darparu dull rhanbarthol o gynnal gwasanaethau cyfreithiol.  Bydd yn cefnogi'r ymgyrch i fod yn effeithlon ac i fod â rheolaeth dda gan rannu arbenigedd ar draws y rhanbarth a lleihau'r angen i brynu arbenigedd allanol.

**Y buddion o weithio ar y cyd**

Mae Adain Gyfreithiol Conwy'n darparu rhai gwasanaethau cyfreithiol arbenigol i Gyngor Ynys Môn, i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac yn rhoi cefnogaeth ad hoc i gyrff cyhoeddus eraill. Mae hyn wedi creu incwm ar gyfer y gwasanaeth, sydd o gymorth i gyflawni arbedion effeithlonrwydd, tra bo ar yr un pryd yn creu arbedion i'r cyrff cyhoeddus dan sylw.

Mae dau gynllun peilot a oedd yn rhan o'r prosiect cydweithio wedi cael eu cwblhau. Mae'r cyntaf yn ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, a arweiniodd at gynnydd mewn rhannu arbenigedd ymhlith y Cyfreithwyr sy'n gweithio yn y maes hwn o fewn y 6 Awdurdod Gogledd Cymru. Mae hyn bellach wedi dod yn ffurf barhaol o weithio er budd pawb dan sylw.

Mae'r ail yn ymwneud ag erlyniadau o fewn y 6 Awdurdod sydd wedi cael llai o lwyddiant.  Profodd y cynllun peilot i fod yn or-fiwrocrataidd ac ni chafwyd unrhyw arbedion ariannol nac arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth yn ei sgil. Mae'r cynllun peilot hwn bellach yn cael ei adolygu i weld a all barhau mewn modd sy'n gwireddu'r buddion angenrheidiol neu a ddylai ddirwyn i ben. Cafodd y cynllun peilot ei adolygu ac mae bellach yn bwrw ymlaen ar sail isranbarthol.  Mae hyn yn profi'n llawer mwy effeithlon ac mae'r fiwrocratiaeth wedi cael ei ddileu i raddau helaeth.

## 6 Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o'n Perfformiad

### 6.1 Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/15

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio cynlluniau gwelliant a threfniadau adrodd cynghorau Cymru, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol, ac i asesu a fydd pob awdurdod yn bodloni dyletswyddau gwelliant parhaus statudol. Caiff y canfyddiadau eu cyhoeddi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AIR).

Yn ogystal, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad corfforaethol manwl ar bob awdurdod ar sail gylchol (o leiaf unwaith bob pedair blynedd ar hyn o bryd). Cafodd yr Asesiad Corfforaethol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ei gyhoeddi yn 2014 a chafodd y casgliadau cadarnhaol eu dogfennu yn Adroddiad Blynyddol y llynedd. Nid oedd unrhyw argymhellion ar gyfer gwella ac mae cynnydd da wedi cael ei wneud i weithredu'r 6 cynnig ar gyfer gwella. Yn y cyfamser, yn ychwanegol at archwiliadau o gynlluniau gwelliant ac adrodd, bydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn cadw golwg ar ddatblygiadau ac yn canolbwyntio gwaith asesu gwelliant pellach ar nifer o themâu allweddol, a ddatblygwyd mewn trafodaethau gyda phob awdurdod.

Daeth Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2014/15 i'r casgliad

*Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau yn ei feysydd blaenoriaeth; mae ei gofnod o ran cyflawni ei amcanion ariannol yn ei roi mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16*

Nid oedd unrhyw argymhellion ac nid oedd unrhyw gynigion ar gyfer gwella.

## 6.2 Adroddiadau arolygon eraill a gyhoeddwyd yn 2014/2015

Yn ystod 2014/2015, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru’r archwiliadau canlynol. Mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu llunio er mwyn rhoi’r argymhellion ar gyfer gwella ar waith:

| Enw’r Prosiect | Disgrifiad Byr | Barn Archwilio |
|---|---|---|
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad Cynllunio ariannol** | Asesiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut y mae'n cyllidebu a chyflawni ar arbedion sydd eu hangen. | Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol digonol heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol. |
| **Archwilio Cyfrifon** | Ar 28 Tachwedd 2014, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Roedd y Llythyr yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n codi o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a’i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. | Mae'n cadarnhau ei fod wedi rhoi barn ddiamod am ddatganiad ariannol y Cyngor ar 30 Medi 2014, gan gadarnhau eu bod yn cyfleu darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor** | Asesiad o ymlyniad y Cyngor i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi ei Gynllun Gwella. | Mae cynllun gwella'r Cyngor a’i werthusiad o’i berfformiad yn cydymffurfio â gofynion Mesur 2009. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrifau archwilio yn datgan bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Adroddiad Perfformiad y Cyngor** | Asesiad o ymlyniad y Cyngor i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad. | Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrifau archwilio yn datgan bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad o drefniadau moderneiddio corfforaethol** | Asesu'r cynnydd ar drefniadau ar gyfer moderneiddio corfforaethol. | Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni moderneiddio corfforaethol yn datblygu'n dda ac, er ei fod ar y trywydd iawn ar hyn o bryd, maent yn eu dyddiau cynnar ac mae'r buddion eto i'w gwireddu. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad o drefniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd** | Asesu'r cynnydd ar drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y cyngor. | Mae'r Cyngor yn cyflwyno ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd ar lefelau sydd bennaf yn uwch na'r safon ofynnol er gwaethaf gostyngiadau mewn cyllidebau a nifer y staff. |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer dosbarthu Taliadau Dewisol Tai** | Asesiad o effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer dyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio Taliadau Dewisol Tai. | Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei Daliadau Dewisol Tai ond nid yw'n gallu barnu effeithiolrwydd ei waith wrth fynd i'r afael ag effaith diwygio’r gyfundrefn les. |

| | | |
|---|---|---|
| **Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygu cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd fel rhan o Asesiad Corfforaethol 2013** | Adolygu cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn rhan o Asesiad Corfforaethol 2013. | Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn rhan o Asesiad Corfforaethol 2014 |
| **WLC - Adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor** | Asesiad o effeithiolrwydd y Cynllun o ran darparu gwasanaethau'r Cyngor i'r cyhoedd yn Gymraeg. | Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi parhau i roi gwybod am arfer da yng ngweithrediad y Cyngor o'i Gynllun Iaith Gymraeg. |
| **Ardystio Grantiau Mai 2013/2014** | A oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (yr Awdurdod) drefniadau digonol ar waith i sicrhau bod hawliadau grant yn cael eu cydlynu, yn gywir, yn amserol ac yn cael eu cofnodi'n gywir? | Mae gan yr Awdurdod drefniadau digonol ar gyfer paratoi ei grantiau a ffurflenni a chefnogi ein gwaith ardystio, ond mae angen gwelliannau mewn rhai meysydd. |
| **Trefniadau Awdurdodau Lleol i gefnogi Diogelu Plant** | A yw trefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor yn rhoi sicrwydd bod y plant yn cael eu diogelu? | Mae trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli er mwyn goruchwylio a yw'r Cyngor yn diwallu ei gyfrifoldebau diogelu ar gyfer plant yn bennaf yn addas i bwrpas ac yn cael eu rheoli'n effeithiol.<br>Mae rhai gwendidau o ran trefniadau'r Cyngor i fonitro a gwerthuso ei gyfrifoldebau diogelu i blant ac mae'r Cyngor yn ymdrin â nhw. Mae dull y Cyngor o adnabod a gweithredu ar welliannau yn ei drefniadau diogelu yn ddigonol ond gellir gwneud rhai gwelliannau. |
| Rheoli Ymadawiadau Cynnar (Adroddiad Cenedlaethol) | I archwilio a all cyrff cyhoeddus yng Nghymru ddangos eu bod yn sicrhau gwerth am arian o ddefnyddio ymadawiadau cynnar i reoli neu leihau costau gweithlu. | Daethom i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus Cymru wedi gwneud defnydd helaeth o ymadawiadau cynnar i gefnogi lleihau costau, ochr yn ochr ag ystod o ddulliau eraill. Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod llywodraethu yn foddhaol. |
| Rheoli Effaith Newidiadau Diwygio Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru (Adroddiad Cenedlaethol) | A yw Cynghorau mewn sefyllfa dda i reoli effaith diwygio'r gyfundrefn les ar dai cymdeithasol yng Nghymru yn effeithiol? | Mae'r newidiadau i Fudd-dal Tai a gyflwynwyd gan y rhaglen diwygio lles yn cael effaith sylweddol ar gynghorau Cymru a chymdeithasau tai, ac maent yn cael trafferth sicrhau atebion effeithiol a chynaliadwy i fynd i'r afael â'r heriau maent yn eu hwynebu. |

### 6.3 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn annog gwelliannau ym meysydd gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Bob blwyddyn,

mae'n cyhoeddi Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Gellir gweld eu hadroddiad ar wefan AGGCC http://cssiw.org.uk/?skip=1&lang=cy

Mae Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei gynhyrchu fel rhan o'r hyn a elwir yn Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor. Mae'n cynnwys Cyflwyniad gan Gyfarwyddwr a gwybodaeth am gyflawniadau allweddol y gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn flaenorol a'r prif amcanion gogyfer â'r flwyddyn ganlynol. Gellir ei ddarllen ar wefan y Cyngor: http://conwysocialservicesannualreport.org.uk/

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o brif lwyddiannau ac arferion da 2014/2015 ac yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer 2015/2016.

**Arolygiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**

Yn ystod 2014/2015 cafwyd yr adroddiadau arolygu allanol canlynol oddi wrth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

**Archwiliadau Lleol:**
1. Arolwg o'r gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol (gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth a gwasanaethau ar gyfer ymadawyr gofal).
2. Arolwg Maethu
3. Adolygu Gofal yn y Cartref
4. Cartrefi Gofal Cofrestredig
5. **Llys Elian**

**Archwiliadau Cenedlaethol:**
4. Archwiliad o drefniadau mynediad ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion (pobl hŷn)
5. Adolygu ceisiadau ac effeithiolrwydd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru
6. Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
7. Arolwg o drefniadau diogelu a chynllunio gofal plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal sy'n arddangos ymddygiad ddiamddiffyn neu beryglus.
8. Adolygiad cenedlaethol o gomisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.

Cafodd y ddau archwiliad cyntaf a'r cynlluniau gweithredu eu cyflwyno i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Rhoddwyd Cynlluniau Gweithredu ar waith er mwyn mynd i'r afael â phob argymhelliad yn yr archwiliad.

**ESTYN**

Cafodd cyfanswm o 11 ysgol cynradd eu harolygu gan Estyn yn ystod 2014/2015. Derbyniodd 1 ohonynt ddyfarniad rhagorol, roedd 7 yn dda, 2 yn ddigonol ac 1 yn anfoddhaol.

| | |
|---|---|
| Ardderchog | 1 |
| Da | 7 |
| Digonol | 2 |
| Anfoddhaol | 1 |

Cafodd cyfanswm o dair ysgol uwchradd eu harolygu yn ystod yr un cyfnod. Derbyniodd un dyfarniad da a dau yn ddigonol.


| | |
|---|---|
| Ardderchog | 0 |
| Da | 1 |
| Digonol | 2 |
| Anfoddhaol | 0 |

## 7 Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) Llywodraeth Cymru, Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) a Mesuryddion ein Cynllun Corfforaethol

Yn unol â chanllawiau 'Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella', Llywodraeth Cymru mae'n ofynnol i'r Cyngor 'ganfod angen' a 'gwella gwasanaethau'n barhaus'. Er mwyn asesu pa mor dda y gwnawn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nifer o fesuryddion perfformiad statudol sy'n ymwneud â meysydd polisi allweddol e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a'r Amgylchedd. Yna caiff lefel y perfformiad ei gymharu â thargedau a osodwyd gan y Cyngor.

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'n perfformiad mewn cymhariaeth a'r mesuryddion cenedlaethol pan ellir gwneud cymariaethau, o sut rydym yn perfformio o gymharu â'r targedau a osodwyd yn y Cynllun Corfforaethol, a hefyd ceir crynodeb o berfformiad mesuryddion cenedlaethol a mesuryddion y cynllun corfforaethol fesul canlyniad y dinesydd.


### 7.1 Cyflawni ein Targedau Cenedlaethol




Mae'r siart cylch ar y chwith yn dangos perfformiad diwedd blwyddyn 2014/2015 gogyfer â'r mesuryddion perfformiad statudol o gymharu â'r targedau y mae'r Cyngor wedi eu gosod iddo ei hun ar ddechrau'r flwyddyn.


Mae 43 Dangosydd Strategol Cenedlaethol a Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus wedi cael eu cymharu ledled Cymru.

### 7.2 Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru?




Mae llawer iawn o'n mesuryddion statudol yn gosod ein perfformiad yn chwarter uchaf neu yn chwarter canol perfformiad awdurdodau lleol Cymru. Mae'r canlyniadau yn welliant ar ganlyniadau'r llynedd: mae perfformiad chwartel uchaf wedi gwaethygu o 15 lawr i 12, Cyfartaledd o 24 lawr i 22, a'r chwarter isaf wedi cynyddu o 4 i 8. Rydym yn gweithio i wella'r dangosyddion ym mherfformiad chwarter isaf ar gyfer Cymru ac mae cynlluniau gweithredu wedi eu rhoi ar waith.


### 7.3 Cyflawni Targedau ein Cynllun Corfforaethol






Mae'r siart cylch ar y chwith yn dangos perfformiad diwedd blwyddyn 2014/2015 gogyfer â mesuryddion y cynllun corfforaethol o gymharu â'r targedau y mae'r Cyngor wedi eu gosod iddo ei hun ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o fesuryddion yn dangos cynnydd a fydd yn cwrdd â'r targedau a osodwyd.


### 7.4 Cyflawni targedau Canlyniadau

Mae'r siartiau isod yn dangos sut yr ydym wedi perfformio yn erbyn yr 8 canlyniad i'r dinesydd sydd yn y Cynllun Corfforaethol, gan edrych ar fesuryddion ein Cynllun Corfforaethol, ond hefyd ar Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol / Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus mewn perthynas â'r 8 canlyniad i'r dinesydd. Mae pob siart yn dangos perfformiad yn ôl nifer y mesuryddion a chanran y mesuryddion sydd naill ai ddim yn cwrdd â'r targed, sy'n symud ymlaen o fewn y goddefiant tuag at gwrdd â'r targed neu sydd wedi cwrdd â'r targed.









**Canlyniad 5: Economi ffyniannus**





**Canlyniad 6: Amgylchedd cynaliadwy**




**Canlyniad 7: Treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg**




**Canlyniad 8: Cael gwybodaeth, cael eu cynnwys a chael llais**




### 7.5 Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus

Mae'r tablau canlynol yn adrodd ar ffigurau perfformiad y canlyniadau gwirioneddol yn erbyn y targed Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd adroddiad manwl i'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 6 Gorffennaf 2015, sydd i'w weld yma:
http://modgoveng.conwy.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=107&MId=4491&Ver=4

Lle na wireddwyd y targed, mae'r gwasanaeth wedi rhoi camau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r materion hynny. Caiff y camau gweithredu hyn eu monitro fel rhan o'r Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth bob 6 mis i sicrhau ein bod yn rheoli'r perfformiad yn ystod y flwyddyn.

Yn ychwanegol at ein Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a'n Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, rydym hefyd yn coladu perfformiad yn ôl set o Ddata Gwella Gwasanaeth. Mae gormod i'w rhestru o fewn yr adroddiad hwn, ond mae pob dangosydd set craidd sy'n berthnasol i'n Cynllun Corfforaethol wedi cael eu rhestru yn adran 1. I weld adroddiad llawn ynglŷn â pherfformiad ein Dangosyddion Set Craidd cyfeiriwch at ein gwefan www.conwy.gov.uk/adroddiadblynyddol.

Esbonnir yr allwedd a ddefnyddir yn y golofn Perfformiad isod:

| ***O'i gymharu â'r targed a osodwyd:*** | |
|---|---|
| Heb gyflawni'r targed ac yn is na'r lefel sy'n cael ei goddef | Gwyrdd |
| Oddi mewn i'r goddefiant er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r targed | Oren |
| Cyflawnwyd y targed | Coch |
| Ni osodwyd targed | Ni osodwyd targed |

### 7.6 Dangosyddion Strategol Cenedlaethol

| Cyf | Disgrifiad | Dadansoddiad o berfformiad | Targed 14/15 | 2014/15 Canlyniad | Safle yng Nghymru (o blith 22) | Cyfartaledd Cymru | Targed newydd ar gyfer 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCA/001 | Cyfradd yr oedi mewn trosglwyddiadau gofal am resymau Gofal Cymdeithasol **Dangosydd Strategol Cenedlaethol** | | Ni osodwyd targed | **0.69** | 2 o blith 22 | 3.4 | 1.5 |
| SCA/002 a) | Cyfradd y Bobl Hŷn a Gefnogir yn y Gymuned **Dangosydd Strategol Cenedlaethol** | | Ni osodwyd targed | **57.5** | 14 o blith 22 | 62.0 | Ni osodwyd targed |
| SCA/002 b) | Cyfradd y Bobl Hŷn y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn Cartrefi Gofal **Dangosydd Strategol Cenedlaethol** | Gwyrdd | 21.0 | **17.58** | 9 o blith 22 | 19.3 | 20.0 |
| SCA/019 | Canran yr atgyfeiriadau diogelu oedolion a gwblhawyd lle cafodd y risg ei rheoli **Mesurydd Atebolrwydd Cyhoeddus** / **Dangosydd Strategol Cenedlaethol** | Oren | 100.0% | **97.7%** | 13 o blith 22 | 98.8% | 98.0% |
| SCC/002 | Canran y plant a newidiodd ysgol unwaith neu'n rhagor tra oeddynt yn derbyn gofal **Dangosydd Strategol Cenedlaethol** | Gwyrdd | 6.0% | **3.6%** | 1 o blith 22 | 14.0% | 6.0% |
| SCC/004 | Sefydlogrwydd lleoliadau plant sy'n derbyn gofal **Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus** / **Dangosyddion Strategol Cenedlaethol** | Coch | 9.50% | **11.4%** | 18 o blith 22 | 8.7% | 9.50% |

Roedd 18 plentyn allan o gyfanswm o 158 mewn gofal ar 31 Mawrth 2015, wedi symud lleoliad dwywaith neu fwy yn ystod y flwyddyn. (Caiff y lleoliad gwreiddiol yn ystod y flwyddyn ei gyfrif fel '1', felly mae symud 2 waith arall mewn blwyddyn yn cael ei gynnwys fel symud 3 gwaith).

Y rhesymeg y tu ôl i'r Mesur yw monitro sefydlogrwydd lleoliadau a cheisio sicrhau, yn benodol, nad yw plant yn cael eu symud o gwmpas o fewn lleoliadau Gofal Maeth gwahanol. Mae dadansoddiad cychwynnol o ddata eleni yn datgelu bod gan nifer fawr o bobl ifanc anghenion lefel uchel a chymhleth. Symud rhwng lleoliadau Preswyl ac Unedau Diogel, a ystyriwyd eu bod er lles y plentyn yw rhai o'r symudiadau hyn.

Bydd y data yn cael ei adolygu yn rheolaidd a bydd Rheolwyr Tîm hefyd yn rhoi gwybodaeth i uwch reolwyr ynghylch pam fod y symudiadau wedi digwydd. Er bod nifer o'r symudiadau rhwng lleoliad eleni wedi bod yn anochel neu er budd y plentyn, mae'n faes y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu parhau i'w wella.

| Cyf | Disgrifiad | Dadansoddiad o berfformiad | Targed 14/15 | 2014/15 Canlyniad | Safle yng Nghymru (o blith 22) | Cyfartaledd Cymru | Targed newydd ar gyfer 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCC/011 b) | Canran yr asesiadau cychwynnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn pan fo tystiolaeth bod y plentyn wedi cael ei weld ar ei ben ei hun gan y Gweithiwr Cymdeithasol **Dangosydd Strategol Cenedlaethol** | Gwyrdd | 45.0% | **56.1%** | 6 o blith 22 | 49.6% | 50.0% |
| SCC/033 d) | Pobl ifanc a fu'n derbyn gofal yn flaenorol – yr awdurdod mewn cyswllt â nhw pan fônt yn 19 oed **DSC** | Oren | 90.0% | **87.5%** | 18 o blith 22 | 93.5% | 90.0% |
| SCC/033 e) | Pobl ifanc a fu'n derbyn gofal yn flaenorol - mewn llety addas yn 19 oed **DSC** | Gwyrdd | 85.0% | **92.9%** | 8 o blith 22 | 91.1% | 85.0% |
| SCC/033 f) | Pobl ifanc a fu'n derbyn gofal yn flaenorol – sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19 oed **DSC** | Gwyrdd | 55.0% | **64.3%** | 9 o blith 22 | 60.6% | 55.0% |
| SCC/037 | Sgorau cymwysterau allanol plant sy'n derbyn gofal **DSC** | | Ni osodwyd targed | **175** | 22 o blith 22 | 291.1 | Ni osodwyd targed |
| SCC/041 a) | Canran y plant cymwys, perthnasol a'r plant a arferai fod yn berthnasol sydd â chynlluniau llwybr yn ôl yr angen **DSC** | Gwyrdd | 95.0% | **97.5%** | 15 o blith 22 | 98.6% | 95.0% |
| EDU/002 i) | Pob disgybl sy'n gadael addysg heb gymhwyster allanol cymeradwy **DSC** / **MAC** | Gwyrdd | 0.3% | **0.3%** | 17 o blith 22 | 0.14% | 0.3% |
| EDU/002 ii) | Canran y disgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol sy'n gadael addysg heb gymhwyster allanol cymeradwy **DSC** | Gwyrdd | 10.0% | **0.0%** | 1 o blith 22 | 0.00% | 10.0% |
| EDU/003 | Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2 (7-11 oed) **MAC** / **DSC** | Oren | 85.6% | **84.3%** | 17 o blith 22 | 86.2% | 85.0% |

| Cyf | Disgrifiad | Dadansoddiad o berfformiad | Targed 14/15 | 2014/15 Canlyniad | Safle yng Nghymru (o blith 22) | Cyfartaledd Cymru | Targed newydd ar gyfer 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EDU/006ii | Canran y disgyblion sydd wedi'u hasesu, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cael Asesiad Athro yn Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 **Dangosydd Strategol Cenedlaethol** | Gwyrdd | 17.47% | **17.01%** | 7 o blith 22 | 10.9% | 19.56% |
| EDU/011 | Sgôr Pwynt Cyfartalog ar gyfer Disgyblion 15 Oed **Dangosydd Strategol Cenedlaethol** / **Mesurydd Atebolrwydd Cyhoeddus** | Gwyrdd | 495 | **510.80** | 17 o blith 22 | 533.8 | 500 |
| EDU/015 a) | Datganiadau anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd cyn pen 26 wythnos – gan gynnwys eithriadau **Dangosydd Strategol Cenedlaethol** | Gwyrdd | 90.0% | **95.1%** | 7 o blith 22 | 82.4% | 84.0% |
| EDU/015 b) | Datganiadau anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd cyn pen 26 wythnos – heb gynnwys eithriadau **Dangosydd Strategol Cenedlaethol** | Gwyrdd | 100.0% | **100.0%** | 1 o blith 22 | 100.0% | 100.0% |
| EDU/017 | Canran y disgyblion 15 oed ar 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg **DSC** | Oren | 58.70% | **55.50%** | 11 o blith 22 | 55.1% | 59.10% |
| WMT/004(b) | Canran y gwastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol a anfonwyd i safle tirlenwi **DSC** / **MAC** | Gwyrdd | 40.0% | **31.63%** | 12 o blith 22 | 30.5% | 40.0% |
| WMT/009(b) | Y gwastraff trefol a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol a'i baratoi i gael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu, a'i gompostio **DSC** / **MAC** | Oren | 60.0% | **59.1%** | 6 o blith 22 | 55.6% | 60.0% |
| STS/006 | Canran yr achosion o dipio anghyfreithlon y cafwyd gwybod amdanynt a gafodd eu | Gwyrdd | 97.0% | **97.8%** | 5 o blith 22 | 96.5% | 97.0% |

| **Cyf** | **Disgrifiad** | **Dadansoddiad o berfformiad** | **Targed 14/15** | **2014/15 Canlyniad** | **Safle yng Nghymru (o blith 22)** | **Cyfartaledd Cymru** | **Targed newydd ar gyfer 2015/16** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | clirio cyn pen 5 niwrnod gwaith **DSC** | | | | | | |
| HHA/013 | Aelwydydd a allai fod wedi cael eu gwneud yn ddigartref lle cafodd hynny ei atal **Dangosydd Strategol Cenedlaethol / Mesurydd Atebolrwydd Cyhoeddus** | Oren | 92.0% | **90.3%** | 7 o blith 22 | 81.7% | 92.0% |
| PSR/002 | Diwrnodiau a gymerwyd i gyflwyno Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl **Dangosydd Strategol Cenedlaethol / Mesurydd Atebolrwydd Cyhoeddus** | Gwyrdd | 170 diwrnod | **170.7 diwrnod** | 4 o blith 22 | 234 diwrnod | 170 diwrnod |
| PSR/004 | Anheddau gweigion a adferwyd i'w meddiannu **DSC** | Coch | 75 | **42** | 20 o blith 22 | 5.61 | 50 |
| Er nad oedd y canlyniad yn bodloni'r targed o 75, roedd yn golygu ychydig o welliant ar berfformiad alldro ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae disgwyl i'r Perfformiad ar gyfer 2015/2016 gynyddu oherwydd arolwg drwy'r post o'r holl gartrefi gwag hirdymor yn y sir. Gellir cyfrif unrhyw anheddau gweigion a adferwyd i'w meddiannu ar ôl derbyn yr arolwg a'r daflen gyngor yn cyd-fynd, tuag at y DP.<br><br>Dylid nodi bod 9 annedd pellach wedi cael eu creu (ac wedi cael eu meddiannu) yn ystod y cyfnod adrodd, drwy gymorth cyllid gan gynlluniau 'Troi Tai yn Gartrefi'. Er na ellir cyfrif yr eiddo yma yn y mesur hwn (gan nad oeddynt yn anheddau ar y dechrau), maent wedi cymryd cryn dipyn o amser swyddogion er mwyn eu troi i fod yn anheddau y gellir eu meddiannu. | | | | | | | |
| PLA/006 (b) | Yr unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn **Dangosydd Strategol Cenedlaethol / Mesurydd Atebolrwydd Cyhoeddus** | | Ni osodwyd targed | **60.8%** | 2 o blith 22 | 39.2% | Ni osodwyd targed |
| PLA/006* Lleol | Yr unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | Oren | 29.0% | **28.7%** | Amh. | Amh. | 29.0% |
| LCS/002 | Ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth **DSC** | Gwyrdd | 8,500 | **8,519** | 10 o blith 22 | 8,295 | 8,500 |
| LCL/001 | Ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus fesul 1,000 o'r boblogaeth **DSC** | Oren | 5,173 | **5,123** | 9 o blith 22 | 4,902 | 5,173 |
| THS/007 | Oedolion 60+ oed a chanddynt docyn mantais bws **Dangosydd Strategol Cenedlaethol** | Gwyrdd | 80.0% | **82.5%** | 12 o blith 22 | 84.7% | 84.0% |

## 7.7 Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus

| Cyf | Disgrifiad | Dadansoddiad o Berfformiad | 2014/15 Targed | 2014/15 Canlyniad | Safle yng Nghymru (o blith 22) | Cyfartaledd Cymru | Targed newydd ar gyfer 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCA/007 | Canran y cleientiaid a chanddynt gynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi cael eu hadolygu, yr adolygwyd eu cynlluniau gofal yn ystod y flwyddyn **Mesurydd Atebolrwydd Cyhoeddus** | Oren | 90.0% | **88.9%** | 5 o blith 22 | 79.6% | 90.0% |
| SCA/018a | Canran gofalwyr oedolion y cynigiwyd asesiad neu adolygiad iddynt o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn **MAC** | Oren | 90.0% | **85.8%** | 17 o blith 22 | 93.8% | Ni osodwyd targed |
| SCA/020 | Canran y cleientiaid sy'n oedolion a gafodd gefnogaeth yn y gymuned yn ystod y flwyddyn **Mesurydd Atebolrwydd Cyhoeddus** | | Ni osodwyd targed | **86.6%** | 8 o blith 22 | 85.5% | Ni osodwyd targed |
| SCC/001a | Canran lleoliadau cyntaf plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda chynllun gofal wedi'i sefydlu **MAC** | Gwyrdd | 90.0% | **98.3%** | Amh. | Amh. | 90.0% |
| SCC/011 a) | Asesiadau cychwynnol - Gwelwyd y plentyn gan Weithiwr Cymdeithasol **Mesurydd Atebolrwydd Cyhoeddus** | Gwyrdd | 80.0% | **86.8%** | 9 o blith 22 | 81.6% | 85.0% |
| SCC/025 | Ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal **MAC** | Gwyrdd | 90.0% | **90.1%** | 11 o blith 22 | 90.0% | 90.0% |
| SCC/030 a) | Gofalwyr ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gafodd asesiad **Mesurydd Atebolrwydd Cyhoeddus** | Gwyrdd | 100.0% | **100.0%** | Amh. | Amh. | Ni osodwyd targed |
| SCC/045 | Canran yr adolygiadau a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen statudol. **MAC** | | Ni osodwyd targed | **95.6%** | 5 o blith 22 | 93.8% | Ni osodwyd targed |

# Adolygu Ein Perfformiad: 2014 - 15

| Cyf | Disgrifiad | Dadansoddiad o Berfformiad | 2014/15 Targed | 2014/15 Canlyniad | Safle yng Nghymru (o blith 22) | Cyfartaledd Cymru | Targed newydd ar gyfer 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EDU/004 | Asesiadau cyfnod allweddol 3 (11-14 oed) lle cyflawnwyd y dangosydd pynciau craidd **Mesurydd Atebolrwydd Cyhoeddus** | Gwyrdd | 73.6% | **83.7%** | 8 o blith 22 | 82.0% | 83.9% |
| EDU/016 a) | Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd **Mesurydd Atebolrwydd Cyhoeddus** | Gwyrdd | 94.5% | **94.7%** | 13 o blith 22 | 94.8% | 94.8% |
| EDU/016 b) | Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd **Mesurydd Atebolrwydd Cyhoeddus** | Gwyrdd | 93.0% | **93.9%** | 7 o blith 22 | 93.6% | 94.0% |
| STS/005b | Canran y priffyrdd a'r tir perthnasol a gafodd ei archwilio, ac yr oedd ei lanweithdra o safon uchel neu dderbyniol **Mesurydd Atebolrwydd Cyhoeddus** | Gwyrdd | 96.0% | **97.5%** | 10 o blith 22 | 96.8% | 97.0% |
| PPN/009 | Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd **Mesurydd Atebolrwydd Cyhoeddus** | | Ni osodwyd targed | **96.5%** | 5 o blith 22 | 94.1% | Ni osodwyd targed |
| PLA/006 * (Lleol) | Yr unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | Oren | 29.0% | **28.7%** | Amh. | Amh. | 29.0% |
| THS/012 | Canran y prif ffyrdd (A), y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a'r ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol **MAC** | Coch | 9.5% | **10.73%** | 17 o blith 22 | 8.91% | 11.2% |
| Rhagorwyd ar y targed ar gyfer prif ffyrdd (A) a (B) ac er nad yw'r targed wedi cael ei gyflawni ar gyfer ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C), cafwyd gwelliant yn eu cyflwr ers y flwyddyn flaenorol. Mae hyd ffyrdd dosbarthiadol (C) yn arwyddocaol ac mae angen buddsoddiad sylweddol i wella cyflwr yr ased. Mae buddsoddi drwy Fenter Benthyca Llywodraeth Leol (LGBI) a Rhaglen Gyfalaf Conwy wedi gwella eu cyflwr cyffredinol yn y tair blynedd diwethaf, er gyda gostyngiad bychan yng nghyflwr ffyrdd (A) yn ystod y deuddeg mis blaenorol.<br><br>Mae'r buddsoddiad sydd ei angen i wrthdroi cyflwr y rhwydwaith ffyrdd sy'n dirywio yn fwy na lefel bresennol o gyllid. Ni ellir cyflawni'r targed heb y lefel briodol o gyllid ac adnoddau. Mae'r targed ar gyfer 2015/2016 wedi ei osod yn unol â'r cyllid sydd ar gael. | | | | | | | |

## 8 Dweud eich dweud

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i wella ein gwasanaethau ac mae'n bwysig ein bod ni'n gwrando ar yr hyn sydd gennych chi, y gymuned, i'w ddweud. Mae croeso i chi awgrymu gwelliant neu wneud sylw i'r Cyngor ei ystyried unrhyw adeg o'r flwyddyn, felly rhowch wybod i ni.

Cysylltwch â ni:

- Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau am gynnwys yr Adroddiad Blynyddol;
- Os hoffech argymell amcanion gwella newydd y dylai'r Cyngor eu hystyried;
- Neu os hoffech gopi o Gynllun Corfforaethol 2012 – 2017, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol neu'r Adroddiad Blynyddol.

| | |
|---|---|
| E-bost | **tgdc@conwy.gov.uk** |
| Ysgrifennwch at | **Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL32 8DU** |
| Rhif Ffôn | 01492 574000 |
| Gwasanaeth Cyfnewid Testun BT | Gall cwsmeriaid sydd â nam ar y clyw neu ar y lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu **18001** cyn y rhif y maent yn angen. |

Caiff yr Adroddiad Blynyddol hwn, y Cynllun Corfforaethol, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru oll eu cyhoeddi ar ein gwefan yn Gymraeg ac yn Saesneg. www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol neu www.conwy.gov.uk/accountability.

Mae modd i chi hefyd weld yr Adroddiadau yn defnyddio un o'r cyfrifiaduron sydd at ddefnydd y cyhoedd, yn rhad ac am ddim, ym mhob Llyfrgell yn y Sir ac wrth y dderbynfa ym Modlondeb ac wrth y dderbynfa yn y Swyddfeydd Dinesig.

Gellir darparu copïau o'r Adroddiad Blynyddol mewn Braille neu mewn print bras, neu ar gryno ddisg clywedol. Ffoniwch 01492 574000 i drefnu cael copi.

Er mwyn bod yn gynaliadwy a lleihau costau argraffu, mae nifer gyfyngedig o gopïau papur o'r Adroddiad Blynyddol ar gael yn y lleoliadau canlynol:

**Llyfrgelloedd y Sir**
**Llyfrgell Deithiol**
**Gwasanaeth i Bobl Sy'n Gaeth i'w Tai**
**Bodlondeb, Conwy**
**Neuadd y Dref, Llandudno**
**Yr Heath, Llanfairfechan**

**Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn**
**Adeiladau'r Llywodraeth, Dinerth Road, Bae Colwyn**
**Swyddfeydd Bron y Nant, Dinerth Road, Bae Colwyn**
**Swyddfeydd y Cyngor, Mochdre**
**Glasdir, Llanrwst**

Gellir gwneud cais am gopi papur drwy ffonio 01492 574000.

## 9 Ymhle y gallwch gael rhagor o wybodaeth am eich Cyngor?

- Gwefan www.conwy.gov.uk
- Gwefannau Cymdeithasol - Gallwch ein dilyn ar Twitter ac ar Facebook
- **'Un Conwy' 2012 – 2025** Cynllun integredig Bwrdeistref Sirol Conwy www.conwy.gov.uk/unconwy
- **Cynllun Corfforaethol 2012 - 2017** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Adroddiadau Perfformiad chwe-misol www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol
- Mae'r **Uned Data Llywodraeth Leol** yn casglu, cyflwyno ac yn cymharu data'r Fframwaith Mesur Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer pob Cyngor yng Nghymru. Mae adroddiad mesur perfformiad sy'n manylu ar y cynnydd a wnaed yng Nghonwy dros nifer o flynyddoedd i'w weld ar ein gwefan:

  www.lgdu-wales.gov.uk

  www.mylocalcouncil.info

  www.conwy.gov.uk/accountability

- Mae **Swyddfa Archwilio Cymru** yn arolygu perfformiad pob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae adroddiadau archwilio cenedlaethol a rhai am gynghorau penodol i'w gweld ar: www.wao.gov.uk
- Mae **Estyn** yn arolygu pob ysgol gynradd, pob ysgol uwchradd a phob Awdurdod Addysg Lleol ledled Cymru. Mae adroddiadau pob arolwg i'w gweld ar: www.estyn.co.uk
- Mae **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)** yn arolygu ansawdd sefydliadau gofal cymdeithasol ac ansawdd rhyw gymaint o'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar y Sir. Mae adroddiadau pob arolwg i'w gweld ar: www.cssiw.org.uk